# Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Gweithredu 2017

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Blaenau Gwent
Early Years Development & Childcare Partnership
Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Blaenau Gwent
Gwasanaethaun Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Service

# Ffurflen Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent**

**Enw'r swyddog cyfrifol: Claire Smith**

**Dyddiad Cwblhau: 08.05.2017**
Rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant erbyn 31 Mawrth 2017.

1. **Cyflwyniad**

**Cynnal yr Asesiad - Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant**

Yn ogystal â sefydlu llinell sylfaen o ddarpariaeth, bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn galluogi Awdurdodau Lleol i:

- mesur natur a maint yr angen am, a'r cyflenwad, o ofal plant yn yr ardal
- dynodi bylchau yn y farchnad a chynllunio sut i gefnogi'r farchnad i fynd i'r afael â hynny

Cynhyrchwyd templed i gefnogi gwerthusiad corfforaethol o'r materion y dylid eu hystyried fel y nodir yn y Canllawiau Statudol.

Mae'n rhaid i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ddangos fod yr Awdurdod Lleol wedi rhoi ystyriaeth i ac wedi asesu'r materion a nodir yn Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiad Awdurdodau Lleol) (Cymru) a'r Canllawiau Statudol.

Gallai Awdurdodau Lleol ystyried strwythuro'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn y ffordd ddilynol ac fel isafswm gyfarch yr holl adrannau a ddynodwyd.

| **Prif Ddatganiad**<br><br>**Dylid defnyddio'r adran hon i nodi cydnabyddiaeth yr Awdurdod Lleol o werth a phwysigrwydd gofal plant.**<br><br>Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent wedi gweithio'n gyson galed ers 2000 i wella digonolrwydd a hefyd ansawdd gofal plant a gynigir i deuluoedd lleol. Dim ond 114 o leoedd gofal plant cofrestredig oedd ym Mlaenau Gwent yn 2003 a bu'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r sector dros y degawd nesaf i sicrhau twf sylweddol yn nifer y lleoedd i dros 1300 erbyn 2014. Mae nifer y lleoedd wedi gostwng ychydig ers hynny ond mae wedi parhau'n gyson rhwng 1150 a 1250. |
|---|

Roedd Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i gyflwyno cynllun Sicrwydd Ansawdd. Mae'r cynllun presennol a ddefnyddir, y Cynllun Graddio Amgylcheddol, yn cefnogi ansawdd ym mhob meithrinfa ddydd, cylch meithrin, grŵp chwarae cofrestredig a chlwb y tu allan i'r ysgol. Gweithredwyd y cynllun hefyd ar gyfer gofalwyr plant, gyda mintai fach yn gweithio o fewn y cynllun ar hyn o bryd. Mae cynlluniau i gael mwy o ofalwyr plant i gymryd rhan yn y blynyddoedd i ddod. Mae gan y tîm Gofal Plant a Chwarae Blynyddoedd Cynnar (EYCP) Swyddog Gwella Ansawdd neilltuol sydd â'r rôl, wrth weithio gyda'r darparwyr i godi ansawdd, o sicrhau canlyniadau gyda gwelliant mewn sgoriau ansawdd. Mae'r Swyddog Digonolrwydd Chwarae hefyd yn cefnogi'r broses hon drwy gynnig cyngor arbenigol a hyfforddiant ar chwaraeon. Mae Blaenau Gwent wedi defnyddio dulliau blaengar a chreadigol i annog y defnydd o ofal plant, yn cynnwys sioeau ffordd gofal plant, grwpiau ffocws a sesiynau allgymorth ac mae hefyd wedi paratoi ystod o ddeunyddiau marchnata wedi'i dargedu. Caiff gofal plant ym Mlaenau Gwent ei frandio'n helaeth gyda'r is-bennawd 'Gofal Plant yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair!' a chaiff ei hyrwyddo'n dda a'i adnabod. Bu gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd rôl ganolog yn y tîm sy'n cyflwyno sesiynau allgymorth mewn swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith a chlinigau cyn-enedigol ac yn cefnogi amrywiaeth o ddigwyddiadau'r Awdurdod Lleol a chymunedol, i hyrwyddo gofal plant a gwasanaethau eraill cefnogaeth teulu. Roedd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn un o'r cyntaf yng Nghymru i dderbyn Dyfarniad Ansawdd. Yn ychwanegol, mae gan y tîm EYCP Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant y rôl o gefnogi ein darparwyr presennol i sicrhau cynaliadwyedd/ehangu eu darpariaeth ac annog a gweithio gyda darparwyr newydd i ddatblygu'r sector.

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn rhannu barn Llywodraeth Cymru fod darparu gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar ansawdd uchel â rôl bwysig wrth fynd i'r afael â thlodi a gostwng anghydraddoldeb, fel y nodir yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae llawer o dystiolaeth sy'n tanlinellu pwysigrwydd profiad blynyddoedd cynnar i ddeilliannau plant yn y dyfodol mewn ystod o feysydd yn cynnwys iechyd, addysg a ffyniant economaidd. Gall gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar ansawdd uchel gael dylanwad cadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer plant. Mae gan Gyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent ymrwymiad i barhau i ymdrechu am ansawdd a rhagoriaeth yn ein holl ddarpariaeth gofal plant .

Mae Blaenau Gwent wedi ymestyn Dechrau'n Deg yn llwyddiannus i 13 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, gan weithio gyda hyd at 1000 o blant a'u teuluoedd bob blwyddyn yn dangos effaith gadarnhaol iawn ar ddeiliannau ar gyfer plant. Mae'r tîm EYCP yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Dechrau'n Deg i ddatblygu a rhannu arfer da a chynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer yr holl weithlu gofal plant.

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent hefyd yn cydnabod fod darpariaeth gofal plant hefyd yn anhygoel o bwysig i rieni

sy'n gweithio a rhieni mewn hyfforddiant, gan roi cyfle iddynt fod yn economaidd weithgar a chyfrannu at ffyniant economaidd yr ardal. Mae gennym gysylltiadau da gyda chydweithwyr mewn Adfywio a Chynllunio i sicrhau ein bod yn cydweithio i ddynodi unrhyw ddatblygiadau a all fod ag effaith ar anghenion gofal plant yn lleol.

**2. Cynnwys**


1. Cyflwyniad / Cyd-destun
2. Gweithio Partneriaeth ac Ymgynghoriad
3. Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad Lleol o Anghenion Llesiant
4. Poblogaeth
5. Trosolwg - Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd
6. Cyflenwad Gofal Plant
    - 6.1. Gofalwyr Plant
    - 6.2. Meithrinfeydd Dydd Llawn
    - 6.3. Gofal Dydd Sesiynol
    - 6.4. Crèches
    - 6.5. Gofal y tu Allan i'r Ysgol
    - 6.6. Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored
    - 6.7. Nanis
7. Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr
    - 7.1. Defnydd Presennol
    - 7.2. Galw am Ofal Plant
    - 7.3. Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant
8. Addysg Feithrin am ddim a darpariaeth Dechrau'n Deg
9. Darpariaeth Clwb Brecwast am ddim
10. Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan Gyflogwyr/Gofal Plant Di-dreth
11. Cynaliadwyedd
12. Traws-ffin
13. Datblygiad a Hyfforddiant Gweithlu
14. Canlyniadau Ymgynghoriad gyda Rhanddeiliaid (fel yr amlinellir yn adran 2)
15. Crynodeb - Dadansoddiad Bwlch a Meysydd i'w Gwella
16. Cynllun Gweithredu

## 1. Cyflwyniad/Cyd-destun

**Dylai'r adran hon ddisgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal a chymeradwyo'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Cynllun Gweithredu. Dylai ddynodi'r heriau allweddol wrth gynnal yr Asesiad a disgrifio'r mecanwaith y mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig ei ddefnyddio i fynd â'r camau gweithredu a ddynodwyd ar gyfer y cynllun gweithredu rhagddynt.**

Cynhaliwyd yr Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn defnyddio amrywiaeth o fethodolegau i gasglu gwybodaeth yn ymwneud â'r cyflenwad o ofal plant, y galw am ofal plant a barn rhanddeiliaid allweddol am y farchnad gofal plant ym Mlaenau Gwent. Eleni, cafodd Awdurdodau Lleol ddata cyflenwad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Casglwyd gwybodaeth am y galw drwy arolwg i rieni ac o ddata poblogaeth, gwybodaeth am y farchnad fusnes leol, datblygiadau tai ac o raglenni cenedlaethol.

Nid oedd y data cyflenwad a gafwyd gan AGGCC ar eu Hunanasesiad o Safon Gwasanaeth (SASS) (rhan 1) ar-lein, a dderbyniwyd ym mis Tachwedd 2016, yn rhoi'r darlun llawn o ddarpariaeth ym Mlaenau Gwent. Mae cyfraddau ymateb ar gyfer Awdurdodau Lleol ar draws Cymru yn amrywio o 62.2 - 87.5% gyda chyfartaledd Cymru o 70%. Roedd y gyfradd ymateb ym Mlaenau Gwent yn 78.5% ac yn dangos y lefel sylweddol o gefnogaeth a roddwyd gan y Tîm EYCP i annog a chynorthwyo darparwyr i gwblhau. Ers derbyn data SASS, aethpwyd ati i ddynodi'r darparwyr nad oedd wedi llenwi'r Hunanasesiad ar-lein a chasglwyd gwybodaeth gan y darparwyr hynny. Roedd problemau gyda'r data a gafwyd drwy'r broses Hunanasesiad, gyda rhai adrannau heb gael eu llenwi'n gywir, felly gwnaed gwaith i wirio ac egluro'r wybodaeth hon lle'n bosibl.

Mae galw rhieni am ofal plant yn deillio'n gyffredinol o wybodaeth a gasglwyd gan arolygon rhieni. Rhoddwyd templed arolwg i Awdurdodau Lleol gan Lywodraeth Cymru eleni oedd yn cyflwyno nifer o heriau. Nod yr arolwg oedd cael gwybodaeth fanwl iawn gan rieni am y galw presennol am ofal plant a'r galw a'r gofynion ar gyfer y dyfodol ac roedd hyn yn anochel yn gwneud yr holiadur yn faith iawn ac yn gymhleth mewn rhannau. Roedd hyd a chymhlethdod yr arolwg yn peri heriau wrth greu arolwg ar-lein a chael rhieni i'w lenwi. Bu'r Tîm EYCP yn hyrwyddo'r arolwg ar-lein yn helaeth gyda negeseuon wythnosol ar dudalen Facebook y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a dolenni ar dudalennau Facebook a Twitter eraill. Cafodd y ddolen ei hyrwyddo hefyd i holl staff yr Awdurdod Lleol a chyflogwyr mawr eraill ym Mlaenau Gwent. Dosbarthwyd deunyddiau marchnata drwy bost disgyblion a

rhoddwyd arolygon copi caled i bob darparydd gofal plant. Cafodd tîm EYCP gymorth y Tîm Gwasanaethau Integredig ehangach i lenwi arolygon ar-lein a hefyd gopi caled ac atodi'r broses drwy gysylltu gyda grwpiau rhiant a phlentyn, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Fe wnaeth y tîm hefyd ymestyn oes yr arolwg gan fis i gynyddu'r nifer a lenwyd. Cafodd yr arolwg ei lenwi gan 435 rhiant, sy'n nifer siomedig o gymharu gydag arolygon Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant blaenorol ymysg rhieni. Nid yw hyn yn nifer digon uchel i ni gael data ystadegol arwyddocaol ohono. Fodd bynnag, mae hyn yn broblem i bob Awdurdod Lleol ledled Cymru ac roedd gan Blaenau Gwent gyfradd ymateb dda iawn o gymharu ag ardaloedd eraill.

Gofynnwyd am sylwadau plant drwy fynychu Uwch Gyngor Plant Blaenau Gwent a thrwy arolygon a anfonwyd i'n Clybiau Ar Ôl Ysgol. Cafodd y tîm EYCP nifer dda o ymatebion i'r arolwg a bu modd iddynt ddefnyddio'r data hwn yn ychwanegol at yr wybodaeth a gafwyd yn yr Uwch Gyngor Plant.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol eraill; llythyrau, cyfarfodydd, negeseuon e-bost, arolygon a galwadau ffôn. Bu'n her cael ymateb gan rai rhanddeiliaid, yn arbennig cyflogwyr, ond gwnaeth tîm EYCP bob ymdrech i gysylltu gyda phob grŵp rhanddeiliaid a chafodd ystod dda o ymatebion.

Bu hefyd heriau gyda nifer o asesiadau strategol ac adroddiadau'n rhedeg ar yr un pryd; roedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Asesiad Lleol o Anghenion Llesiant yn cael eu cynnal yr un pryd â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Mae hyn wedi achosi rhai anawsterau gan fod pob darn o waith wedi golygu fod angen ymgynghori gyda'r boblogaeth leol ac mae'n bosibl y gallai hyn hefyd fod wedi effeithio ar y cyfraddau ymateb i arolygon a gyhoeddwyd. Mae hefyd wedi achosi problemau gan fod yn rhaid i bob cynllun gyfeirio at ganfyddiadau gan eraill, fel canlyniad mae'n rhaid i ni gyflwyno canfyddiadau cynnar o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, yn hytrach na medru cyflwyno'r asesiad a chynllun gweithredu llawn.

Rhoddwyd adroddiadau ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Gweithredu 2017 i Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Blaenau Gwent, Uwch Dîm Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'i gymeradwyo ganddynt.

Bydd Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Blaenau Gwent yn cymryd rôl monitro, gan graffu cynnydd a herio cywerthedd y camau gweithredu hyd yma. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol a bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Gweithredu 2017-2021 yn eitem reolaidd ar yr agenda.

**2. Gweithio Partneriaeth ac Ymgynghoriad**

**Dylai'r adran hon ddangos i ba raddau y gwnaeth y rhanddeiliaid, fel yr ystyrid yn briodol, a ddynodwyd yn atodlen 2 y Canllawiau Statudol ymwneud â chynnal yr Asesiad a datblygu'r cynllun gweithredu. Dylai ddisgrifio sut y cafodd yr Awdurdod Lleol farn rhanddeiliaid a sut y cafodd yr wybodaeth ei dadansoddi a'i defnyddio i fod yn sail i gynlluniau yn y dyfodol.**

**Yn neilltuol, yn unol ag atodlen 2, mae'n rhaid cyfeirio at y dilynol:**

- **Bwrdd Diogelu Plant**
- **Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg**
- **Grŵp Monitro Chwarae**
- **Swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith**

**Dylid hefyd gyfeirio at ba ymgysylltu a ddigwyddodd gyda:**

- **Adrannau perthnasol yr awdurdod lleol - cynllunio, tai, addysg**
- **Sefydliadau ymbarél/partner**
- **AGGCC**
- **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd**
- **Awdurdodau lleol cyfagos**

**Os ymgynghorwyd ag unrhyw randdeiliaid ychwanegol wrth baratoi'r Asesiad a'r Cynllun Gweithredu, bydd angen cyfeirio atynt yma.**

Cysylltodd tîm EYCP gydag ystod o randdeiliaid allweddol wrth baratoi a dadansoddi'r Asesiad a'r Cynllun Gweithredu yma. Maent yn cynnwys:
435 rhiant
25 plentyn

63 darparydd gofal plant lleol
Partneriaeth Cwlwm
Pob sefydliad ymbarél; PACEY Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a Clybiau Plant Cymru Kids Clubs
Bwrdd Diogelu De Ddwyrain Cymru
5 cyflogwr lleol
Grŵp Partneriaeth Cydlynu Cyflogaeth Blaenau Gwent
Tîm Adfywio, Addysg, Cynllunio a Strategaeth Tai yr Awdurdod Lleol
Ysgolion cynradd ac uwchradd lleol
Coleg Gwent
Canolfan Byd Gwaith
Aneurin Leisure; Sgiliau Gwaith i Oedolion, Addysg Oedolion - cynghorydd cyflogadwyedd a dosbarth ESOL
Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent
Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar Gofal Plant a Chwarae
5 awdurdod lleol cyfagos: Caerffili, Torfaen, Sir Fynwy, Merthyr Tudful a Phowys

Gofynnwyd i lawer o randdeiliaid am eu sylwadau drwy lenwi holiaduron ac anfonwyd llythyrau a negeseuon e-bost hefyd at rai rhanddeiliaid (Bwrdd Diogelu De Ddwyrain Cymru, AGGCC, Coleg Gwent, Canolfan Byd Gwaith, aelodau Fforwm Addysg Gymraeg a chydweithwyr Awdurdod Lleol). Bu ymateb gan bob sefydliad y cysylltwyd â hwy heblaw am AGGCC.

Mae'r Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn gweithredu fel y Grŵp Monitro Chwarae ym Mlaenau Gwent. Cafodd y bartneriaeth ei diweddaru'n rheolaidd ar gynnydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac mae cydweithwyr sy'n eistedd ar y Bartneriaeth wedi cyfrannu ymatebion.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhan ganolog o'r tîm EYCP a rhoddodd gefnogaeth allweddol wrth hyrwyddo arolygon yr Arolwg o Ddigonolrwydd Gofal Plant a gwirio data darparydd a darparu data ychwanegol i gefnogi'r broses.

## 3. Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad Lleol o Anghenion Llesiant

**Dylai'r adran hon ddynodi sut mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant wedi rhoi ystyriaeth i ac wedi rhoi gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Lleol o Anghenion Llesiant a gynhaliwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.**

Mae'r Swyddog sy'n gyfrifol am gwblhau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant wedi cwrdd gyda swyddogion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am lenwi'r Asesiad Lleol o Anghenion Llesiant i drafod y cysylltiadau rhwng y ddau ddarn o waith. Cafodd gwybodaeth ddrafft a gasglwyd drwy'r Asesiad Lleol o Anghenion Llesiant ei rhannu gyda Rheolwr EYCP ac yn yr un modd cafodd gwybodaeth ddrafft a chanfyddiadau cynnar gan yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant eu rhannu gyda chydweithwyr yn cynnal yr Asesiad Lleol o Anghenion Llesiant ym mis Ionawr. Ar ôl ei gwblhau, caiff yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Cynllun Gweithredu eu rhannu ar y cam ymgynghori.

Cynhaliodd cydweithwyr Blaenau Gwent ymarferiad mawr yn ystod Haf a Hydref 2016 i ganfod barn pobl leol dan yr enw 'Y Blaenau Gwent a Garem'. Bu ymgysylltu cymunedol mewn sawl ffurf (arolygon, cardiau post, ymgysylltu grŵp, celf/graffiti) a rhannodd cydweithwyr wybodaeth ar ddigwyddiadau addas a grwpiau i'w targedu gyda'r tîm EYCP a'r ffordd arall o amgylch. Cafwyd tua 1000 o ymatebion i 'Y Blaenau Gwent a Garem' ac mae rhai o'r prif ganfyddiadau o'r Dadansoddiad Trosolwg yn cynnwys:

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Pa bethau sydd bwysicaf i chi i fyw'n dda a mwynhau eich bywyd?', yr ymatebion a gafwyd oedd:
5 thema uchaf:

- **Cyflogaeth ac Incwm, 56 (14%)**
- Gweithgareddau Cymdeithasol, 55 (13%)
- Cymuned, 53 (13%)
- Trafnidiaeth, 48 (12%)
- Amgylchedd, 44 (11%)

5 pwnc uchaf:

- Teulu a Ffrindiau, 40 (10%)
- **Argaeledd cyflogaeth ac incwm, 32 (8%)**
- Argaeledd gweithgareddau cymdeithasol, 31 (8%)
- Seilwaith trafnidiaeth, 30 (7%)

- Strydoedd taclus a glân, 15 (4%)

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Beth fyddai'n gwneud Blaenau Gwent yn lle gwell?', yr ymatebion oedd;
5 thema uchaf:

- Amgylchedd, 294 (19%)
- Diogelwch, 135 (9%)
- **Cyflogaeth ac Incwm, 130 (8%)**
- Adfywio, 126 (8%)
- Gweithgareddau Cymdeithasol, 113 (7%)

5 pwnc uchaf:

- Strydoedd glân a thaclus, 136 (9%)
- Argaeledd gwasanaethau cymdeithasol, 68 (4%)
- **Argaeledd cyflogaeth ac incwm, 61 (4%)**
- Presenoldeb yr heddlu, 58 (4%)
- Gwastraff ac ailgylchu, 56 (4%)

Nodir felly fod cyflogaeth ac incwm yn ymddangos yn gyson yn y materion o gonsyrn a dyheadau ein preswylwyr. Nid yw'n ymddangos fod problemau gyda gofal plant wedi eu codi mewn unrhyw rifau sylweddol drwy'r broses ymgysylltu, fodd bynnag fe gododd holiadur rhieni yr Arolwg ar Ddigonolrwydd Gofal Plant bryderon am rwystrau i ddefnydd gofal plant, yn fwyaf arbennig y gost, a ystyrir yn fanylach mewn adran ddiweddarach o'r adroddiad hwn.

Edrychir yn fanylach ar waith gan gydweithwyr yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddynodi tueddiadau poblogaidd ac economaidd yn adran nesaf yr adroddiad.

## 4. Poblogaeth

Dylai'r adran hon gynnwys proffil o'r holl fwrdeisdref yn cynnwys demograffeg. Dylai'r wybodaeth ddemograffig ddod o wybodaeth a gasglwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ddatblygu eu Hasesiad Lleol o Anghenion Llesiant i roi arwydd o:

- Rhagamcan ffigyrau poblogaeth ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol
- Y prif dueddiadau a ffactorau sy'n debygol o effeithio ar y ffigyrau hynny

Gallai Awdurdodau Lleol hefyd ddymuno ystyried cynnwys y canilynol yn eu hasesiad:

- Ffigyrau poblogaeth (cyfredol a blaenamcan) yn ôl oedran plant
- Cyfraddau genedigaethau byw
- Gwybodaeth ar nifer y plant gydag anableddau
- Nifer aelwydydd mewn gwaith gyda phlant dibynnol
- Nifer teuluoedd o gefndiroedd lleiafrif ethnig
- Nifer teuluoedd incwm isel gyda phlant dibynnol
- Nifer teuluoedd rhiant unigol gyda phlant dibynnol
- Nifer teuluoedd di-waith gyda phlant dibynnol
- Nifer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg
- Nifer plant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledd

| | **Caerffili** | **Blaenau Gwent** | **Torfaen** | **Sir Fynwy** | **Casnewydd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 30 Mehefin 2011 | 178,782 | 69,812 | 91,190 | 91,508 | 145,785 |
| 30 Mehefin 2012 | 179,022 | 69,822 | 91,372 | 91,659 | 146,106 |
| 30 Mehefin 2013 | 179,247 | 69,789 | 91,407 | 92,100 | 146,558 |
| 30 Mehefin 2014 | 179,941 | 69,674 | 91,609 | 92,336 | 146,841 |
| 30 Mehefin 2015 | 180,164 | 69,544 | 91,636 | 92,476 | 147,769 |


Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

**Ffigwr 4a**

Bu poblogaeth Blaenau Gwent yn gostwng dros nifer o ddegawdau, er i gyfradd y gostyngiad sefydlogi yn y cyfnod ugain mlynedd, 1991-2011 ac roedd ar ei gyfradd isaf o ostyngiad ers 1921, yng nghyfnod y degawd 2001-2011. Dengys blaenamcanion poblogaeth fod cyfradd araf o ostyngiad yn debygol o barhau hyd 2039, gyda'r boblogaeth yn gostwng o 69,700 i 66,300.

Ffynhonnell: http://www.blaenaugwentpsb.org.uk/media/25326/2-Blaenau-Gwent-People-and-Places.pdf

Mae cyfran y boblogaeth 0-15 ym Mlaenau Gwent yn is, ar 17.5%, na chyfartaledd Cymru gyfan o 17.9% ac mae wedi gostwng gan 0.4% ers 2011 pan oedd y canran yn 17.9%. Mae hyn yn cymharu gyda gostyngiad o 0.2% yng nghyfartaledd Cymru gyfan, ond yn cymharu gyda'r gostyngiad o 0.5% yn rhanbarth Gwent yn ystod yr un cyfnod. Disgwylir i'r boblogaeth barhau i ostwng gan 3 phwynt canran hyd at 2036 - gweler y tabl islaw:




**Ffigwr 4b**

Ffynhonnell: 'Deall Llesiant Lleol, Asesiad Cryno ar gyfer Rhanbarth Gwent' Awst 2016.

Mae'r tabl islaw'n dangos yr amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2015 wedi'u mireinio i ddangos nifer y plant ym mhob Ardal Cynllunio Cymunedol:

| Ardal Cynllunio Cymunedol | Pob 0-17 cyfab | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sirhywi | 2927 | 154 | 188 | 176 | 171 | 154 | 158 | 151 | 154 | 163 | 157 | 146 | 182 | 158 | 127 | 159 | 159 | 175 | 195 |
| Ebwy Fawr | 4810 | 272 | 245 | 265 | 259 | 287 | 280 | 270 | 249 | 250 | 292 | 261 | 231 | 223 | 239 | 253 | 313 | 290 | 331 |
| Gogledd Ebwy Fach | 3196 | 167 | 162 | 172 | 152 | 174 | 169 | 184 | 222 | 174 | 210 | 171 | 167 | 153 | 149 | 184 | 186 | 199 | 201 |
| De Ebwy Fach | 3215 | 166 | 194 | 190 | 168 | 193 | 228 | 200 | 176 | 168 | 179 | 171 | 151 | 149 | 141 | 170 | 194 | 191 | 186 |
| Cyfanswm | 14148 | 759 | 789 | 803 | 750 | 808 | 835 | 805 | 801 | 755 | 838 | 749 | 731 | 683 | 656 | 766 | 852 | 855 | 913 |

**Ffigwr 4c**

Ffynhonnell: www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/lowersuperoutputareamidyearpopulationestimates


Amcangyfrifir fod gan un plentyn mewn ugain anabledd a byddai hyn yn gyfaystyr â 707 o blant ym Mlaenau Gwent. Mae 30 o blant wedi'u rhestru ar hyn o bryd ar y Fynegai Anabledd mewn Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mlaenau Gwent ond cydnabyddir fod gwahanol ddiffiniadau o anabledd ac y gall trothwyon i gael mynediad i wasanaethau olygu nad yw pob plentyn yn cael eu cyfrif.

Dengys data Cyfrifiad 2011 fod poblogaeth Pobl Dduon a Lleiafrif Ethnig Blaenau Gwent ychydig dan 1900. Mae hyn yn gyfystyr â 2.6% o'r holl boblogaeth a chryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru o 6.7%. Yn 2011 roedd y canran o bobl ym Mlaenau Gwent o grwpiau lleiafrif ethig yn 1.8%, tua 1300 o bobl, sy'n dangos cynnydd amlwg rhwng 2001 a 2011. Hyd yn oed wedyn, mae Blaenau Gwent yn dal i fod ag un o'r lefelau isaf o bobl o grwpiau lleiafrif ethnig yn Lloegr a Chymru.
Ffynhonnell: http://www.blaenaugwentpsb.org.uk/media/25326/2-Blaenau-Gwent-People-and-Places.pdf


Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn is, ar 7.8% ym Mlaenau Gwent, nag yn rhanbarth Gwent ac yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru gyfan o 19%. Mae'r ffigur wedi gostwng o 2001 pan oedd y canran yn 9.5% ac mae'n cyd-fynd â'r gostyngiad a welwyd ar draws Gwent a Chymru yn gyffredinol.

Ffynhonnell: 'Deall Llesiant Lleol, Asesiad Cryno ar gyfer Rhanbarth Gwent' Awst 2016

Mae'r siartiau dilynol yn dangos y canran o bobl oedran gwaith oedd yn economaidd weithgar ym mis Mawrth 2016 a'r canran o bobl oedran gwaith sy'n gyflogedig. Dangosant mai Blaenau Gwent sydd â'r gyfradd gweithgaredd economaidd isaf a'r nifer isaf o bobl oedran gwaith mewn cyflogaeth yng Ngwent a'i fod hefyd yn is na chyfartaledd Cymru.




**Ffigwr 4d**





**Ffigwr 4e**

Ffynhonnell: 'Deall Llesiant Lleol, Asesiad Cryno ar gyfer Rhanbarth Gwent' Awst 2016

Mae gan Blaenau Gwent gyfran uwch o aelwydydd heb waith, ar 23.6%, na'r Awdurdodau eraill yn rhanbarth Gwent ac mae hefyd yn gyfradd uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, ar 18.3%. Fodd bynnag, bu'r canran o aelwydydd heb waith yn gostwng rhwng 2011 a 2015 ar gyfradd gynt na chyfartaledd Cymru gyfan, 8.2% pwynt o gymharu gyda 4.1% pwynt. Disgwylir y bydd y tueddiad yn parhau. Ffynhonnell: http://www.blaenaugwentlsb.org.uk/media/25335/42a-Working-Households.pdf

Mae'r siart islaw'n dangos y nifer o blant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith dros gyfnod o bum mlynedd, 2011 - 2015. Blaenau Gwent sydd â'r canran trydydd uchaf o blith Awdurdodau Lleol yng Nghymru o blant yn byw mewn aelwydydd heb waith. Bu nifer y plant yn gostwng dros y cyfnod o bedair blynedd 2011 i 2014 ond cynyddodd eto yn 2015. Nid yw hyn yn dilyn tueddiad Cymru gyfan o ostyngiad parhaus.

Bu nifer rhieni unigol ym Mlaenau Gwent yn gostwng yn gyson o 3.7% yn 2000 i 1.6% yn 2015 ac mae'n dangos mwy o ostyngiad na chyfartaledd Cymru gyfan a aeth o 2.8% i 1.2% yn yr un cyfnod.




| | Blaenau Gwent | Wales |
|---|---|---|
| 2011 | 33.3 | 18.7 |
| 2012 | 30.6 | 17.8 |
| 2013 | 29.3 | 16.6 |
| 2014 | 18.0 | 14.6 |
| 2015 | 21.6 | 13.6 |

**Ffigyrau 4f a 4g**

Ffynhonnell: [https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157401/subreports/dwp_time_series/report.aspx](https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157401/subreports/dwp_time_series/report.aspx)?

Dengys y tabl islaw fod y cyflog wythnosol crynswth cyfartalog ar gyfer gweithwyr yn sylweddol is nag ar gyfer Cymru ac yn sylweddol iawn yn is na chyfartaledd Prydain Fawr. Bu'r bwlch yn culhau hyd 2015 pan ostyngodd y gwahaniaeth rhwng cyfartaledd Blaenau Gwent a chyfartaledd Cymru gyfan i £34.90, fodd bynnag mae'r ffigyrau ar gyfer 2016 yn dangos fod y bwlch wedi lledu eto gyda gwahaniaeth o £83.50.

**Earnings by place of work (2016)**

| | Blaenau Gwent (Pounds) | Wales (Pounds) | Great Britain (Pounds) |
|---|---|---|---|
| **Gross Weekly Pay** | | | |
| Full-Time Workers | 408.9 | 492.4 | 540.2 |
| Male Full-Time Workers | 504.8 | 525.0 | 580.6 |
| Female Full-Time Workers | 360.0 | 448.5 | 480.8 |
| **Hourly Pay - Excluding Overtime** | | | |
| Full-Time Workers | 11.02 | 12.50 | 13.64 |
| Male Full-Time Workers | 13.70 | 12.86 | 14.24 |
| Female Full-Time Workers | 10.20 | 11.90 | 12.83 |

Source: ONS annual survey of hours and earnings - workplace analysis
Notes: Median earnings in pounds for employees working in the area.

view time-series compare other areas query dataset...

**Ffigwr 4h**

Ffynhonnell: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157401/subreports/dwp_time_series/report.aspx?

## 5. Trosolwg - Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd

5.1 Nifer Darparwyr Gofal Plant a Math o Wasanaethau (Wedi Cofrestru a Heb Gofrestru/Cymeradwyo)

| Math o Ofal Plant | Wedi cofrestru | Heb gofrestru/ cymeradwyo | Gwasanaethau Gofal Plant a gynigir | Wedi cofrestru | Heb gofrestru/ cymeradwyo |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofalwr Plant | 36 | 0 | Gofal dydd llawn blwyddyn gron | 35 | 0 |
| | | | Gofal hanner diwrnod blwyddyn gron | 28 | 0 |
| | | | Cyn ysgol | 29 | 0 |
| | | | Ar ôl ysgol | 35 | 0 |
| | | | Amlap | 21 | 0 |
| | | | Darpariaeth gwyliau | 29 | 0 |
| | | | Arall | 2 | 0 |
| Gofal Dydd | | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | 6 | 0 | Meithrinfa diwrnod llawn blwyddyn gron | 6 | 0 |
| | | | Meithrinfa hanner diwrnod blwyddyn gron | 6 | 0 |
| | | | Cyn ysgol | 6 | 0 |
| | | | Cylch Meithrin/Grŵp Chwarae Bore | 4 | 0 |
| | | | Cylch Meithrin/Grŵp Chwarae Prynhawn | 4 | 0 |
| | | | Ar ôl ysgol | 5 | 0 |
| | | | Amlap | 8 | 0 |
| | | | Cinio | 3 | 0 |
| | | | Darpariaeth gwyliau | 5 | 0 |
| | | | Crèche | 0 | 0 |
| | | | Arall | 0 | 0 |
| Gofal Dydd Sesiwn | 11 | 3 | Cylch Meithrin/Grŵp Chwarae Bore | 8 | 2 |
| | | | Cylch Meithrin/Grŵp Chwarae Prynhawn | 9 | 1 |
| | | | Amlap | 4 | 0 |
| | | | Cinio | 5 | 0 |
| | | | Arall | o | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Crèche | 0 | 0 | Gweithredu Diwrnod Llawn | 0 | 0 |
| | | | Gweithredu Boreau | 0 | 0 |
| | | | Gweithredu Prynhawniau | 0 | 0 |
| | | | Darpariaeth Gwyliau | 0 | 0 |
| | | | Arall (Symudol) | 1 | 0 |
| Gofal y tu Allan i'r Ysgol | 2 | 2 | Cyn Ysgol | 0 | 0 |
| | | | Ar ôl Ysgol | 2 | 2 |
| | | | Darpariaeth Gwyliau | 1 | 0 |
| | | | Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 |
| | | | Arall | 0 | 0 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 0 | 0 | Cyn Ysgol | 0 | 0 |
| | | | Ar ôl Ysgol | 0 | 0 |
| | | | Darpariaeth Gwyliau | 0 | 0 |
| | | | Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 |
| | | | Arall | 0 | 0 |
| Nani | 0 | | Gofal diwrnod llawn blwyddyn gron | 0 | 0 |
| | | | Gofal hanner diwrnod blwyddyn gron | 0 | 0 |
| | | | Cyn ysgol | 0 | 0 |
| | | | Ar ôl ysgol | 0 | 0 |
| | | | Amlap lleoliad Addysg Gynnar rhan-amser, e.e. grŵp chwarae neu ddosbarth meithrin ysgol | 0 | 0 |
| | | | Darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol | 0 | 0 |
| | | | Arall | 0 | 0 |
| CYFANSWM | 55 | 5 | | | |

Dosbarthiad Daearyddol Darparwyr Gofal Plant a Gwasanaethau a Ddarperir (Wedi Cofrestru a Heb Gofrestru/Cymeradwyo)


| Ardal Cynllunio Cymunedol | Gofal Plant Cofrestredig | Lleoedd Cyf | Gofal Plant heb Gofrestru | Lleoedd heb Gofrestru |
|---|---|---|---|---|
| Sirhywi | 2 Gofal Diwrnod Llawn (2 Feithrinfa Ddydd) | 85 | | |
| | 3 Gofalwr Plant | 13 | | |
| | 2 Gofal Sesiwn (1 Grŵp Chwarae, 1 Cylch Meithrin) | 50 (50)* | 1 Gofal Dydd Sesiwn (Grŵp Chwarae) | 20 |
| | 2 Gofal Ar ôl Ysgol | 40 | | |
| | 1 Clwb Gwyliau | 16 | | |
| | CYFAN – 10 darparydd | 204 (50) | | 20 |
| Ebwy Fawr | 4 Gofal Diwrnod Llawn (3 Feithrinfa Ddydd, 1 Grŵp Chwarae) | 187 (20)* | | |
| | 7 Gofalwr Plant | 40 | | |
| | 2 Gofal Sesiwn (2 Grŵp Chwarae) | 48 (48)* | 1 Gofal Dydd Sesiwn (Grŵp Chwarae) | 20 |
| | 1 Gofal Ar ôl Ysgol | 20 | 1 Clwb Ar ôl Ysgol | 24 |
| | 1 Clwb Gwyliau | 20 | | |
| | CYFAN – 15 darparydd | 315 (68) | | 48 |
| GOGLEDD EBWY FACH | 2 Gofal Diwrnod Llawn (1 Feithrinfa Ddydd, 1 Cylch Meithrin) | 68 (26)* | | |
| | 11 Gofalwr Plant | 77 | | |
| | 1 Gofal Sesiwn (1 Grŵp Chwarae) | 24 | | |
| | 2 Glwb ar ôl Ysgol (1 Clwb Ar ôl Ysgol, 1 Feithrinfa Ddydd) | 64 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2 Glwb Gwyliau (1 Clwb Ar ôl Ysgol, 1 Feithrinfa Ddydd) | 64 | | |
| | CYFAN - 17 darparydd | 297 (26)* | | |
| De Ebwy Fach | 2 Gofal Dydd Llawn *(1 Grŵp Chwarae, 1 Cylch Meithrin) | 48 (48)* | | |
| | 15 Gofalwr Plant | 100 | | |
| | 2 Gofal Dydd Sesiwn (2 Grŵp Chwarae) | 56 | 1 Gofal Dydd Sesiwn (Grŵp Chwarae) | 24 |
| | Gofal Ar ôl Ysgol | 0 | 1 Clwb Ar ôl Ysgol | 25 |
| | Clwb Gwyliau | 0 | | |
| | CYFAN – 19 darparydd | 204 (48)* | | 49 |
| Cyfanswm | 61 darparydd | 1212 | 5 darparydd | 117 lle |

(* Lleoedd ychwanegol ar gyfer sesiynau prynhawn)

**Ffigwr 5.1.a**

Mae'r siart islaw'n dangos y cyfrannau o leoedd gofal plant ar draws y bedair Ardal Cynllunio Cymunedol a chaiff ei chymharu gyda nifer y lleoedd gofal plant yn y tabl islaw




**Nifer Lleoedd Gofal Plant ym mhob Ardal Cynllunio Cymunedol**

**Ffigwr 5.1.b**

Mae'r siart islaw'n dangos sut mae lleoedd gofal plant yn cymharu gyda niferoedd gofal plant.

| Ardal Cynllunio Cymunedol | Lleoedd wedi cofrestru | Nifer rhai 0-17 oed | Nifer lleoedd gofal plant |
|---|---|---|---|
| Sirhywi | 204 | 2927 | 0.07 |
| Ebwy Fawr | 315 | 4810 | 0.07 |
| Gogledd Ebwy Fach | 297 | 3196 | 0.09 |
| De Ebwy Fach | 204 | 3215 | 0.06 |

**Ffigwr 5.1.c**

5.2. Lleoedd Gofal Plant - Cyflenwad a Galw yn ôl Math Gofal Plant

<u>Darpariaeth wedi Cofrestru - Amser Tymor</u>

| Math Gofal Plant | Lleoedd wedi cofrestru | Amser Tymor | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Uchafswm nifer lleoedd gofal plant ar gael bob dydd | Nifer plant yn defnyddio'r gwasanaeth | Nifer lleoedd gwag | Nifer plant ar y rhestr aros | Nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen |
| Gofalwr Plant | 240 | 669 | 224 | 73 | 1 | 28 |
| Gofal Dydd | | | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | 294 | 592 | 482 | 572* | 37 | 24 |
| Gofal Dydd Sesiwn | 256 | 345 | 300 | 50 | 32 | 6 |
| Crèches | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 |
| Gofal Allan o'r Ysgol | 240 | 145 | 181 | 66 | 0 | 8 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Nani | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

(* mae hyn yn wybodaeth a gafwyd drwy ddata SASS. Ymddengys fod rhai lleoliadau wedi dehongli lleoedd gwag fel y nifer o leoedd y maent wedi cofrestru amdanynt yn hytrach na'r nifer o leoedd gwag sydd ganddynt. Dengys cofnodion yr Awdurdod Lleol fod ffigwr lleoedd gwag Gofal Dydd Llawn yn 139).

Y ffigyrau a gynhwysir yn y golofn 'nifer gofal plant sydd eu hangen' yw'r wybodaeth yn deillio o holiadur rhieni am anghenion gofal plant yn y dyfodol. Sampl cymharol fach o rieni Blaenau Gwent a lenwodd yr arolwg ac yn aml rhoddodd y rhai na wnaeth lenwi'r arolwg atebion anghyflawn neu ddryslyd yng nghyswllt eu hanghenion gofal plant yn y dyfodol, felly ni fedrir defnyddio'r data hwn ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.

Darpariaeth Eithriedig a Chymeradwy - Amser Tymor

| Math Gofal Plant | Amser Tymor | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Uchafswm nifer lleoedd gofal plant ar gael bob dydd | Nifer plant yn defnyddio'r gwasanaeth | Nifer lleoedd gwag | Nifer plant ar y rhestr aros | Nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen |
| Gofalwr Plant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal Dydd | | | | | |
| Meithrinfa Dydd Llawn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal Dydd Sesiwn | 64 | 61 | 23 | 0 | 0 |
| Crèches | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal Allan o'r Ysgol | 74 | 148 | 3 | 0 | 0 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Nani | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Darpariaeth Gofrestredig - Gwyliau Ysgol

| Math Gofal Plant | Lleoedd wedi cofrestru | Amser Tymor | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Uchafswm nifer lleoedd gofal plant ar gael bob dydd | Nifer plant yn defnyddio'r gwasanaeth | Nifer lleoedd gwag | Nifer plant ar y rhestr aros | Nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen |
| Gofalwr Plant | 240 | 178 | 139 | 51 | 0 | 4 |
| Gofal Dydd | | | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | 228 | 228 | 116 | 112* | 0 | 0 |
| Gofal Dydd Sesiwn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Crèches | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal Allan o'r Ysgol | 24 | 24 | 24 | 0 | 0 | 3 |
| Darpariaeth Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad Agored | | | | | | |
| Nani | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

(* Fel uchod, daw'r data o SASS a gall fod camgymeriad yn y ffordd mae darparwyr wedi deall lleoedd gwag. Dywed ein data Awdurdod Lleol bod 78 lle gwag)

<u>Darpariaeth Eithredig a Chymeradwy - Gwyliau Ysgol</u>

| Math Gofal Plant | Gwyliau Ysgol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Uchafswm nifer lleoedd gofal plant ar gael bob dydd | Nifer plant yn defnyddio'r gwasanaeth | Nifer lleoedd gwag | Nifer plant ar y rhestr aros | Nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen |
| Gofalwr Plant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal Dydd | | | | | |
| Meithrinfa Dydd Llawn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal Dydd Sesiwn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Crèches | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal Allan o'r Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Nani | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Dosbarthiad Daearyddol Lleoedd Gofal Plant yn ôl Math Gofal Plant - Cyflenwad a Galw - Amser Tymor

Mae ffigwr 5.2 islaw'n dangos lleoliad gofal plant ar draws y bedair Ardal Cynllunio Cymunedol yn ystod y tymor

| Ardal Cynllunio Cymunedol | Cyfanswm lleoedd gofal plant cofrestredig | Cyfanswm nifer plant | Lleoedd gofalwyr plant | Gofal Dydd llawn | Lleoedd Gofal Sesiwn | Lleoedd Allan o'r Ysgol | Lleoedd heb gofrestru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sirhywi | 254 | 2927 | 13 | 85 | 100 | 56 | 20 |
| Ebwy Fawr | 383 | 4810 | 40 | 167 | 136 | 40 | 48 |
| Gogledd Ebwy Fach | 280 | 3196 | 77 | 42 | 76 | 85 | 0 |
| De Ebwy Fach | 252 | 3215 | 100 | 96 | 56 | 0 | 73 |
| Cyfanswm | 1169 | 14148 | 230 | 390 | 368 | 181 | 141 |

**Ffigwr 5.2.a**

Mae Ffigwr 5.2b yn dangos nifer y plant ar gyfer pob lle gofal plant a'r nifer lleoedd sydd ar gael fesul plentyn yn ystod y tymor.

| Ardal Cynllunio Cymunedol | Nifer lleoedd fesul lle | Lleoedd fesul plentyn |
|---|---|---|
| Sirhywi | 12 | 0.09 |
| Ebwy Fawr | 13 | 0.08 |
| Gogledd Ebwy Fach | 11 | 0.09 |
| De Ebwy Fach | 13 | 0.08 |

**Ffigwr 5.2.b**

Mae Ffigwr 5.2c yn dangos nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael ym mhob ardal cynllunio cymunedol o gymharu gyda nifer y plant sy'n defnyddio lleoedd. Dengys y tabl fod nifer y lleoedd gofal plant yn fwy na'r galw ym mhob ardal cynllunio cymunedol gyda'r gwahaniaeth mwyaf yn ardal Gogledd Ebwy Fach a'r gwahaniaeth lleiaf yn Sirhywi.

| Ardal Cynllunio Cymunedol | Nifer Lleoedd Gofal Plant | Nifer Plant yn Defnyddio Lleoedd |
|---|---|---|
| Sirhywi | 254 | 242 |
| Ebwy Fawr | 383 | 360 |
| Gogledd Ebwy Fach | 280 | 241 |
| De Ebwy Fach | 252 | 224 |

**Ffigwr 5.2.c**

Dosbarthiad Daearyddol Lleoedd Gofal Plant fesul Math Gofal Plant - Cyflenwad a Galw - Gwyliau'r Ysgol

Mae'r tabl islaw'n dangos y cyflenwad o ofal plant mewn gwyliau ysgol ar draws y bedair Ardal Cynllunio Cymunedol.

| Ardal Cynllunio Cymunedol | Nifer Lleoedd Gofal Plant wedi Cofrestru | Cyfanswm Nifer Plant | Lleoedd Gofalwyr Plant | Gofal Dydd Llawn | Gofal Dydd Sesiwn | Lleoedd Allan o'r Ysgol | Lleoedd heb gofrestru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sirhywi | 98 | 2927 | 13 | 85 | 0 | 0 | 0 |
| Ebwy Fawr | 149 | 4810 | 22 | 127 | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Ebwy Fach | 147 | 3196 | 67 | 16 | 0 | 64 | 0 |
| De Ebwy Fach | 76 | 3215 | 76 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 406 | 14148 | 178 | 228 | 0 | 64 | 0 |

**Ffigwr 5.2.d**

Mae Ffigwr 5.2 yn dangos nifer y plant ar gyfer pob lle a'r nifer lleoedd sydd ar gael fesul plentyn yn ystod gwyliau ysgol.

| Ardal Cynllunio Cymunedol | Nifer plant fesul lle | Nifer lleoedd fesul plentyn |
|---|---|---|
| Sirhywi | 30 | 0.03 |
| Ebwy Fawr | 32 | 0.03 |
| Gogledd Ebwy Fach | 39 | 0.05 |
| De Ebwy Fach | 42 | 0.02 |

**Ffigwr 5.2.e**

## 6. Cyflenwad Gofal Plant

### 6.1. Gofalwr Plant

6.1.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant


*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda darparwyr, dan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 1. Rhoddir ystyriaeth i'r dilynol, i gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith:*

- *Ystod gwasanaethau a ddarperir*
- *Nifer a math o leoedd plant a gafodd eu llenwi (llawn-amser, rhan-amser, ad hoc)*
- *Nifer lleoedd a gafodd eu llenwi gan blant gydag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd*
- *Nifer y lleoedd Cymraeg a gafodd eu llenwi*
- *Lleoedd gwag a rhestri aros*
- *Amserau agor, yn cynnwys y nifer sy'n cynnig oriau gofal plant hyblyg*
- *Ystod hyd sesiynau*
- *Ystod oedran plant*
- *Ystod ffioedd*

Caiff pob gofalwr plant ym Mlaenau Gwent eu dynodi fel rhai cyfrwng Saesneg neu Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog. Felly nid oes unrhyw leoedd cyfrwng Cymraeg ar gael.

Mae gofalwyr plant ar draws Blaenau Gwent i gyd yn cynnig ystod lawn o wasanaethau, yn cynnwys gofal dydd llawn, sesiynau hanner diwrnod, amlap, ar ôl ysgol a gofal gwyliau. Dim ond un gofalwr plant sy'n cynnig gwasanaethau penwythnos ar ddyddiau Sadwrn, nid oes unrhyw ofalwyr plant yn cynnig gofal dros nos ac mae'r rhan fwyaf o ofalwyr plant yn cynnig gofal plant ar draws 48 wythnos y flwyddyn neu fwy ac yn cynnwys y rhan fwyaf o wyliau ysgol.

Mae'r plant y gofalir amdanynt yn amrywio mewn oedran o dan 12 mis hyd at 17 oed. Y grŵp oedran mwyaf cyffredin yw 5-7 oed ond mae gwasgariad gweddol wastad o rifau ar draws pob oedran o 12 mis tan y grŵp oedran 12-14 oed lle mae gostyngiad sylweddol mewn rhifau:




**Ffigur 6.1.a Ystod oedran defnyddwyr**

Mae'r tabl dilynol yn dangos nifer y darparwyr a'r gwasanaethau gofal plant a gynigir ar draws y pedair Ardal Cynllunio Cymunedol gydag iaith y ddarpariaeth:

| Math Gofal Plant a Gwasanaethau | Iaith Darpariaeth | | | | | | | | | CYFAN |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | | | | Saesneg | | | | Arall | |
| | Sir | EF | NEF | SEF | Sir | EF | NEF | SEF | | |
| Cyfanswm Gofalwyr Plant | 0 | 1 | 6 | 3 | 3 | 6 | 5 | 12 | | 36 |
| Gwasanaethau | | | | | | | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | 0 | 1 | 6 | 3 | 3 | 6 | 5 | 11 | | 35 |
| Gofal Hanner Diwrnod(bore) | 0 | 1 | 6 | 1 | 3 | 6 | 5 | 6 | | 28 |
| Gofal Hanner Diwrnod (pnawn) | 0 | 1 | 6 | 1 | 3 | 6 | 5 | 7 | | 29 |
| Cyn Ysgol | 0 | 0 | 6 | 2 | 2 | 5 | 5 | 9 | | 29 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar ôl Ysgol | 0 | 1 | 6 | 2 | 3 | 6 | 5 | 12 | | 35 |
| Amlap | 0 | 1 | 6 | 1 | 3 | 3 | 3 | 4 | | 21 |
| Darpariaeth Gwyliau | 0 | 1 | 6 | 3 | 3 | 3 | 5 | 8 | | 29 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | | 2 |

**Ffigwr 6.1.b**

Mae mwyafrif y plant (60%) yn mynychu ar sail ran-amser, gyda 35% yn mynychu'n llawn-amser a 5% ar sail ad hoc. Nid yw'n hollol glir o ddata SASS faint o'r plant sydd ag anghenion ychwanegol; y cyfanswm a adroddwyd yw 22 ond dywedodd dau ofalwr plant fod ganddynt 8 plentyn gydag anghenion ychwanegol, sy'n ymddangos yn annhebygol. Dynodir 8 plentyn ar draws y dosbarthiadau anghenion ychwanegol (clyw, golwg, dysgu ac ati) ac mae'n debyg fod hyn yn well arwydd o'r nifer go iawn.

Mae'r ystod oriau agor ar draws Blaenau Gwent yn 5yb – 7yp, fodd bynnag mae amrywiadau ar draws ardaloedd cynllunio cymunedol. Mae'r ystod fwyaf o oriau agor yn Ne Ebwy Fach gyda dewis llawer mwy cyfyngedig yn yr ardaloedd eraill. Mae sesiynau yn amrywio mewn hyd o cyn lleied â 25 munud i 14 awr, ond fel arfer roedd sesiynau yn 10-11 awr. Mae 27 o ofalwyr plant yn cynnig gofal cyn 8yb yn ystod y tymor a 26 yn parhau i wneud hynny yn ystod gwyliau ysgol, mae 9 yn cynnig gofal ar ôl 6yp yn ystod y tymor ac 8 yn parhau i wneud hynny yn ystod gwyliau'r ysgol. Dim ond un darparydd sy'n cynnig gofal plant ar ddydd Sadwrn, nid oes dim un yn gwneud hynny ar ddydd Sul.

Cafwyd y ffioedd yn nata SASS ac nid yw pob darparydd yn rhoi cyfradd fesul awr, gan roi cyfradd fesul dydd neu gost sesiwn yn lle. Cafodd cyfradd awr y darparwyr hyn ei amcangyfrif trwy rannu'r nifer o oriau ar agor gyda'r gyfradd awr, fodd bynnag efallai nad yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu costau gwirioneddol, gyda rhai darparwyr ar agor am hyd at 12 awr mae'n bosibl y byddent yn codi ffi wahanol am ddiwrnod 8 awr a 12 awr. Mae'r ffioedd fesul awr yn amrywio o £1.63 - £5.55 a chyfraddau dydd rhwng £18 a £57.

Dim ond un gofalwr plant ddywedodd fod ganddynt restr aros. Dywedwyd bod 73 lle gwag ar draws y Fwrdeisdref, sy'n 30% o'r 240 o leoedd gofal plant cofrestredig.

6.1.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae gofalwyr plant Blaenau Gwent yn cynnig 240 o leoedd cofrestredig a dros 627 gwahanol fath o ddarpariaeth (dyddiau llawn, hanner diwrnod, amlap, ar ôl ysgol ac yn y blaen). Mae llawer o ddewis ar gael mewn dwy ardal gymunedol - De Ebwy Fach a Gogledd Ebwy Fach, yn nhermau nifer y gofalwyr plant sydd ar gael, prisiau ac oriau agor. Mae llai o ddewis yn Ebwy Fawr a dewis cyfyngedig iawn yn Sirhywi, gyda dim ond tri darparydd wedi'u dynodi.

Er bod y data'n dangos llawer o hyblygrwydd yn y gwasanaethau a gynigir gan ofalwyr plant yn nhermau'r gwasanaethau a ddarperir rhwng dyddiau Llun a dydd Gwener, nid oes unrhyw ofal dros nos ar gael a dim ond un darparydd sy'n cynnig gwasanaeth penwythnos ar ddyddiau Sadwrn.

Mae nifer sylweddol o leoedd gwag ar draws y Fwrdeisdref, gyda chyfradd gyfartalog lleoedd gwag o 30%. Dim ond 1 gofalwr plant sydd wedi cofnodi rhestr aros. Byddai hyn yn awgrymu fod y cyflenwad yn ddigonol, er bod potensial i gynnig mwy o ddewis i rieni a gofal plant hyblyg, drwy gynyddu nifer y gofalwyr plant yn y ddwy Ardal Cynllunio Cymunedol lle mae niferoedd is. Dim ond 3 gofalwr plant sy'n gweithredu yn Sirhywi a 7 o ofalwyr plant yn gweithredu yn Ebwy Fawr; fodd bynnag, caiff yr ardaloedd hyn eu gwasanaethu'n dda gan ddarpariaeth meithrinfeydd dydd. Mae felly botensial ar gyfer twf gan y gallai gofalwyr plant gynnig mwy o hyblygrwydd.

Er cyfathrebu rheolaidd megis gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant, digwyddiadau rhwydwaith, diweddariadau rheolaidd a chynigion i gymryd rhan yn y cynllun sicrwydd ansawdd, dim ond 28% o ofalwyr plant sy'n cysylltu'n rheolaidd gyda'r tîm EYCP. Mae gan rai gofalwyr plant nifer uchel o leoedd gwag ac nid ydynt yn defnyddio'r cymorth busnes a hyfforddiant a ddarperir gan y tîm. Mae PACEY wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar yn pryderu am ddadgofrestru gofalwyr plant yng Nghymru, sy'n amlinellu y bu nifer uchel o ofalwyr plant yn dadgofrestru am wahanol resymau. Mae 7 gofalwr plant wedi dadgofrestru ym Mlaenau Gwent yn y tair blynedd ddiwethaf, am resymau anhysbys.

Bydd y tîm yn adolygu'r gefnogaeth a gynigir i ofalwyr plant fel rhan o'r Cynllun Gweithredu.

## 6.2 Meithrinfa Diwrnod Llawn

6.2.1. Dadansoddiad o'r Cyflenwad o Ddarpariaeth Gofal Plant

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda darparwyr, gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 2. Dylid rhoi ystyriaeth i'r dilynol, i gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith:*

- *Ystod gwasanaethau a ddarperir*
- *Nifer a math lleoedd plant a lenwir (llawn-amser, rhan-amser, ad hoc)*
- *Nifer lleoedd a lanwyd gan blant gydag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd*
- *Nifer lleoedd Cymraeg a gafodd eu llenwi*
- *Nifer lleoedd gwag a rhestrau aros*
- *Amserau agor, yn cynnwys y nifer sy'n cynnig oriau gofal plant hyblyg*
- *Ystod hyd sesiynau*
- *Ystod oedran plant*
- *Ystod ffioedd*

Mae darparwyr gofal dydd llawn ym Mlaenau Gwent yn cynnig ystod lawn o wasanaethau. Mae Tabl 6a islaw'n dangos yr ystod gwasanaethau a gynigir gan ein 10 darparydd:

| Gwasanaethau a ddarperir | Iaith Darpariaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | Saesneg | Arall | Cyfanswm |
| Meithrinfa Diwrnod Llawn | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 6 |
| Meithrinfa Hanner Diwrnod (am) | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 6 |
| Meithrinfa Hanner Diwrnod (pm) | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 6 |
| Grŵp Chwarae/Cylch Meithrin (am) | 2 | 0 | 0 | 2 | 0 | 4 |
| Grŵp Chwarae/Cylch Meithrin (pm) | 2 | 0 | 0 | 2 | 0 | 4 |
| Cyn Ysgol | 0 | 0 | 2 | 3 | 0 | 5 |
| Ar ôl Ysgol | 0 | 0 | 2 | 3 | 0 | 5 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlap | 1 | 0 | 3 | 4 | 0 | 8 |
| Cinio | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| Darpariaeth Gwyliau | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 6 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM | 6 | 0 | 20 | 27 | 0 | 53 |

**Ffigwr 6.2.a**

Caiff y gwasanaethau eu darparu gan 6 meithrinfa ddydd, 2 gylch meithrin a 2 grŵp chwarae. Ni chafodd dim o'n darpariaeth meithrinfa ddydd ei dynodi fel darparwyr cyfrwng Cymraeg; dynodwyd 3 fel cyfrwng Saesneg a 3 fel cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog. Mae'r 2 gylch meithrin sy'n darparu gofal diwrnod llawn yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg, fodd bynnag mae'r lleoliadau hyn yn cynnig diwrnod llawer byrrach na lleoliadau meithrinfa diwrnod llawn - uchafswm o  awr. Dynododd y ddau grŵp chwarae fel lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Dengys y data presenoldeb a gafwyd fod mwyafrif y plant, 55%, yn mynychu lleoliadau ar sail ran-amser yn ystod y tymor, 36% yn mynychu ar sail lawn-amser a 9% yn mynychu'n ad hoc. Mae'r tueddiad hwn yn parhau yng ngwyliau'r ysgol pan mai'r canran uchaf sy'n mynychu ar sail ran-amser yw 67%, gyda 16% yn mynychu ar sail lawn-amser a 17% yn ad hoc. Mae 463 o blant yn mynychu dros yr ystod lawn o wasanaethau. Mae 170 o blant yn mynychu darpariaeth feithrin diwrnod llawn, gyda'r gwasanaethau nesaf mwyaf poblogaidd yn feithrinfa fore hanner diwrnod ac wedyn amlap.

Dynodwyd fod gan 19 o'r plant sy'n mynychu gofal dydd llawn anabledd neu anghenion ychwanegol, sy'n cynrychioli 4% o'r plant sy'n cymryd lleoedd gofal plant.

Mae 106 o leoedd cyfrwng Cymraeg ar gael ar draws y 2 gylch meithrin. Mae 41 o leoedd yn cael eu defnyddio, gan ddangos cyfradd defnydd isel o 39% o'r lleoedd sydd ar gael.

Adroddodd y darparwyr fod 573 lle gwag dros eu hystod gwasanaethau ym mis Gorffennaf 2016. Mae'r Awdurdod Lleol yn monitro cyfraddau lleoedd gwag yn rheolaidd a dengys y data hwn fod cyfradd lleoedd gwag cyffredinol o 34% am yr un cyfnod (Gorffennaf - Medi 2016), oedd yn gyson gyda'r chwarter blaenorol. Dengys y data a gafwyd drwy SASS fod uchafswm o 5 plentyn ar restrau aros am feithrinfa diwrnod llawn a 6 ar gyfer grŵp chwarae/cylch meithrin yn ystod y tymor a dim ar gyfer gwyliau ysgol. O gofio am y cyfraddau lleoedd gwag a nodwyd gan leoliadau, mae'n bosibl fod o leiaf rai o'r plant ar restrau aros yn aros i ddechrau eu lle gofal plant ar bwynt penodol yn y dyfodol yn hytarch na pheidio bod â lle ar gael adeg casglu data SASS.

Mae’r oriau darpariaeth yn amrywio o agor am 7.30am i 9.15am ac mae diwedd y sesiynau'n amrywio o 11.45am i 6pm. Mae meithrinfeydd dydd fel arfer ar agor rhwng 7.30am a 6pm, a'r cylchoedd meithrin/grwpiau chwarae rhwng 9am a 3.30pm. Mae un feithrinfa ddydd yn cynnig gofal plant ar ddyddiau Sadwrn. Mae hyd sesiynau'n amrywio o 2.5 awr hyd at 10.5 awr. Fel arfer mae meithrinfeydd dydd ar agor am 50/51 wythnos y flwyddyn ond dim ond yn ystod y tymor mae cylchoedd meithrin/grwpiau chwarae ar agor.

Roedd y costau am gylchoedd meithrin/grwpiau chwarae yn amrywio rhwng £7.50 a £9.00 y sesiwn, a chostau meithrinfa diwrnod llawn yn amrywio rhwng £32 a £34 y dydd.

Mae'r tabl islaw'n dangos nifer y darparwyr ym mhob ardal cynllunio cymunedol sy'n cynnig gwasanaeth ar gyfer yr ystodau oedran neilltuol:

| Ystod Oedran | Cyfanswm Nifer Gofal Diwrnod Llawn fesul Ardal | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | | | | Saesneg ac Elfennau Dwyieithog | | | | Saesneg | | | |
| | Sir | EF | GEF | DEF | Sir | EF | GEF | DEF | Sir | EF | NEF | GEF |
| Dan 12 mis | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| 12-18 mis | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| 19-23 mis | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| 2 oed | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 1 | 0 |
| 3 oed | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 1 | 0 |
| 4 oed | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 1 | 0 |
| 5-7 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| 8-11 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| 12-14 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| 15-17 oed | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM DARPARWYR | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 1 | 0 |

**Ffigwr 6.2.b**

6.2.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae pob meithrinfa ddydd yn cynnig ystod o wasanaethau ac mae'r cyfan ohonynt wedi cofrestru ar gyfer rhaglen Gwella Ansawdd Tîm EYCP. Mae pob meithrinfa ddydd, grŵp chwarae a chylch meithrin yn mynychu digwyddiadau a dyddiau hyfforddiant rhwydwaith yn rheolaidd. Mae'r holl ddarparwyr yn cefnogi Cymorth Lleoedd, ac yn cyflwyno gwybodaeth i'r tîm EYCP i'n galluogi i olrhain cynnydd yr holl blant. Mae'r holl ddarparwyr yn cymryd rhan yn ein trefniadau pontio ac yn mynychu cyfarfodydd pontio yn rheolaidd ac yn llenwi dogfennau pontio ar gyfer plant sy'n symud ymlaen i ddosbarthiadau meithrin.

Mae nifer dda o feithrinfeydd dydd yn yr ardal er bod y rhan fwyaf ohonynt yn ardaloedd Ebwy Fawr a Sirhywi o ran dosbarthiad. Dim ond 1 feithrinfa ddydd sydd yng Ngogledd Ebwy Fawr ar hyn o bryd a dim yn Ne Ebwy Fach. Fodd bynnag cymeradwywyd cynlluniau ar gyfer sefydlu meithrinfa ddydd newydd yn Swffryd yn Ne Ebwy Fach a gobeithir y bydd hyn yn weithredol o'r Gwanwyn 2018.

Mae dwy feithrinfa ddydd yn ddarparwyr Dechrau'n Deg ac ym mis Gorffennaf 2016 roeddent yn cefnogi 24 o blant Dechrau'n Deg.

Adroddodd pob meithrinfa ddydd, heblaw un, leoedd gwag. Roedd y gyfradd lleoedd gwag cyfun ar gyfer y sector am y cyfnod Gorffennaf - Medi 2016 yn 34%. Byddai'r lefel yma o leoedd gwag yn nodi fod digon o leoedd meithrinfa ddydd. Fodd bynnag, mae'r arolwg o alw rhieni yn dangos fod yn well gan rieni i ofal plant fod yn agos at eu cartref (dywedodd 60% o rieni nad ydynt yn defnyddio gofal plant, fod hyn yn ddewis ar hyn o bryd pe byddent byth i ystyried defnyddio gofal plant a dywedodd 63% o rieni a fwriadai ddefnyddio gofal plant yn y dyfodol mai hyn oedd eu dewis). Gallai hyn ddangos cwmpas pellach ar gyfer darpariaeth Meithrinfeydd Dydd mewn ardaloedd lle mae nifer isel o leoedd ar hyn o bryd os yw'n diwallu anghenion am ofal plant yn nes at adref. Meithrinfeydd dydd oedd y dewis mwyaf poblogaidd ar gyfer y teuluoedd sy'n bwriadu defnyddio gofal plant yn y dyfodol.

Mae cwmpas ar gyfer meithrinfeydd dydd i fanteisio o alw am leoedd drwy gynnig gofal plant 30 awr Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y caiff y cynnig treialu 30 awr o ofal plant ei ymestyn ym Mlaenau Gwent ym mis Medi 2017 fydd yn hybu galw am leoedd gwag sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae meithrinfeydd dydd ym Mlaenau Gwent yn addas iawn i ateb y galw hwn gan eu bod i gyd yn cynnig gofal plant amlap a gwyliau.

Nid oes unrhyw feithrinfeydd dydd sy'n cynnig lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg er bod 2 gylch meithrin sy'n darparu gofal dydd llawn, mae eu horiau agor yn gyfyngedig gyda gofal plant heb fod ar gael ar ôl 3yp.

### 6.3 Gofal Dydd Sesiwn

6.3.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda darparwyr, gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 3. Rhoddir ystyriaeth i'r dilynol, i gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith:*

- *Ystod gwasanaethau a ddarperir*
- *Nifer a math o leoedd plant a lenwyd (llawn-amser, rhan-amser, ad-hoc)*
- *Nifer lleoedd a gafodd eu llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd*
- *Nifer lleoedd Cymraeg a gafodd eu llenwi*
- *Lleoedd gwag a rhestrau aros*
- *Amserau agor, yn cynnwys y nifer sy'n cynnig oriau gofal plant hyblyg*
- *Ystod hyd sesiynau*
- *Ystod oedran plant*
- *Ystod ffioedd*

| Math Gofal Plant | Iaith Darpariaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | Arall | CYFANSWM |
| Cyfanswm Gofal Dydd Sesiwn (wedi cofrestru) | 2 | 1 | | 8 | | 11 |
| Cyfanswm Gofal Dydd Sesiwn (eithriedig) | | | | 3 | | 3 |
| CYFANSWM | 2 | 1 | | 11 | | 14 |

**Ffigwr 6.3a**

Mae'r tabl uchod yn dangos y nifer o leoliadau ym Mlaenau Gwent oedd wedi cofrestru ac yn eithriedig ym mis Gorffennaf 2016 ond wedi eu categoreiddio yn ôl yr iaith y gweithredant ynddi. Mae'n cynnwys lleoliadau oedd wedi cofrestru am ofal dydd llawn ond sy'n cynnig gofal sesiwn ac a gaiff eu cydnabod fel darparwyr gofal sesiwn yn lleol. Mae'r lleoliadau yn cynnig 760 o leoedd dros eu hystod gwasanaethau; sesiynau bore, sesiynau prynhawn, cinio ac amlap. Dangosir nifer y lleoedd ar gyfer amser tymor a nifer y plant sy'n mynychu yn y tabl islaw.

| Ardal Cynllunio Cymunedol | Nifer lleoedd a gynigir | Nifer plant sy'n mynychu |
|---|---|---|
| Sirhywi | 95 | 157 |
| Ebwy Fawr | 93 | 170 |
| Gogledd Ebwy Fach | 47 | 35 |
| De Ebwy Fach | 65 | 192 |

**Ffigwr 6.3.b**

Mae gwasgariad rhesymol mewn lleoedd ar draws y pedair Ardal Cynllunio Cymunedol. Mae peth amheuaeth fod y proffil presenoldeb yn dangos gwir ddarlun presenoldeb ar draws rhai lleoliadau, gan mai dim ond yn y golofn lawn-amser y mae rhai darparwyr yn rhoi manylion ac mae'n annhebygol fod yr holl blant sy'n mynychu'r sesiwn yn gwneud hynny ar sail lawn-amser. Mae'n eithaf tebygol fod gan ddarparwyr Dechrau'n Deg nifer uchel o blant yn mynychu'n ddyddiol ond amheuir y byddai gan ddarparwyr eraill gymysgedd llawer mwy o fynychwyr llawn-amser a rhan-amser. Mae'r data yn awgrymu y cafodd 546 lle o'r 760 eu llenwi, sy'n gyfradd defnydd 72%. Nid yw hyn yn adlewyrchu’r raddfa lleoedd gwag a gasglwyd gan y tîm EYCP am yr un cyfnod, sydd yn 18% (82% defnydd). Gallai hyn fod oherwydd y cymerwyd y cyfrifiad yn wythnos olaf y tymor ac mae'n bosibl fod presenoldeb yn is yn yr wythnos hon. Mae hefyd yn bosibl fod lleoliadau'n defnyddio ffyrdd gwahanol o gyfrif lleoedd gwag felly na fydd y gyfradd defnydd a lleoedd gwag o reidrwydd yn cysylltu â’i gilydd.

Mae uchafswm o 8 o blant ar restrau aros am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a 6 ar gyfer cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.

Caiff gwasanaethau eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg gan 3 cylch meithrin, 2 yn categoreiddio eu hunain fel lleoliad cyfrwng Cymraeg ac un yn leoliad Cymraeg a Saesneg. Cynigir 150 lle yn y lleoliadau cyfrwng Cymraeg ar draws eu hystod gwasanaethau a 60 lle yn y lleoliad Cymraeg a Saesneg. Mae galw isel yn y lleoliadau cyfrwng Cymraeg gyda dim ond 41 o blant yn cymryd y 150 lle a gynigiwyd ym mis Gorffennaf 2016. Mae'r galw ar gyfer y lleoliadau Cymraeg a Saesneg yn llawer uwch gyda 63 o blant yn mynychu ar draws y 60 lle.

Mae'r holl leoliadau eraill yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd (er na ddynododd rhai hyn ar arolwg SASS) a chânt felly eu categoreiddio fel rhai Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog. Mae 393 o blant yn mynychu lleoliadau cofrestredig sy'n cynnig 300 lle. Roedd 61 o blant eraill yn mynychu darpariaeth eithriedig, oedd yn cynnig 68 lle. Cafodd 26 o blant eu dynodi fel bod ag anghenion ychwanegol, sy'n cynrychioli 6.6% o'r cohort llawn o blant sy'n cyrchu lleoedd.

Gosodwyd hyd sesiynau ar 2.5 awr ar gyfer pob lleoliad cofrestredig, fel arfer 9.15yb - 11.45yb, er bod un darparydd yn cynnig sesiynau prynhawn yn unig gyda gwasanaeth amlap amser cinio. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae gennym bedwar darparydd sydd wedi cofrestru am ofal dydd llawn ond a gaiff eu cydnabod fel darparwyr gofal dydd sesiwn, roedd tri o'r darparwyr hyn yn darparu sesiynau prynhawn hefyd ym mis Gorffennaf 2016 ac mae'r pedwerydd wedi dechrau sesiynau prynhawn ers hynny. Nid oes unrhyw ddarparwyr yn cynnig oriau gofal plant hyblyg.

Mae darparwyr yn cynnig gwasanaeth i'r grŵp oedran 2 i 4 oed, tra mai dim ond i blant 2-3 oed y mae darparwyr Dechrau'n Deg â gynhelir yn ei gynnig.

Mae ffioedd yn amrywio o £7 - £10 y sesiwn.

6.3.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae dosbarthiad da o ddarparwyr Gofal Dydd Sesiwn yn gweithio o fewn pob ardal Cynllunio Cymunedol, gyda phob un ag o leiaf ddau ddarparydd. Mae'r darparwyr yn cynnig cymysgedd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Cymraeg a Saesneg a chyfrwng Saesneg, gyda phob ardal heblaw un - Ebwy Fawr - yn gallu cynnig dewis o ddarpariaeth iaith i rieni. Ym mis Gorffennaf 2016 roedd pob darparydd gofal dydd heblaw tri wedi cofrestru ond mae'r ffigwr hwnnw wedi gostwng ers hynny i un gan fod dau o'r darparwyr wedi cofrestru.

Dim ond un darparydd gofal sesiwn sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd i ddarparu Addysg Blynyddoedd Cynnar, ond mae 24 ysgol gynradd ac un Feithrinfa Ddydd yn darparu lleoedd ar draws y Fwrdeisdref Sirol, sy'n diwallu'r angen presennol am leoedd. Fodd bynnag, o safbwynt dewis rhieni ac yn fwyaf neilltuol safbwynt dewis iaith, gall fod cwmpas i ddarparwyr sesiwn eraill i ystyried cofrestru.

Mae pob darparydd heblaw dau yn cefnogi'r rhaglen Dechrau'n Deg ar hyn o bryd, gyda nifer amrywiol o blant yn cael eu hariannu

gan Dechrau'n Deg. Mae pob darparydd hefyd yn cymryd plant sy'n talu ffioedd.

Mae pob darparydd sydd wedi cofrestru yn cefnogi Cymorth Lleoedd ac un-i-un ar gyfer plant gydag Anghenion Ychwanegol. Mae'r holl ddarparwyr yn ymwneud â'n trefniadau pontio, gan fynychu cyfarfodydd pontio a llenwi dogfennau pontio ar gyfer plant sy'n symud i ddosbarth meithrin mewn ysgolion. Maent hefyd yn monitro ac yn rhoi adroddiad ar gynnydd pob plentyn i'r tîm EYCP.

Mae pob darparydd sesiwn sydd wedi cofrestru wedi llofnodi ar gyfer y rhaglen Sicrwydd Ansawdd ac yn mynychu cyfarfodydd rhwydwaith yn rheolaidd. Mae galw da am hyfforddiant, yn neilltuol hyfforddiant gorfodol, er ers i'r Awdurdod Lleol godi ffioedd am hyfforddiant nodwyd fod darparwyr yn archebu lleoedd ar lai o gyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Roedd cyfraddau lleoedd gwag ar gyfer darparwyr gofal dydd am y cyfnod Gorffennaf - Medi yn 18% ar gyfartaledd, ond roedd rhai darparwyr yn dweud nad oedd unrhyw leoedd gwag ym mis Gorffennaf 16 drwy'r broses SASS, gan awgrymu y gall fod peth pwysau ar alw. Mae natur y ddarpariaeth gofal dydd sesiwn serch hynny yn golygu mai tymor yr Haf yn aml yw'r un gyda'r nifer leiaf o leoedd gwag, felly nid yw hyn o reidrwydd yn cynrychioli'r darlun cyffredinol. Mae data diweddaraf ar leoedd gwag yn dangos cynnydd bach i 22% yn gyffredinol.

Ni ddywedodd unrhyw ddarparydd sesiwn eu bod yn darparu unrhyw ofal gwyliau, fodd bynnag mae tîm EYCP yn gwybod fod dau ddarparydd wedi darparu peth gofal gwyliau haf yn flaenorol, er bod y lleoliadau hyn wedi adrodd lefel isel o alw am y gwasanaeth.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Ebwy Fawr yn unig, a all fod yn cyfyngu dewis rhieni.

Mae cwmpas i rai darparwyr gynnig sesiynau ychwanegol i ateb galw cynyddol, a gall cynnig 30 awr Llywodraeth Cymru gynyddu galw i'r fath raddau y gall rhai darparwyr ystyried ehangu i gynnig sesiynau amlap a gofal gwyliau ysgol.

Gallai'r pwysau ariannol cynyddol a achosir gan y Cyflog Byw Cenedlaethol ac ymrestru awtomatig ar gyfer pensiwn achosi rhai problemau cynaliadwyedd i ddarparwyr. Ni dderbyniodd tîm EYCP unrhyw geisiadau am grantiau yn 2016/17, sy'n ddangosydd cadarnhaol o iechyd y sector.

## 6.4 Crèches

6.4.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda darparwyr, gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 3. Rhoddir ystyriaeth i'r dilynol, i gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith:*

- *Ystod gwasanaethau a ddarperir*
- *Nifer a math o leoedd plant a gafodd eu llenwi (llawn-amser, rhan-amser, ad-hoc)*
- *Nifer lleoedd a gafodd eu llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd*
- *Nifer lleoedd Cymraeg a gafodd eu llenwi*
- *Lleoedd gwag a rhestrau aros*
- *Amserau agor, yn cynnwys y nifer sy'n cynnig oriau gofal plant hyblyg*
- *Ystod hyd sesiynau*
- *Ystod oedran plant*
- *Ystod ffioedd*

Roedd gennym ddau ddarparydd yn cynnig cyfleusterau crèche ym mis Gorffennaf 2016, un yn eu safle Meithrinfa Ddydd arferol, y llall ar ffurf crèche symudol i gefnogi gweithgaredd hyfforddi ar gyfer gwahanol raglenni (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf) a diwallu anghenion sefydliadau eraill.

Byddai'r Feithrinfa Ddydd sy'n darparu crèche o'u safle arferol yng Nglynebwy yn derbyn archebion plant ar sail awr, rhwng 7.30yb a 18.00yp. Mae'r darparydd bellach wedi rhoi gorau i'r gwasanaeth oherwydd galw isel. Roedd y gwasanaeth hwn yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog ac ar gael ar gyfer plant hyd at 5 oed.

Mae'r gwasanaeth crèche symudol a ddarperir gan Feithrinfa Ddydd wahanol yn cefnogi hyfforddiant a gweithgaredd grŵp ar gyfer gwahanol raglenni ond gan nad yw hyn ar gael i'r gymuned yn gyffredinol, mae ei berthnasedd yn gyfyngedig i rieni sy'n gweithio. Mae'r darparydd yn ddarparydd cyfrwng Saesneg. Nid yw natur y gwasanaeth yn addas ar gyfer cofnodi lleoedd gwag a rhestrau aros ac ni fedrir adrodd unrhyw oriau agor rheolaidd na hyd sesiynau gan fod y gwasanaeth yn diwallu gofynion neilltuol y rhaglen sy'n archebu eu gwasanaethau.

Fel arfer mae'r crèche symudol yn gynnig gofal i blant dan 3 oed ond mae wedi gofalu am blant hyd at 12 oed yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r gwasanaeth yn ddi-dâl i rieni gan fod y rhaglenni perthnasol yn talu am y costau.

6.4.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Dywedodd rhai rhieni a lenwodd yr arolwg rhieni eu bod ar hyn o bryd yn defnyddio crèche ar gyfer gofal plant neu'n bwriadu ei ddefnyddio yn y dyfodol, ond roedd yn amlwg fod diffyg cyfatebiaeth gyda'r oriau a ddefnyddir/sydd eu hangen, gan arwain at y casgliad fod rhieni weithiau'n drysu rhwng meithrinfa ddydd a crèche. Rhoddodd un darparydd y gorau i gynnig crèche yn 2016 oherwydd galw isel, a byddai hyn yn awgrymu diffyg galw am y gwasanaeth.

Mae tystiolaeth o angen am crèche ym Mlaenau Gwent, yn arbennig crèche symudol, sy'n cefnogi cyflwyno rhaglenni Llywodraeth Cymru yng nghalon cymunedau. Ar hyn o bryd dim ond un darparydd crèche symudol sydd yn yr ardal ac mae problemau gydag argaeledd a chael y gorchudd/cymarebau staff i ddiwallu anghenion y teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni.

Mae potensial i ddarparwyr eraill ehangu i gynnig y gwasanaeth hwn gan y byddai'n ymddangos fod diffyg argaeledd/problemau gyda staffio yn dangos cyflenwad annigonol ar gyfer y math yma o wasanaeth. Mae tendr ar gyfer darpariaeth crèche symudol ar gyfer Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf ar gael ar hyn o bryd ar gyfer ceisiadau (Mawrth 2016) a gobeithir y gellir dynodi darparwyr ychwanegol i gefnogi'r lefel gweithgredd sydd ei angen.

## 6.5 Gofal Tu Allan i'r Ysgol

6.5.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda darparwyr, gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 3. Rhoddir ystyriaeth i'r dilynol, i gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith:*

- *Ystod gwasanaethau a ddarperir*
- *Nifer a math o leoedd plant a gafodd eu llenwi (llawn-amser, rhan-amser, ad-hoc)*
- *Nifer lleoedd a gafodd eu llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd*
- *Nifer lleoedd Cymraeg a gafodd eu llenwi*
- *Lleoedd gwag a rhestrau aros*
- *Amserau agor, yn cynnwys y nifer sy'n cynnig oriau gofal plant hyblyg*
- *Ystod hyd sesiynau*
- *Ystod oedran plant*
- *Ystod ffioedd*

Mae clybiau ar ôl ysgol ym Mlaenau Gwent yn cynnig un ai darpariaeth ar safle ysgol neu ddarpariaeth mewn lleoliad mewn Merithrinfa Ddydd gan gynnig gwasanaethau nôl plant o ysgolion. Caiff Clybiau Gwyliau eu rhedeg yn bennaf drwy leoliadau Meithrinfa Ddydd gyda dim ond un darparydd arall yn seiliedig mewn lleoliad ysgol yn cynnig darpariaeth gwyliau. Mae pob lleoliad yn dynodi eu hunain fel darparwyr cyfrwng Saesneg.

Mae 7 darparydd yn cynnig Gofal Ar ôl Ysgol (5 wedi cofrestru a 2 eithriedig) a phedwar yn cynnig Gofal Gwyliau. Mae gan bob Ardal Cynllunio Cymunedol, heblaw am De Ebwy Fach, ofal Ar ôl Ysgol a Gofal Gwyliau ar gael gan leoliad Clwb Tu Allan i'r Ysgol. Mae gan De Ebwy Fach un Clwb Ar ôl Ysgol ar gael i ddisgyblion sy'n mynychu ei ysgol gyfun ac mae'r ddarpariaeth honno yn eithredig. Dim ond un darparydd sy'n cynnig gofal plant cyn 8yb (yng Ngogledd Ebwy Fach), nid oes unrhyw ddarparwr yn cynnig gofal ar ôl 6yp/gofal dros nos ac nid oes unrhyw ddarparwr yn cynnig Gofal Gwyliau ar benwythnosau.

Mae plant sy'n mynychu darpariaeth ar ôl ysgol yn amrywio rhwng 3-14 oed, gyda'r nifer fwyaf fel arfer yn y categoriau 5-7 ac 8-11. Yr unig eithriad yw nifer uchel o blant yn y categori 12-14 oed sy'n mynychu darpariaeth eithriedig mewn un ysgol gyfun yn Abertyleri. Mae ystod ehangach o wasgariad ar draws yr oedrannau ar gyfer gofal yn ystod gwyliau ysgol.

Adroddodd pob lleoliad fod ganddynt leoedd gwag ac nid oedd unrhyw leoliad yn gweithredu rhestr aros ym mis Gorffennaf 2016. Mae'r tîm ECYP yn dadansoddi ac yn cofnodi cyfraddau defnydd/lleoedd gwag fel mater o drefn ac mae'n gyson nifer sylweddol o leoedd gwag yn y ddarpariaeth hon. Adeg casglu'r data, adroddwyd 99 lle gwag ar draws ardal yr Awdurdod Lleol, gyda 52 lle gwag ar gyfer gofal Ar ôl Ysgol a 47 ar gyfer Gofal Gwyliau.

Dywedodd pedwar allan o'r pum darparydd wedi cofrestru fod ganddynt o leiaf un plentyn gydag Anghenion Ychwanegol; fodd bynnag, mae tri darparydd yn cynnig Meithrinfa Diwrnod Llawn ac nid oedd y broses SASS yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddynodi pa wasanaethau yr oedd y plant hynny'n eu defnyddio, felly ni allwn ddweud faint sydd yn ddefnyddwyr clybiau ar ôl ysgol neu glybiau gwyliau.

Mae hyd sesiynau gofal Ar ôl Ysgol yn amrywio o 14.50 i 18.00, gyda dau ddarparydd yn cynnig 2¼ awr a thri yn cynnig 2½ awr. Mae'r ddau ddarparydd arall yn cynnig 1 awr a 59 munud neu lai gan eu bod wedi eu heithrio.

Mae gennym 4 darparydd Clwb Gwyliau a'u horiau agor yw: 08.30 – 17.30, 07.30 – 17.30, 09.00 – 17.00 a 07.30 – 18.00.

Dengys data a gasglwyd gan blant yn mynychu clybiau Ar ôl Ysgol fod y mwyafrif yn defnyddio'r clybiau ar sail ran-amser (1-3

sesiwn yr wythnos), dim ond 23% o blant a lenwodd yr arolwg a ddywedodd eu bod yn mynychu 5 diwrnod bob wythnos. Caiff hyn hefyd ei gadarnhau gan y ffigyrau a gafwyd drwy SASS a'r casglu data ar wahân ar gyfer y ddarpariaeth a eithriwyd, gyda'r gyfran uchaf o blant yn mynychu ar sail ran-amser neu ad hoc ar gyfer clwb ar ôl ysgol a chlwb gwyliau.

Mae'r ffioedd am ofal ar ôl ysgol yn amrywio o £2.40 i £5.00 yr awr a'r ffioedd am glybiau gwyliau yn amrywio o £1.60 i £5.00 yr awr. Mae tri darparydd yn cynnig disgownt i frodyr a chwiorydd, un 10% i ffwrdd, un 5% i ffwrdd ac un 10% ar gyfer ail frawd neu chwaer.

6.5.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Bu gostyngiad yn nifer y lleoliadau sy'n cynnig gofal plant Tu Allan i'r Ysgol ar ffurf clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf yn 2014. Cafodd nifer o glybiau a sefydlwyd dan y cynllun Ysgolion Bro eu cau oherwydd materion cynaliadwyedd a rhaid nodi fod nifer sylweddol o ofalwyr plant yn cynnig gofal plant tu allan i 'r ysgol, yn ogystal â meithrinfeydd dydd yn cynnig lleoedd.

Byddai'n ymddangos fod darparwyr gyda nifer sylweddol o leoedd gwag yn awgrymu fod y galw'n cael ei gyflawni. Mae hyn yn wir am ofal ar ôl ysgol gyda 52 lle gwag yn cael eu hadrodd dros y 5 lleoliad cofrestredig. Mae hefyd nifer sylweddol o leoedd gwag mewn clybiau ysgol - 47 mewn pedwar lleoliad wedi cofrestru. Byddai hyn yn tueddu i awgrymu fod y cyflenwad yn fwy na'r galw ar hyn o bryd.

Fodd bynnag mae gwaith a gynhaliwyd gan y tîm EYCP yn ystod 2016/17 yn dangos fod peth gofal am ofal plant ar ôl ysgol ar safleoedd ysgol. Dengys y data a gafwyd o astudiaethau dichonolrwydd a gynhaliwyd mewn 3 ysgol y gallai fod angen mwy o ofal seiliedig mewn ysgol gyda photensial ar gyfer creu lleoliadau cynaliadwy. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o rieni (11%) eisoes yn defnyddio dull arall o ofal plant (Meithrinfa Ddydd neu ofalwr plant). Mae hyn yn codi mater dadleoli posibl ar ofal plant presennol felly byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i sefydlu lleoliadau newydd.

Dengys data a gasglwyd gan blant sy'n mynychu clybiau ar ôl ysgol fod y mwyafrif yn hoffi mynychu'r clwb a theimlai cyfran uchel y byddent yn hoffi parhau i fynychu ar ôl symud i ysgol uwchradd). Fodd bynnag, rhaid nodi fod oedran y plant yn amrywio o 7 i 11 oed (gyda mwyafrif y plant naill ai'n 9 neu 10 oed), ac y gallai eu barn newid wrth iddynt agosáu at oedran ysgol uwchradd.

| |
|---|
| Mae pob lleoliad ar ôl ysgol/gofal gwyliau wedi ymrestru ar gyfer y cynllun Graddio Amgylcheddol ac yn gweithio i wella ansawdd yn barhaus. Derbyniant gefnogaeth gyson gan y Swyddog Gwella Ansawdd a hefyd y Swyddog Digonolrwydd Chwarae ynghyd â chynllluniau gweithredu ansawdd.<br><br>Darperir ystod o hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad personol parhaus gorfodol i ddarparwyr ac mae'r defnydd yn gymysg, gyda llai o ddefnydd gan glybiau ar ôl ysgol/clwb gwyliau sy'n sefyll eu hunain. |

**6.6 Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored**

6.6.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda darparwyr, gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 3. Rhoddir ystyriaeth i'r dilynol, i gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith:*

- *Ystod gwasanaethau a ddarperir*
- *Nifer a math o leoedd plant a gafodd eu llenwi (llawn-amser, rhan-amser, ad-hoc)*
- *Nifer lleoedd a gafodd eu llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd*
- *Nifer lleoedd Cymraeg a gafodd eu llenwi*
- *Lleoedd gwag a rhestrau aros*
- *Amserau agor, yn cynnwys y nifer sy'n cynnig oriau gofal plant hyblyg*
- *Ystod hyd sesiynau*
- *Ystod oedran plant*
- *Ystod ffioedd*

Mae darpariaeth chwarae mynediad agored yn gyfyngedig iawn ym Mlaenau Gwent. Adeg y cyfrifiad, dim ond un sesiwn Mynediad Agored a gynhelid mewn ysgol gynradd leol gan ddarparydd trydydd sector gyda chefnogaeth Cymunedau yn Gyntaf a Swyddog Digonolrwydd Chwarae yr Awdurdod Lleol. Dim ond i blant yn mynychu'r ysgol yr oedd y ddarpariaeth ar gael a disgwylid i blant dan 8 oed fynychu gyda rhieni. Nid oeddem felly yn barnu fod hyn yn ofal plant ac ni chaiff ei gyfrif ar gyfer dibenion yr asesiad yma.

6.6.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae nifer cymharol dda yn mynychu sesiynau Mynediad Agored ym Mlaenau Gwent a chânt eu gwerthfawrogi gan blant a rhieni fel ei gilydd.

Nid oes gan yr Awdurdod Lleol gyllideb neilltuol ar gyfer Chwarae a bu felly'n amhosibl comisiynu sesiynau chwarae Mynediad Agored ar unrhyw beth heblaw sail gyfyngedig o ran amser mewn blynyddoedd diweddar. Nid oes darpariaeth gofrestredig ac mae hyn ynghyd â natur gyfyngedig o ran amser yr hyn a gynigir yn lleol yn golygu nad yw o fawr o fudd i'r farchnad gofal plant ym Mlaenau Gwent.

Bu cynlluniau i ennyn diddordeb aelodau o'r gymuned mewn cyflwyno sesiynau Chwarae yn araf i ddatblygu, er ein bod wedi gweithio'n llwyddiannus gyda Tai Calon, y gymdeithas dai leol, i ddarparu sesiynau Chwarae yn un o'u stadau. Mae cynlluniau i gysylltu gyda mwy o bartneriaid mewn Cynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau eraill yn y flwyddyn i ddod i gynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer plant.

### 6.7 Nani

6.7.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda darparwyr, gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 7. Rhoddir ystyriaeth i'r dilynol, i gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith:*

- *Ystod gwasanaethau a ddarperir*
- *Nifer a math o leoedd plant a gaiff eu llenwi (llawn-amser, rhan-amser, ad-hoc)*
- *Nifer lleoedd a gafodd eu llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd*
- *Nifer lleoedd Cymraeg a gafodd eu llenwi*
- *Lleoedd gwag a rhestrau aros*
- *Amserau agor, yn cynnwys y nifer sy'n cynnig oriau gofal plant hyblyg*
- *Ystod hyd sesiynau*
- *Ystod oedran plant*
- *Ystod ffioedd*

Ni wyddom am unrhyw nanis cymeradwy sy'n byw neu'n gweithredu ym Mlaenau Gwent.

Yn yr arolwg rhieni dywedodd saith rhiant eu bod yn defnyddio nanis ar hyn o bryd a dywedodd 1 fod ganddynt ddiddordeb mewn defnyddio nani, fodd bynnag credir y gallai rhai rhieni fod yn drysu nanis gyda gofalwyr plant.

6.7.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae'n debygol y byddai'r gost o logi nanis yn rhwystr i rieni rhag dewis y math hwn o ofal plant ym Mlaenau Gwent, gyda fforddiadwyedd yn cael ei nodi fel problem i rieni sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd a'r rhai sy'n bwriadu ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Dywed Arolwg Cyflogau Treth Nani 2016 fod y gyfradd fesul awr ar gyfer nani byw-i-mewn yng Nghymru yn £8.85 yr awr ac yn £10.71 i nani sy'n byw allan. Mae hyn bron ddwywaith y gyfradd gyfartalog fesul awr ar gyfer gofal plant ym Mlaenau Gwent (£4.50 fel ym mis Gorffennaf 2016). Gyda chyfraddau cyflogau ymysg yr isaf yng Nghymru, mae'n annhebyg y byddai llawer o deuluoedd ym Mlaenau Gwent yn edrych am yr opsiwn gofal plant yma. (Ffynhonnell: nannytax.co.uk).

## 7. Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr

### 7.1 Trosolwg o'r Ymgynghoriad

| Statws | Nifer |
|---|---|
| Rhieni/Gofalwr mewn gwaith (heb fod yn disgwyl babi) | 248 |
| Rhiant/Gofalwr mewn addysg neu hyfforddiant (heb fod yn disgwyl babi) | 7 |
| Rhiant/Gofalwr yn edrych am waith (heb fod yn disgwyl babi) | 14 |
| Rhiant/Gofalwr yn edrych am addysg neu hyfforddiant (heb fod yn disgwyl babi) | 2 |
| Disgwyl neu ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth gyda'r plentyn cyntaf | 31 |
| Mabwysiadu plentyn cyntaf | 1 |
| Rhiant/Gofalwr yn disgwyl neu ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth gyda phlant ychwanegol | 40 |
| Mabwysiadu neu ar absenoldeb mabwysiadu gyda phlant ychwanegol | 0 |
| Rhiant/Gofalwr heb fod mewn gwaith | 81 |
| Rhiant/Gofalwr heb fod mewn addysg na hyfforddiant | 6 |

**Ffigwr 7.1.a**

Ymatebwyr yn ôl incwm aelwyd blynyddol

| Incwm Blynyddol Cyfartalog Aelwyd | Nifer |
|---|---|
| £0-£10,000 | 46 |
| £10,001-£20,000 | 64 |
| £20,001-£30,000 | 66 |
| £30,001-£40,000 | 47 |
| £40,001-£50,000 | 44 |
| £50,001-£60,000 | 30 |
| £60,001-£70,000 | 17 |
| £70,000+ y flwyddyn | 4 |
| Dewis peidio dweud | 82 |

**Ffigwr 7.2.b**

Ymatebwyr yn ôl Grŵp Ethnig

| Grŵp Ethnig | Nifer |
|---|---|
| Gwyn | 396 |
| Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog | 2 |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Prydeinig Du | 0 |
| Grŵp Ethnig arall | 0 |

**Ffigwr 7.2.c**

Iaith Ymatebwyr (prif iaith a siaredir yn y cartref)

| Iaith | Nifer |
|---|---|
| Cymraeg yn unig | 4 |
| Saesneg yn unig | 362 |
| Dwyieithog | 25 |
| Ieithoedd eraill | 6 |

**Ffigwr 7.2.d**

Plant ymatebwyr yn ôl grŵp oedran

| Oedran | Nifer |
|---|---|
| Dan 12 mis | 53 |
| 12-18 mis | 53 |
| 19-23 mis | 34 |
| 2 oed | 87 |
| 3 oed | 55 |
| 4 oed | 58 |
| 5-7 oed | 128 |
| 8-11 oed | 109 |
| 12-14 oed | 59 |
| 15-17 oed | 46 |

**Ffigwr 7.2.e**

Ymatebwyr gyda phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd

| Anghenion Addysgol Arbennig/Anabledd | Nifer |
|---|---|
| Iaith a lleferydd | 17 |
| Dysgu penodol (dyslecsia) | 6 |
| Anawsterau clywed | 5 |
| Anawsterau dysgu | 9 |
| Anawsterau golwg | 3 |
| Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol | 24 |
| Corfforol | 5 |
| Cyflwr meddygol | 7 |
| Arall (noder) | |

**Ffigwr 7.2.f**

## 7.2. Defnydd Cyfredol Gofal Plant

7.2.1. Dadansoddiad o Ddefnydd Cyfredol Darpariaeth Gofal Plant

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda rhieni, gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 8. Dylid rhoi ystyriaeth i'r dilynol:*

- *Ystod y gwasanaethau a ddefnyddir*
- *Nifer a math y lleoedd plant a ddefnyddir (llawn-amser, rhan-amser, ad-hoc)*
- *Nifer lleoedd sydd eu hangen ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd*
- *Nifer lleoedd a ddefnyddir yn ôl categori iaith*
- *Ystod oedran plant yn defnyddio/dim yn defnyddio gofal plant*
- *Rhesymau dros ddefnyddio/peidio defnyddio gofal plant*
- *Hygyrchedd/argaeledd a fforddiadwyedd darpariaeth gofal plant*
- *Barn rhieni ar y gofal plant sydd ar gael*

Mae'r tabl islaw'n dangos y gofal plant sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel y'i hadroddir gan rieni drwy'r holiadur rhieni.

| Gofal Plant | Cymraeg | Cymraeg a Saesneg | Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | Saesneg | Ieithoedd eraill (noder) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofalwr Plant | 0 | 0 | 16 | 0 | 0 | 16 |
| Meithrinfa | 1 | 11 | 11 | 24 | 0 | 48 |
| Cylch Meithrin/ Grŵp Chwarae (bore) | 4 | 6 | 2 | 18 | 0 | 30 |
| Cylch Meithrin/ Grŵp Chwarae (prynhawn) | 2 | 7 | 2 | 4 | 0 | 15 |
| Addysg Gynnar ran-amser mewn ysgol | 0 | 1 | 3 | 8 | 0 | 12 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lle Dechrau'n Deg | 2 | 10 | 1 | 11 | 0 | 24 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 5 |
| Clwb Ar ôl Ysgol | 2 | 1 | 3 | 16 | 0 | 23 |
| Clwb Brecwast | 2 | 2 | 3 | 16 | 0 | 23 |
| Clwb Brecwast am ddim | 7 | 4 | 4 | 28 | 0 | 43 |
| Cynllun Chwarae | 0 | 1 | 0 | 3 | 0 | 4 |
| Mynediad Agored | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Nani | 0 | 0 | 0 | 7 | 0 | 7 |
| Arall (noder) | 0 | 0 | 1 | 6 | 0 | 7 |

**Ffigwr 7.2.1.a**

Mae'r data hwn yn gyfyngedig iawn oherwydd nifer y rhieni a ymatebodd i'r arolwg. Mae'r tabl dilynol yn dangos nifer y lleoedd gofal plant a gyrchwyd fel yr adroddwyd gan ddarparwyr yn defnyddio proses SASS, a ategwyd gan wybodaeth a gyflwynwyd i dîm EYCP gan ddarparwyr heb gofrestru.

| Gofal Plant | Cyfanswm Nifer Plant yn Defnyddio Gwasanaethau | Lleoedd Cymraeg | Lleoedd Cymraeg a Saesneg | Lleoedd Saesneg a rhai elfennau dwyieithog | Lleoedd Saesneg | Cyfanswm | Proffil Presenoldeb (Llawn-amser, Rhan-amser, Ad hoc) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofalwr Plant | 224 | 0 | 0 | 75 | 313 | 388 | 136 LlA<br>231 RhA<br>21 AH |
| Gofal Dydd Llawn | 482 | 41 | 0 | 138 | 284 | 463 | 165 LlA<br>254 RhA<br>44 AH |
| Cylch Meithrin/ Grŵp Chwarae | 300 | (41)* | 63 | 393 | 0 | 456 | 240 LlA<br>216 RhA<br>0 AH |
| Clwb Tu Allan i’r Ysgol | 181 | 0 | 0 | 0 | 124 | 124 | 7 LlA<br>62 RhA<br>55 AH |


**Ffigwr 7.2.1.b**

*(cyfrifir mewn gofal Dydd Llawn ond cydnabyddir yn lleol fel darparwyr Gofal Dydd Sesiwn)
(Mae mwy o leoedd gofal plant wedi'u cymryd nag o blant gan y bydd plentyn yn aml yn derbyn mwy nag un gwasanaeth e.e. Gofal cyn ysgol a gofal ar ôl ysgol).

Mae cyfran uwch o blant yn mynychu'n rhan-amser (53%) na llawn-amser (38%) neu ad hoc (8%).

Dywedodd darparwyr fod 62 o blant gydag Anghenion Ychwanegol yn mynychu'r lleoliadau hyn, sydd yn 5% o gyfanswm nifer y plant sy'n mynychu gofal plant ac fel cyfran o amcangyfrifon anabledd cyffredinol.

Caiff ystodau plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu dangos yn y tabl islaw;




**Ffigwr 7.2.1.c**

Mae brig ar y grŵp oedran 2 flwydd sy'n dangos y nifer o blant sy'n defnyddio gofal dydd sesiwn a bydd nifer y plant sy'n mynd i leoedd a gyllidir gan Dechrau'n Deg yn effeithio'n sylweddol ar hyn. Mae gostyngiad amlwg yn y plant sy'n mynychu gofal plant ar ôl 12 oed.

Yn nhermau bodlonrwydd gyda'r gofal plant a ddefnyddir, mae'r tabl dilynol yn dangos barn rhieni:

| | **Amser Tymor** | | | | **Cyfan** | **Gwyliau Ysgol** | | | | **Cyfan** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Si | EF | GEF | DEF | | Si | EF | GEF | DEF | |
| Dim angen gwelliannau | 5 | 11 | 5 | 5 | 26 | 3 | 10 | 4 | 5 | 22 |
| Ar gael cyn 8yb | 3 | 4 | 5 | 4 | 16 | 2 | 1 | 0 | 3 | 6 |
| Ar gael cyn yr ysgol | 3 | 4 | 2 | 5 | 14 | 2 | 2 | 1 | 3 | 8 |
| Bore 9:00yb-12:00yp | 0 | 1 | 1 | 1 | 3 | 1 | 1 | 0 | 1 | 3 |
| Amser cinio 12:00yp-1:00yp | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| Prynhawn 12:00yp – 3:30yp | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| Ar ôl Ysgol 3:30yp – 6yp | 0 | 6 | 2 | 4 | 12 | 1 | 6 | 1 | 0 | 8 |
| Ar gael ar ôl 6yp | 2 | 6 | 4 | 2 | 14 | 2 | 3 | 1 | 0 | 4 |
| Gofal Dydd Llawn 8yb-6yp | 1 | 2 | 5 | 2 | 10 | 3 | 3 | 2 | 2 | 10 |
| Gofal Dros Nos | 2 | 2 | 1 | 0 | 5 | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| Gofal Penwythnos | 2 | 6 | 4 | 1 | 13 | 2 | 4 | 0 | 1 | 7 |
| Lleoliad yn nes adref | 3 | 3 | 2 | 0 | 8 | 2 | 2 | 0 | 0 | 4 |
| Lleoliad yn nes at y gwaith | 1 | 1 | 1 | 0 | 3 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Lleoliad yn nes at astudio | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| Lleoliad nes at siblingiaid | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Gofal plant sy'n well ar gyflawni anghenion unigol fy mhlentyn | 0 | 2 | 0 | 1 | 3 | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg | 1 | 1 | 1 | 0 | 3 | 1 | 2 | 1 | 0 | 4 |
| Argaeledd gofal plant cyfrwng Saesneg | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| Argaelodd gofal plant dwyieithog | 0 | 0 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mwy fforddiadwy | **4** | **13** | **7** | **8** | **31** | **3** | **5** | **2** | **4** | **14** |
| Arall (esboniwch) | 0 | 2 | 2 | 1 | 5 | 0 | 2 | 0 | 1 | 3 |

**Ffigwr 7.2.1.d**

Y 'gwelliant sydd ei angen' a gafodd y rhan fwyaf o gefnogaeth gan rieni yw gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy, ond mae hefyd gefnogaeth sylweddol dros ofal plant ar gael cyn 8yb/cyn ysgol, ar ôl 6yp ac ar benwythnosau.

Y rheswm mwyaf a nodwyd am beidio defnyddio gofal plant ar hyn o bryd oedd 'Mae fy mhartner/teulu/ffrindiau yn gofalu am fy mhlant' (119 o rieni) a ddilynwyd gan 'Rwyf i/fy mhartner yn rhiant aros adref' (76 rhiant) ac yn drydydd 'Mae gofal plant yn rhy ddrud' (60 rhiant). Ychydig o rieni a soniodd am fod yr amserau ar gael yn broblem; cyn 8yb - 5 rhiant, ar ôl 6yp - 8 rhiant, dros nos - 0 rhiant a gofal penwythnos - 4 rhiant.

Gofynnwyd i rieni am eu barn ar eu gofal plant, gweler y tabl islaw:

| | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Dim yn Gwybod** | **Dim yn Berthnasol** |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n fodlon gydag ansawdd fy ngofal plant yn ystod y tymor | 83 | 3 | 2 | 7 |
| Rwy'n fodlon gydag ansawdd fy ngofal plant yn ystod gwyliau ysgol | 56 | 7 | 6 | 24 |
| Mae dewis da o ofal plant yn y Sir | 33 | 30 | 18 | 9 |
| Nid yw gofal plant ar gael ar yr amser rwyf ei angen | 22 | 33 | 12 | 17 |
| Ychydig o ddewis sydd yn y mathau o ofal plant sydd ar gael a'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig | 22 | 28 | 17 | 11 |
| Mae gofal plant mewn lleoliad da | 64 | 15 | 7 | 1 |
| Nid oes gofal plant ar gael ar gyfer oedran fy mhlant | 5 | 51 | 7 | 18 |
| Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlant/plentyn | 70 | 3 | 4 | 7 |
| Hoffwn i fy mhlentyn/plant fynychu mwy o ofal plant cofrestredig (cynnydd mewn oriau) | 27 | 26 | 8 | 14 |
| Mae gofal plant yn rhy ddrud | 62 | 11 | 6 | 8 |
| Byddai'n well gennyf ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant | 36 | 38 | 6 | 6 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae gennyf broblem gyda gofal plant sy'n torri lawr neu'n annibynadwy | 14 | 50 | 1 | 16 |
| Mae diffyg gofal plant yn rhwystr i fi gael mynediad i gyflogaeth neu hyfforddiant | 16 | 44 | 1 | 19 |
| Rwy'n gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant | 49 | 22 | 6 | 8 |
| Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth ariannol ar gymorth ariannol ar ofal plant | 34 | 32 | 7 | 9 |
| Mae digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg | 29 | 17 | 20 | 16 |
| Mae digon o ofal plant ar gael yn fy newis iaith | 51 | 10 | 8 | 14 |

**Ffigwr 7.2.1.e**

Mynegodd rhieni lawer o fodlonrwydd gydag ansawdd a lleoliad darpariaeth gofal plant, a llawer iawn o gytundeb y gall gofal plant ddarparu ar gyfer anghenion eu plant. Mae barn mwy cymysg ar y dewis o fathau gofal plant ac amseriadau ar gael - mae'n sicr fod patrymau gwaith rhieni unigol yn dylanwadu ar amseriad. Mae pryder nad oes dros hanner y rhieni a ymatebodd yn gwybod ble i gael gwybodaeth am gymorth ariannol a bron i draean ddim yn gwybod ble i gael gwybodaeth am ofal plant.

Roedd barn gymysg am argaeledd iaith - er y cytunai'r rhan fwyaf o rieni fod digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg, roedd nifer sylweddol yn anghytuno. Fodd bynnag cytunodd cyfran fawr o rieni nad oedd digon o ofal plant ar gael yn eu dewis iaith. Bydd dewisiadau iaith bersonol y rhiant yn dylanwadu ar farn am argaeledd dewis, gyda rhieni sydd eisiau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn debygol o gael problemau gan fod rhan fwyaf o'r gofal plant ym Mlaenau Gwent yn gyfrwng Saesneg.

7.2.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae maint sampl yr arolwg rhieni yn ei gwneud yn anodd cymryd unrhyw beth heblaw arsylwadau cyffredinol am farn rhieni am ofal plant. Byddai'n ymddangos fod nifer uchel o'r rhieni yn y sampl nad ydynt yn defnyddio gofal plant yn dangos fod nifer sylweddol o rieni ym Mlaenau Gwent sy'n well ganddynt aros adref i ofalu am eu plant neu ymddiried eu gofal i deuluoedd a ffrindiau.

Ar gyfer y rhieni sy'n defnyddio gofal plant mae llawer o fodlonrwydd gyda'r gofal plant a ddefnyddir gyda'r gyfran uchaf o rieni yn teimlo nad oedd angen gwelliannau i'w darpariaeth gofal plant. Dywedodd y rhan fwyaf o rieni eu bod yn fodlon gydag ansawdd a lleoliad eu darpariaeth a theimlent fod darpariaeth ar gyfer anghenion eu plant.

Yn nhermau pryderon rhieni yn defnyddio gofal plant, y problemau mwyaf gyda gofal plant oedd y gost, a ddilynwyd gan argaeledd gofal plant ar gael cyn 8yb, ar ôl 6yp ac ar benwythnosau. Mae'r materion hyn o gonsyrn yma'n cwmpasu gofal plant yn ystod y tymor a hefyd yn ystod gwyliau.

Cost/fforddiadwyedd hefyd oedd y trydydd rheswm mwyaf cyffredin pam nad yw rhieni'n defnyddio gofal plant.

Nodwyd fod mwyafrif y plant sy'n mynychu gofal plant yn gwneud hynny ar sail ran-amser ac mae'n debygol fod cost gofal plant yn dylanwadu ar hyn. Mae hefyd yn debygol o gael ei ddylanwadu gan oriau gwaith rhan-amser rhai rhieni a rhieni yn trefnu patrymau gwaith rhyngddynt â'u teulu i ostwng ar faint o oriau/dyddiau mae angen gofal plant ffurfiol.

Nodwyd y dywedodd nifer sylweddol o rieni na wyddent ble i gael gwybodeath am gymorth ariannol ac nid oedd cyfran lai yn gwybod ble i gael gwybodaeth am ddarparwyr gofal plant.

### 7.3. Galw am Ddarpariaeth Gofal Plant

7.3.1. Dadansoddiad o'r Galw am Ddarpariaeth Gofal Plant

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda rhieni, gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 8. Dylid rhoi ystyriaeth i'r dilynol:*

- *Ystod y gwasanaethau a ddefnyddir*
- *Nifer a math y lleoedd plant sydd ei angen (llawn-amser, rhan-amser, ad-hoc)*
- *Nifer lleoedd sydd eu hangen ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd*
- *Nifer lleoedd sydd eu hangen yn ôl categori iaith*
- *Amserau gofal plant, yn cynnwys y nifer yn cynnig oriau gofal plant hyblyg*
- *Ystod hyd sesiynau*
- *Ystod oedran plant y mae angen gofal plant ar eu cyfer*
- *Barn rhieni ar y gofal plant a gynigir*

Nid yw'n bosibl dod o hyd i unrhyw wybodaeth fanwl am alw'r dyfodol o'r arolwg rhieni. Roedd maint sampl yr holiadur yn gyffredinol yn fach ac roedd nifer y rhieni sy'n cynllunio ar anghenion gofal plant yn y dyfodol hyd yn oed yn llai - dim ond 109 o rieni (gyda 75 yn ystyried gofal plant ffurfiol a 34 yn ystyried gofal teulu a ffrindiau). O'r rhieni hynny a nododd y byddent angen gofal plant yn y dyfodol, yn aml dengys yr wybodaeth a gafwyd ganddynt eu bod yn ystyried sawl math o ofal plant (gan iddynt dicio dau neu fwy o flychau math gofal plant) ac yn aml ni wnaethant ddangos pa mor aml y byddent angen gofal plant (llawn-amser, rhan-amser, ad hoc). Yn ychwanegol nid oedd rhieni yn aml yn nodi eu dewis iaith. Mae'r un mor anodd rhagweld pryd mae'r plant hynny sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd yn debyg o roi'r gorau i'w ddefnyddio. Felly ni theimlir ei bod yn ddoeth defnyddio'r data hwn i gynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol gan y bernir ei fod yn rhy anghyson i fod yn ddefnyddiol.

Mae data poblogaeth, ynghyd â gwybodaeth o ddatblygiadau lleol a chenedlaethol a allai effeithio ar lefelau'r gofal plant sy'n debygol o fod ei angen, yn arwydd gwell o angen tebygol yn y dyfodol. Mae'r asesiad hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r sylwadau a fynegwyd gan rieni am y rhesymau presennol am beidio defnyddio gofal plant gan y gallent efallai gymryd cynnig gofal plant ffurfiol pe byddai ar gael.

Caiff y cynnig 30 awr ei dreialu ym Mlaenau Gwent o fis Medi 2017. Yr arwyddion cyfredol yw y gallwn gynnig y rhaglen i dros 200 o blant, fydd yn cael effaith sylweddol ar y galw am leoedd gofal plant yn yr ardal. Mae'r tîm EYCP eisoes wedi cwblhau asesiad

cynnar o'r galw tebygol wedi'i fapio i lefelau cyfredol o ddarpariaeth. Caiff gwaith ei ddatblygu gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau'r ffigurau terfynol a bydd tîm EYCP yn gweithio i ddatblygu lleoedd gofal plant mewn ardaloedd lle dynodwyd bylchau.

Caiff Credyd Cynhwysol ei ymestyn ym Mlaenau Gwent o fis Ebrill 2018. Mae gwerthuso ymestyn y Credyd Cynhwysol yn yr ardaloedd Braenaru dechreuol (2014) wedi awgrymu fod rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn fwy tebygol o fod wedi dod o hyd i swydd yn y trydydd pwynt arolwg na hawlwyr Lwfans Ceisiwyr Gwaith (69% a 65% yn yr un drefn). Gwelwyd fod hawlwyr Credyd Cynhwysol hefyd yn fwy cadarnhaol am eu rhagolygon cyflogaeth yn y gwerthusiad yma. Mae'n debygol felly y bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol yn 2018 yn cael effaith ar ddefnydd cyflogaeth, er na fyddai arwyddion cynnar yn awgrymu y caiff hyn effaith fawr.

Nodir y gallai Brexit gael effaith ar y farchnad lafur leol gan effeithio mwy ar weithgynhyrchu efallai na sectorau eraill. Mae rhai rhaglenni'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (Pontydd i Waith, Sgiliau Gwaith i Oedolion, PACE) weithiau'n defnyddio gofal plant lleol i gefnogi pobl sy'n dilyn hyfforddiant ar eu rhaglenni a bydd colli'r rhaglenni hyn yn cael peth effaith ar y galw am leoedd ad hoc a defnydd crèche symudol.

Mae ansicrwydd ar hyn o bryd am ddyfodol Cymunedau yn Gyntaf a gallai hyn hefyd effeithio ar y farchnad gofal plant gan y gallai gostwng/atal y gwasanaeth hwnnw hefyd gyfyngu ar y galw am leoedd mewn crèche symudol a lleoedd gofal plant ad hoc.

Mae hefyd rai cynlluniau amlinellol ar gyfer datblygiadau tai newydd ym Mlaenau Gwent gydag un safle o 73 dai yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd yng Nglynebwy.

Gallai prosiect Cylchffordd Cymru gael effaith fawr ar y farchnad gofal plant ym Mlaenau Gwent, gyda hyd at 6000 o swyddi'n cael eu creu, a gallai hyn olygu y bydd llawer o bobl ym Mlaenau Gwent yn dychwelyd i'r gwaith a/neu gael swyddi ar gyflogau gwell. Gallai hyn fod yn sbardun mawr wrth gynyddu'r defnydd o ofal plant. Ynghyd â hyn mae'r potensial ar gyfer pobl yn dod i'r gwaith o ardaloedd cyfagos a all fod angen gofal plant yn agos at eu man gwaith.

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn bartner yn Nêl Dinas Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n werth £1.2 biliwn i'r rhanbarth. Disgwylir y bydd yn sicrhau hyd at 25,000 o swyddi newydd ac ysgogi £4 biliwn ychwanegol mewn buddsoddiad sector preifat. Dylai gwelliannau i'r seilwaith cludiant a digidol, sefydlu bwrdd sgiliau a chyflogaeth, cefnogaeth ar gyfer menter a thwf busnes a datblygiadau tai ac adfywio, gael effaith ar y farchnad gyflogaeth leol. Gall cyfleoedd cyflogaeth a ddaw ar gael tu allan i'r ardal effeithio ar y gofal plant yn agos at brif lwybrau teithio i'r gwaith a gallent hefyd greu'r galw am oriau agor estynedig gan fod angen i rieni ystyried amserau teithio i'r gwaith.

Bu'r boblogaeth ym Mlaenau Gwent yn gostwng yn araf dros nifer o ddegawdau a rhagwelir y bydd y boblogaeth yn dal i ostwng hyd at 2036. Adlewyrchir hyn ar gyfer y boblogaeth grŵp oedran 0-15 a disgwylir y bydd y gostyngiad yn parhau yn y grŵp oedran hefyd. Felly mae twf poblogaeth yn annhebyg o fod yn sbardun ar gyfer y farchnad gofal plant yn y tymor byr i'r tymor canol.

Gofynnwyd i rieni beth fyddai'n ffactorau pwysig wrthynt wrth ddewis gofal plant yn y dyfodol a'r atebion oedd:

| Ffactorau Tebyg | | Nifer ymatebwyr |
|---|---|---|
| Dewis o wahanol fathau gofal plant | | 195 |
| Gofal plant ansawdd uchel | | 194 |
| Gofal plant fforddiadwy | | 199 |
| Cludiant / Nôl o'r ysgol | | 61 |
| Agos adref | | 141 |
| Agos i'r gwaith | | 29 |
| Agos at ysgol y plentyn | | 64 |
| Dewis iaith | | 4 |
| Amlygu dewis iaith: | Cyfrwng Cymraeg | 0 |

**Ffigwr 7.3.a**

Dengys hyn bod fforddiadwyedd, dewis ac ansawdd yn ffactorau allweddol, a ddilynir gan agosatrwydd at adref. Ychydig iawn o rieni a soniodd am ddewis iaith. Mae'n rhaid cadw'r ffactorau hyn mewn cof mewn unrhyw ddatblygiadau gofal plant newydd sydd ar y gweill.

7.3.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Fel y nodwyd uchaf mae'r cyfyngiadau yn yr ymatebion i'r arolwg rhieni'n ei gwneud yn anodd i ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd mewn unrhyw ffordd bendant i gynllunio ar gyfer anghenion gofal plant y dyfodol. Mae'r un mor anodd meintioli rhai o'r ffactorau eraill a amlinellir uchod a allai gael effaith ar y galw yn y dyfodol. Byddai'r cyfraddau lleoedd gwag a adroddwyd ar draws yr ystod darparwyr yn awgrymu fod cwmpas am i beth galw cynyddol gael ei amsugno gan ddarparwyr presennol, gyda bylchau wedi'u dynodi yng nghyswllt mathau penodol o ofal plant mewn rhai ardaloedd a diffyg dewis iaith darpariaeth.

Mae'r cynnig 30 awr a gaiff ei dreialu ym Mlaenau Gwent yn sbardun y gellir ei feintioli'n haws ar gyfer lleoedd gofal plant ac felly disgwylir y bydd yn cynyddu'r galw am ofal plant amlap a gwyliau. Mae tîm EYCP yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar nifer y plant i'w gynnwys yn y cyfnod treialu a bydd yn mapio'r nifer hwn o gymharu gyda'r cyflenwad presennol a nifer lleoedd gwag yn yr Ardaloedd Cynllunio Cymunedol asesu lle bydd pwyntiau pwysau ac angen annog ehangu cyflenwad gofal plant.

Mae'r tîm EYCP mewn lle da i weithio gyda phartneriaid a sefydliadau i ateb y galw cynyddol am leoedd gofal plant ychwanegol ac mae wedi dechrau datblygu cynlluniau i gyflawni'r anghenion cynyddol y bydd cynnig gofal plant 30 awr yn ei ysgogi.

### 7.4. Rhwystrau Darpariaeth Gofal Plant

7.4.1. Hygyrchedd Darpariaeth Gofal Plant

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o ymgynghoriad gyda grwpiau rhanddeiliaid*

Mae cydweithwyr o wasanaeth lleol Canolfan Byd Gwaith, Coleg Gwent ac Aneurin Leisure wedi cwblhau arolygon parthed gofal plant lleol a ddengys yn gyffredinol fod y gwasanaethau a ddarperir yn foddhaol, er y croesewid mwy o gefnogaeth ar gyfer teuluoedd incwm isel/diwaith (mwy o gefnogaeth drwy Cymorth Lleoedd, ymestyn Dechrau'n Deg, gofal ar ôl ysgol mwy fforddiadwy).

Ymatebodd Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru i neges e-bost ond dim ond ar yr ystod hyfforddiant oedd ar gael i ddarparwyr gofal plant lleol i gefnogi eu harfer diogelu y gallai roi sylwadau.

Mae'r Rheolwr Gofal Plant a Chwarae Blynyddoedd Cynnar yn aelod o Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent ac yn cyfrannu at y nodau a amlinellwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2010. Rhoddwyd adroddiad ar gynnydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn gyson i grŵp Cymraeg mewn Addysg a gofynnwyd i aelodau roi sylwadau, yn arbennig ar ofal plant cyfrwng Cymraeg. Derbyniwyd un ymateb gan gydweithiwr mewn Addysg oedd yn nodi'r cysylltiadau gyda dwy amcan lefel uchel:

- Cynyddu'r cynnig blynyddoedd cynnar i ysgogi galw rhieni i alluogi twf ar draws y Fwrdeisdref Sirol
- Cynyddu cyfraddau pontio o ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg gan 50% erbyn 2020

Nododd yr ymateb ymhellach fod yr arolwg galw rhieni yn dangos peth galw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd Ebwy Fawr a Sirhywi (er y nodwyd cyfradd ymateb isel hefyd). Dywedwyd fod mater cludiant yn rhwystr i rieni yn cyrchu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

Teimlai PPA Cymru na fedrent roi sylwadau am y ddarpariaeth bresennol ym Mlaenau Gwent gan nad ydynt yn cael eu hariannu gan yr Awdurdod Lleol i ddarparu gwaith datblygu yn yr ardal. Nododd PPA Cymru y dylai Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru fod o fudd i rieni sy'n gweithio a chefnogi oriau agor/modelau gofal plant hyblyg. Nododd PPA Cymru hefyd fanteision rhaglen PaCE wrth gefnogi rhieni mewn hyfforddiant ac mewn swyddi newydd. Nododd PPA Cymru bryderon ledled Cymru am gyfyngiadau cyllid Cymorth Lleoedd a chefnogaeth ar gyfer plant gydag anghenion ychwanegol.

Nododd Clybiau Plant Cymru Kids Clubs (CPCKC) hefyd eu hanallu i roi sylwadau ar ddarpariaeth leol oherwydd na chânt eu hariannu gan yr Awdurdod Lleol, ond fe wnaethant godi pryderon y bu colled sylweddol o glybiau ar ôl ysgol ledled Cymru yn y

flwyddyn ddiwethaf. Ystyriwyd fod cefnogaeth i gofrestru ar gyfer lleoliadau nad ydynt wedi cofrestru ar hyn o bryd yn flaenoriaeth fel y gallai clybiau fanteisio ar brentisiaethau Gwaith Chwarae ac y gallai rhieni gael mynediad i ofal plant di-dreth a Chredydau Treth Gwaith. Nododd CPCKC ymhellach y dengys arolwg diweddar fod 35% o rieni'n dymuno cael mynediad i mwy o ofal gwyliau. Dywedodd 17% o rieni fod cost yn rhwystr iddynt gael mynediad i fwy o ofal plant a dywedodd 30% o rieni nad oedd gofal gwyliau addas ar gael iddynt.

Cydnabu PACEY Cymru fod CBS Blaenau Gwent yn cydnabod pwysigrwydd gofalwyr plant wrth gefnogi'r sector gofal plant lleol ac amlinellu rhai o'r gefnogaeth ddefnyddiol a gynigir i ofalwyr plant: sesiynau gwybodaeth, hyfforddiant, grantiau a chefnogaeth sicrwydd ansawdd. Nododd PACEY Cymru hefyd y gefnogaeth a roddant i'r sector a'r awdurdod lleol wrth gyflenwi hyfforddiant a bod yn rhan o Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Cododd PACEY Cymru rai materion am y gostyngiad yn y galw am hyfforddiant ers cyflwyno ffioedd a hefyd pryderon am addasrwydd y cynllun Sicrwydd Ansawdd a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Nododd PACEY Cymru hefyd nad yw Blaenau Gwent yn cyllido gofalwyr plant i ddarparu Dechrau'n Deg na'r Cyfnod Sylfaen a chroesawu trafodaethau ar y mater hwn yn y dyfodol. Amlygwyd y datblygiadau am ofal plant di-dreth a'r Cynnig 30 Awr fel cynlluniau fydd yn effeithio ar fforddiadwyedd ar gyfer teuluoedd a chynaliadwyedd ar gyfer lleoliadau. Codwyd yr angen i hyrwyddo'r newidiadau i reoleiddio ymhellach yng nghyswllt gofal am blant hyd 12 oed hefyd, yn ogystal â'r cyfle i ddefnyddio Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu yn well i gefnogi ymgysylltu a hyrwyddo gwasanaethau.

Rhoddodd y Mudiad Meithrin adborth ar ddarpariaeth leol gan nodi fod ansawdd y ddarpariaeth, nifer y lleoedd a gynigir a'r amserau agor i gyd yn dda. Teimlent fod fforddiadwyedd yn ardderchog ond mai dim ond boddhaol oedd yr ystod darparwyr a darpariaeth ddwyieithog. Awgrymodd Mudiad Meithrin y dylai'r Awdurdod Lleol ddarparu mwy o weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn ardal Glynebwy yn arbennig ac y dylai pob darpariaeth fod yn lleol i ddarparu ar gyfer teuluoedd incwm isel heb fynediad i gar. Awgrymodd Mudiad Meithrin ymhellach y gellid gwneud mwy i hyrwyddo ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod Lleol ac awgrymodd fwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a chynnal digwyddiadau am ddim i deuluoedd.

Rhoddodd NDNA (Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd) Cymru adborth ar ddarpariaeth leol gan nodi fod ansawdd, oriau agor a lleoliad/hygyrchedd darpariaeth yn dda. Dim ond boddhaol yw fforddiadwyedd a hyblygrwydd a dywedwyd fod darpariaeth ddwyieithog yn wael. Nododd NDNA ymgysylltiad darparwyr gyda chynllun sicrwydd ansawdd yr Awdurdod Lleol a'r pwysigrwydd mewn codi safonau. Nododd NDNA y pwysau a deimlir gan feithrinfeydd dydd oherwydd cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol a gostyngiad mewn lefelau defnydd, gyda lefelau isel o hyder yn y sector yn cael eu hadrodd. Cydnabu NDNA Cymru hefyd y Cynnig Gofal Plant a nodi'r effaith y gallai hyn ei gael ar deuluoedd incwm isel a phwysigrwydd economi cymysg mewn gofal plant yn diwallu anghenion.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ym Mlaenau Gwent yn eistedd gyda'r tîm Gofal Plant a Chwarae Blynyddoedd Cynnar ac yn gweithio'n agos gyda'r tîm i sicrhau fod yr wybodaeth ddiweddaraf gan yr Awdurdod Lleol yng nghyswllt darparwyr a hefyd yn adrodd ar nifer y rhieni sy'n cael gwybodaeth am ofal plant ac adborth gan rieni yn dilyn ymholiadau gofal plant i ddynodi unrhyw rai a gafodd anawsterau yn canfod gofal plant sy'n diwallu eu hanghenion.

Gofynnwyd i awdurdodau lleol cyfagos rannu gwybodaeth am y defnydd o ofal plant ar draws ffiniau a darpariaeth agos at ein ffiniau a allai effeithio ar y farchnad gofal plant ym Mlaenau Gwent. Dim ond dau awdurdod lleol a ymatebodd, Caerffili a Sir Fynwy, ac ychydig o dystiolaeth a ddangosir yn yr wybodaeth a gafwyd fod teuluoedd o'r ardaloedd hyn yn dewis gofal plant ym Mlaenau Gwent; fodd bynnag fel y nodwyd uchod, roedd lefel yr ymateb i'r arolwg rhieni yn gyfyngedig iawn ym mhob ardal Awdurdod Lleol. Ni nodwyd fod unrhyw ddarpariaeth gofal plant yn arbennig o agos at ffiniau Blaenau Gwent.

Yr un rheswm mwyaf a nodwyd gan rieni a lenwodd yr arolwg rhieni am beidio defnyddio gofal plant ffurfiol oedd bod 'partner, ffrindiau neu berthnasau yn gofalu ar ôl plant', a ddilynwyd yn agos gan riant yn gofalu am eu plant eu hunain. Gallai hyn ddangos y ffafrir i blant gael gofal gan berthnasau a ffrindiau. Y ffactor fwyaf wedyn a nodwyd yw cost gofal plant a all fod yn gysylltiedig gyda'r dewis am ofal perthnasau/ffrindiau ai peidio.

Mae peth tystiolaeth fod diffyg oriau agor hyblyg yn rhwystr i gael mynediad i ofal plant i nifer o rieni gydag awgrymiadau y byddai mwy o ofal cyn 8yb, ar ôl 6yp ac ar benwythnos yn arbennig o ddymunol.

7.4.2. Rhwystrau a brofir gan grwpiau targed penodol

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o ymgynghoriad gyda grwpiau rhanddeiliaid. Dylid cyfeirio'n arbennig at y dilynol, yn unol â'r rheoliadau:*

<u>(i) Rhieni sy'n Gweithio</u>

Dywedodd 107 o rieni a lenwodd yr arolwg eu bod yn gwneud hynny oherwydd eu bod mewn cyflogaeth; roedd hyn yn sylweddol uwch nag unrhyw reswm arall a nodwyd (buddion cymdeithasol/dysgu ar gyfer y plentyn - 21 rhiant, i fanteisio ar hawl i Dechrau'n Deg - 15 rhiant, pob rheswm arall - llai na 10 rhiant). Roedd rhieni sy'n gweithio yn gyffredinol fodlon iawn gydag ansawdd gofal plant, er fod mwy o wahaniaeth barn am ddewis (23 rhiant yn cytuno fod dewis da, ond 6 rhiant yn anghytuno). Roedd hefyd wahaniaeth barn ar p'un ai yw gofal plant ar gael ar yr amserau mae ei angen gyda'r un nifer yn cytuno ac anghytuno, gan nodi fod amserau'n gweddu i rai rhieni ond nid pawb. Teimlai y rhan fwyaf o rieni fod gofal plant mewn lleoliad da ac yn darparu ar gyfer anghenion eu plentyn, dim ond 5 rhiant ddywedodd nad oedd gofal plant ar gael ar gyfer oedran eu plant. Nid oedd y rhan fwyaf o rieni yn cael problem gyda threfniadau gofal plant yn chwalu ac ychydig a gredai fod gofal plant yn rhwystr i gael gwaith neu hyfforddiant. Er fod y rhan fwyaf o rieni yn gwybod ble i gael gwybodaeth am ofal plant, roedd llai yn gwybod ble i gael gwybodaeth am gymorth ariannol. Teimlai'r rhan fwyaf o rieni fod digon o ofal plant ar gael yn eu dewis iaith (30 yn cytuno, 4 yn anghytuno) ond roedd rhaniad mwy cyfartal mewn barn os oedd digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael (credai 16 fod digon, anghytunai 11).

Yn gyffredinol roedd sefydliadau cyflogaeth/hyfforddiant a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn teimlo fod ansawdd, dewis, fforddiadwyedd a hyblygrwydd gofal plant ym Mlaenau Gwent yn foddhaol o leiaf. Awgrymiadau allweddol am welliannau oedd: ymestyn oriau agor i gefnogi rhieni sy'n gweitho shifftiau, darpariaeth amlap ychwanegol, darpariaeth ar ôl ysgol fwy fforddiadwy. Nododd un ymateb lwyddiant Dechrau'n Deg gan nodi y byddai'n dda pe byddai ar gael mewn mwy o ardaloedd.

Ymatebodd nifer fechan o gyflogwyr i'r ymgynghoriad (5) ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys rhyw fath o weithio hyblyg: rhan-amser, amser hyblyg, rhannu swydd, dychwelyd i'r gwaith mewn camau, gweithio o gartref, oriau amser tymor/oriau ysgol, gweithio cywasgedig a gostwng oriau dros dro. Dim ond un cyflogwr a nododd fod problem 'fach' yng nghyswllt staff yn cymryd neu'n parhau mewn cyflogaeth oherwydd ffactorau gofal plant ac nid oedd pedwar o'r pump wedi cael problemau yn dilyn absenoldeb mamolaeth/tadolaeth.

(ii) Rhieni'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddiant

Dim ond 10 rhiant a lenwodd yr arolwg rhieni a ddywedodd eu bod yn chwilio am waith a dim ond 2 yn chwilio am gyfleoedd hyfforddiant, o'r cyfan sy'n rhieni aros adref ar hyn o bryd. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Pe byddech yn edrych am ofal plant, beth fyddech chi'n edrych amdano':

Gofal plant ansawdd da – 9
Fforddiadwyedd – 8
Taliadau hyblyg – 5
Ar ôl ysgol/yn ystod gwyliau – 5
Agos adref – 4
Cludiant/dod i nôl – 4
Cyfleoedd chwarae/cymdeithasol – 4
Oriau hyblyg – 4
Dewis iaith – 3

Awgrymodd sefydliadau cyflogaeth/hyfforddiant fod bylchau i rai rhieni yn nhermau hyblygrwydd oriau agor a chostau sy'n gwneud gofal plant yn rhwystr.

Awgrymodd darparwyr gofal plant y gellid gwneud mwy i gynnig sesiynau galw heibio i rieni sy'n mynychu cyfweliadau a gweithdai a gynigir i rieni allan o waith.

(iii) Aelwydydd diwaith

Y prif resymau a roddodd rhieni heb fod mewn gwaith am beidio defnyddio gofal plant oedd eu bod un ai yn rhiant aros adref (50 rhiant), bod eu partner, perthnasau neu ffrindiau yn gofalu am eu plant (14 rhiant) neu fod gofal plant yn rhy ddrud (20).

Fel yr amlinellir uchod mae peth awgrym, gan rai sefydliadau, y byddai mwy o hyblygrwydd a gofal plant rhatach yn gymorth i bob rhiant ac y gallai'r cymhellion gofal plant a gynigir gan Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant 30 Awr ddenu mwy o rieni i chwilio am waith/cyfleoedd hyfforddiant. Awgrym ychwanegol oedd 'Mwy o leoedd gyda chymorth ar gael gan Gwasanaethau Cymdeithasol/Teuluoedd yn Gyntaf.'

(iv) Teuluoedd incwm isel

Dynododd yr ymgynghoriad gyda rhieni fod fforddiadwyedd yn fater allweddol gyda 62 rhiant sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd yn dweud ei fod yn rhy ddrud. Nododd rhieni nad ydynt yn defnyddio gofal plant mai'r gost oedd y rheswm trydydd fwyaf am beidio defnyddio gofal plant, ar ôl defnyddio perthnasau/ffrindiau/partneriaid i ofalu am blant a bod yn rhiant aros adref.

Cafodd y farn am fforddiadwyedd eu graddio o wael i ardderchog gan sefydliadau sy'n ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd sylwadau ar gyfer gwella'n cynnwys 'Mae Dechrau'n Deg yn gweithio'n wirioneddol dda gyda'n cwsmeriaid ond mae wedi ei gyfyngu i rai ardaloedd a byddai'n dda pe byddai hyn ar gael ym mhob rhan o Dredegar'. 'Darpariaeth gofal plant ar ôl ysgol cofrestredig mwy fforddiadwy. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion ym Mlaenau Gwent yn cynnig hyn.'

Nododd sefydliadau ymbarel y gallai'r Cynnig Gofal Plant 30 awr gael effaith ar gostau gofal plant ar gyfer pob teulu mewn gwaith.

(vi) Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrif ethnig

Dynododd 9 rhiant eu bod o gymuned ethnig yn cynnwys 1 sipsi/teithiwr Gwyddelig, 1 Romaniad, 1 Pwylaidd, 1 Portiwgalaidd,1 Americanaidd, 1 Ffrengig, 1 Gwyn a Du Caribiaidd, 1 Gwyn Asiaidd ac 1 Gwyn Arabaidd. Roedd 3 ohonynt yn rhieni mewn gwaith, 2 yn defnyddio gofal plant. Er fod nifer yr ymatebwyr yn isel maent yn rhesymol gyfrannol i nifer y bobl ym Mlaenau Gwent sy'n dynodi eu bod o leiafrif ethnig (2% o'r rhieni a arolygwyd, 2.6% o'r boblogaeth).

Ymhellach, anfonwyd arolygon byrrach at ddosbarthiadau ESOL yn gweithredu yn yr Awdurdod Lleol a derbyniwyd ymatebion gan 8 myfyriwr, 6 ohonynt â phlant. Roedd y cenhedloedd yn cynnwys Kuwaiti, Tsieinaidd, Pwyleg, Bangladeshaidd, Latfian, Sbaenwyr a Syriaid. Dywedodd 2 riant eu bod yn defnyddio gofal plant ar hyn o bryd ac ni soniodd y naill na'r llall am anawsterau yn cael mynediad i ofal plant.

Mae Dechrau'n Deg yn casglu data ar ddefnydd gofal plant ar gyfer teuluoedd o deuluoedd lleiafrif ethnig. Mae eu ffurflenni 15/16 yn dangos y cafodd 16 o blant o deuluoedd lleiafrif ethnig gynnig lle gofal plant Dechrau'n Deg a derbyniodd pob un o'r 16 le. Ychydig o dystiolaeth sydd felly i awgrymu fod teuluoedd o gefndiroedd lleiafrif ethnig yn profi rhwystrau ychwanegol i gael mynediad i ofal plant.

(vii) Teuluoedd gyda phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig, neu anabledd

Dywedodd 48 o rieni a lenwodd yr arolwg rhieni fod anableddau ar eu plentyn/plant, yn cynnwys ym mhob un o'r categorïau a restrwyd: Corfforol, Clyw, Golwg, Dysgu ac Emosiynol. Mae hyn yn gyfartal ag 11% o rieni felly mae'n gyfran resymol o'r sampl; o gofio yr amcangyfrifir y byddai gan 5% o blant yn y boblogaeth gyffredinol ryw fath o anabledd. Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn, roedd y gyfradd ymateb gyffredinol yn isel. Nid oedd mwyafrif y rhieni hyn yn defnyddio gofal plant gan roi'r dilynol fel rhesymau:
Partner/Perthnasau/Ffrindiau yn gofalu am blentyn/plant – 16
Rhiant aros adref– 13
Mae gofal plant yn rhy ddrud – 8
Dim gofal plant i ddarparu ar gyfer anghenion fy mhlentyn – 4
Plentyn/plant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain – 3
Arall – 3
Dim gofal plant ar yr amser mae ei angen – 1
Dim gofal plant yn y lleoliad cywir – 1
Problemau gyda cludiant – 1

Roedd sylwadau gan rieni yn cynnwys: 'Dim yn gweithio ar hyn o bryd', 'Mae gan fy mab broblemau ymddygiad felly rwyf bob amser yn cael fy ngalw mewn pan wyf wedi defnyddio gofal plant', 'Rydym yn gweithio gyferbyn â'n gilydd felly does dim angen eu gadael', 'Ymrwymiadau apwyntiadau meddygol', 'Dim yn ymddiried yn neb - gallai'r plentyn fod yn ymosodol'. Mae'r tri prif reswm a roddwyd ar gyfer rhieni plant gydag anableddau yn peidio defnyddio gofal plant yr un fath â'r tri prif reswm a roddir dros i rieni beidio dynodi gael plant gydag anableddau.

Ni wnaeth sefydliadau eraill yn ymateb i arolygon yn gyffredinol godi materion penodol yng nghyswllt plant gydag anableddau; fodd bynnag dywedodd dau ddarparydd gofal plant cyfredol y gallai fod gwell mynediad i'r anabl, mwy o hyfforddiant a chynnig gofal plant arbenigol.

Er y nifer isel o rieni a ddywedodd eu bod yn cael problemau'n canfod gofal plant i ddarparu ar gyfer anghenion eu plentyn, gallai hyn fod yn broblem sylweddol os yw'r sampl yn adlewyrchu problemau gyda gofal plant ar raddfa fwy yn yr holl boblogaeth.

(viii) Unrhyw grwpiau targed penodol perthnasol i ardal yr Awdurdod Lleol - Dim yn berthnasol

**8. Addysg Ran-amser Blynyddoedd Cynnar (Cyfnod Sylfaen) a Darpariaeth Dechrau'n Deg**

8.1. Dadansoddiad o Addysg Ran-amser Blynyddoedd Cynnar (Cyfnod Sylfaen)

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r dystiolaeth yn Atodiad 10. Dylid rhoi ystyriaeth i'r dyfodol, i gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith, yn ôl math gofal plant:*

- Nifer darparwyr gofal plant a gyllidir i ddarparu addysg ran-amser blynyddoedd cynnar
- Nifer ysgolion a gyllidir i ddarparu Addysg Ran-amser Blynyddoedd Cynnar
- Proffil presenoldeb plant yn mynychu darpariaeth (darparwyr gofal plant ac ysgolion)
- Proffil presenoldeb wythnosol plant yn mynychu darpariaeth a gyllidir gan ddarparwyr gofal plant
- Nifer lleoedd gofal plant a gafodd eu llenwi, sydd eu hangen ac sydd ar gael
- Gofal plant sydd ei angen gan rieni i'w galluogi i sicrhau y cyfan mae ganddynt hawl iddo

Mae gan Flaenau Gwent ddau leoliad na chaiff eu cynnal a 24 ysgol gynradd sy'n cynnig addysg blynyddoedd cynnar. Mae pob ysgol gynradd ym Mlaenau Gwent yn cynnig addysg blynyddoedd cynnar. Adeg casglu data roedd 14 o blant yn cael mynediad i'w hawl mewn lleoliadau heb gael eu cynnal a 1466 o blant yn cael mynediad i'w lle drwy ddarpariaeth ysgol. Mae'r plant sy'n mynychu lleoliad nas cynhelir yn mynychu 5 sesiwn fore bob wythnos. Nid yw'r Adran Addysg yn casglu data proffil presenoldeb ar gyfer darpariaeth ysgol ar hyn o bryd.

Dywedodd 23 o rieni a lenwodd yr arolwg rhieni nad ydynt wedi cymryd eu lle addysg blynyddoedd cynnar gyda dau brif reswm: dim yn gwybod am yr hawl a bod y plentyn yn yr ysgol eisoes. Dywedodd un rhiant arall nad oeddent mewn ardal sy'n cynnig gofal plant am ddim.

Mae'r tabl islaw'n dangos y gofal plant sydd ei angen i'w galluogi i gymryd eu hawl blynyddoedd cynnar, er fod yn rhaid nodi nad yw'n ymddangos fod y rhesymau am beidio cymryd yr hawl yn cynnwys materion yn ymwneud â gofal plant amlap.

| Gofynion gofal plant | Sirhywi | Ebwy Fawr | Gogledd Ebwy Fach | De Ebwy Fach |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | 2 | 7 | 4 | 2 |
| Clwb Amser Cinio | 0 | 1 | 3 | 0 |
| Sesiwn ychwanegol Grŵp Chwarae/Cylch Meithrin/Meithrinfa | 0 | 2 | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| (9yb-12yp) | | | | |
| Sesiwn ychwanegol Grŵp Chwarae/Cylch Meithrin/Meithrinfa (12yp a 3.30yp) | 0 | 2 | 1 | 0 |
| Darpariaeth ar ôl meithrinfa/ysgol | 0 | 7 | 3 | 2 |

**Ffigwr 8.1.a**

8.2 Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae'r data dilynol yn rhoi'r canran defnydd o gyfnod sylfaen dros gyfnod o dair blynedd. Mae'n dangos fod lefel dda o ddefnydd o'r Cyfnod Sylfaen ym Mlaenau Gwent.

2015/2016 – 91%
2014/2015 – 95%
2013/2014 – 82%

Mae 26 darparydd addysg blynyddoedd cynnar ar draws y Fwrdeisdref, felly mae mynediad ac agosatrwydd at ddarparwyr a lleoedd yn dda iawn. Cymharol ychydig o rieni sy'n methu cael mynediad i addysg blynyddoedd cynnar yn lleoliad/ysgol eu dewis ar gyfer eu plentyn/plant.

O'r rhieni hynny gyda phlant 3 a 4 oed a gwblhaodd yr arolwg (95 o rieni), dywedodd chwarter nad oeddent wedi cymryd yr hyn y mae ganddynt hawl iddo. Mae peth tystiolaeth i awgrymu nad yw rhieni yn gwybod beth yw addysg blynyddoedd cynnar gan na wyddai 7 rhiant os oeddent yn ei gymryd a dywedodd 8 nad oedd yn berthnasol. O'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn ei gymryd, dywedodd 12 fod eu plant mewn ysgol lawn-amser a fyddai'n awgrymu eu bod eisoes yn derbyn eu hawl am ddim gan nad oes gennym unrhyw ysgolion talu ffi yn yr ardal. Hefyd dywedodd un rhiant nad oedd mewn ardal sy'n cynnig gofal plant am ddim gan awgrymu peth dryswch rhwng gofal plant Dechrau'n Deg ac addysg blynyddoedd cynnar.

Dim ond un lleoliad sy'n cynnig addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn yr holl Fwrdeisdref, sef yr un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Ebwy Fach. Mae peth tystiolaeth i awgrymu fod peth galw mewn ardaloedd eraill am addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, fel y gwelir yn yr arolwg o rieni a gynhaliwyd ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac arolwg rhieni Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Dywedodd 8% o'r rhieni a ymatebodd i'r arolwg hwn eu bod yn bwriadu

anfon eu plentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg, fodd bynnag dywedodd 7.8% fod peidio cael darpariaeth ar gael yn lleol yn rhwystr. Teimlai 57% o'r rhieni a ymatebodd i'r arolwg Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y byddai eu plentyn yn manteisio o addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth drin y ddau arolwg gan fod nifer yr ymatebwyr yn eithaf isel. Rhaid nodi fod y tîm EYCP wedi cefnogi sefydlu nifer o gylchoedd meithrin mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeisdref yn y degawd ddiwethaf ond eu bod yn anghynaliadwy gyda nifer isel o blant yn mynychu.

Ar hyn o bryd mae cyfradd drosglwyddo isel o'n cylchoedd meithrin i addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg (13%) ac mae gwella'r gyfradd hon yn amcan lefel uchel yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Bydd tîm EYCP yn gweithio wrth ochr cydweithwyr yn y Fforwm Addysg Gymraeg i fynd â'r amcan hwn ymlaen, yn cynnwys ystyried opsiynau ar gyfer lleoliadau nas cynhelir i lenwi'r bwlch.

8.3. Dadansoddiad o Ddarpariaeth Dechrau'n Deg

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau o'r dystiolaeth yn Atodiad 11. Dylid rhoi ystyriaeth i'r dilynol, i gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith, yn ôl math gofal plant:*

- Nifer darparwyr gofal plant a gyllidir i ddarparu Dechrau'n Deg, yn cynnwys darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig
- Proffil presenoldeb wythnosol plant sy'n mynychu darpariaeth Dechrau'n Deg
- Nifer y lleoedd a gafodd eu llenwi ac sydd eu hangen
- Nifer rhieni sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg sy'n cael mynediad i ofal plant am ddim
- Nifer rhieni nad ydynt yn defnyddio gofal plant am ddim a'r rhesymau

| | Gofal Dydd Llawn/Meithrin | | | | Gofal Dydd Sesiwn | | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iaith | Sirhywi | Ebwy Fawr | Gogledd Ebwy Fach | De Ebwy Fach | Sirhywi | Ebwy Fawr | Gogledd Ebwy Fach | De Ebwy Fach | |
| Cymraeg | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cymraeg a Saesneg | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Saesneg | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 2 | 0 | 2 | 7 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a rhai elfennau dwyieithog | | | | | | | | | |
| Saesneg | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 0 | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 2 | 11 |

**Ffigwr 8.3.a**

Mae lleoliadau Dechrau'n Deg ym Mlaenau Gwent yn gymysgedd o leoliadau a gaiff eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol (3) a darparwyr a gomisiynwyd (8). Mae pob lleoliad yn derbyn talwyr ffioedd yn ogystal â phlant Dechrau'n Deg, felly nid oes unrhyw leoliad yn un Dechrau'n Deg yn unig. Fodd bynnag, nifer isel o dalwyr ffi sy'n defnyddio lleoliadau a gaiff eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol. Mae gan leoliadau rhwng 3 a 43 o blant a gyllidir yn mynychu eu darpariaeth yn ddyddiol. Er y caiff plant eu cyllido a'u hannog i ddefnyddio eu cynnig gofal plant Dechrau Deg llawn o 5 diwrnod, mae amgylchiadau lle nad yw hyn yn digwydd oherwydd amgylchiadau teuluoedd.

Mae gwybodaeth o'r arolwg rhieni yn gyfyngedig iawn gyda dim ond 27 rhiant yn dweud eu bod yn cymryd gofal plant Dechrau'n Deg a 9 rhiant yn dweud na wnaethant gymryd eu lle gofal plant am ddim Dechrau'n Deg neu 'dim yn gwybod'. Fodd bynnag, wrth wirio gwelwyd nad oedd 2 o'r rhieni hyn yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg.

Ni wnaeth Dechrau'n Deg gofnodi nifer y plant sy'n defnyddio gofal plant ar gyfer eu plentyn, er y gellir tybio ei fod o leiaf un rhiant fesul plentyn. Mae'r data dilynol yn dangos nifer y plant sy'n cael mynediad i ofal plant Dechrau'n Deg yn y tair blynedd ddiwethaf a'r cyfraddau defnydd:

- 2013-14, 153 allan o 181 cymwys wedi defnyddio gofal plant, 85%
- 2014-15, 248 allan o 277 cymwys wedi defnyddio gofal plant, 90%
- 2015-16, 258 allan o 306 cymwys wedi defnyddio gofal plant, 84%
- Tymor 1 a 2 2016-17, 183 allan o 199 wedi defnyddio gofal plant, 92%

Mae'r data islaw'n dangos nifer y gwrthodiadau gofal plant am y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â'r rhesymau

| Rheswm am wrthod | Tymor 1 | Tymor 2 | Tymor 3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|

| | | | | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| **Mynychu gofal plant preifat** | 10 | 2 | 2 | 14 |
| **Mynychu gofal plant arall e.e. teulu** | 2 | 1 | 3 | 6 |
| **Rhiant pryderus** | 1 | 1 | 0 | 2 |
| **Rhiant yn teimlo fod y plentyn yn rhy ifanc** | 0 | 1 | 1 | 2 |
| **Heb roi rheswm** | 1 | 4 | 4 | 9 |
| **Dim ymateb** | 2 | 10 | 3 | 15 |
| **Cyfanswm** | **16** | **19** | **13** | **48** |

**Ffigwr 8.3.b**

Caiff plant eu cofrestru ar raglen Dechrau'n Deg adeg eu geni ac mae Cydlynydd Gofal Plant Dechrau'n Deg yn casglu manylion cymwys plant yn y tymor cyn iddynt droi'n ddwy oed i gynllunio ar gyfer lleoedd gofal plant. Gan y caiff rhieni gynnig lleoedd mewn unrhyw leoliad Dechrau'n Deg ar draws yr Awdurdod Lleol, mae llawer o hyblygrwydd ar gyfer diwallu angen a dewis rhieni.

8.4. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae cymysgedd da o ddarpariaeth Dechrau'n Deg ym Mlaenau Gwent, gyda dewis o leoliadau sy'n darparu gofal sesiwn neu ofal diwrnod llawn, felly mae hyn yn galluogi rhieni i gael gofal plant amlap o amgylch eu lle gofal plant Dechrau'n Deg am ddim. Mae hyn ar gael ym mhob Ardal Cynllunio Cymunedol. Mae dewis darpariaeth iaith ym mhob ardal heblaw un, Ebwy Fawr, a all gynnig darpariaeth Gymraeg neu Gymraeg/Saesneg a chyfrwng Saesneg.

Mae proses sicrwydd ansawdd gadarn yn ei lle ac mae lleoliadau'n derbyn un neu ddau ymweliad bob tymor gan Athro Ymgynghorol Dechrau'n Deg, gyda lleoliadau newydd neu ansawdd is yn cael ymweliadau amlach yn seiliedig ar angen. Cynhelir asesiadau ITERS yn flynyddol ac ni roddir hysbysiad i leoliadau o ymweliad asesu. Os yw'r lleoliad yn cael sgôr is na'r 5 gofynnol, cânt 6 wythnos i wella eu ymarfer gyda thargedau clir wedi'u nodi yn y cynllun gweithedu a chynhelir adolygiad ar ôl 6 mis.

Mae trefniadau pontio wedi'u sefydlu'n dda er mwyn hwyluso'r pontio ar gyfer plant sy'n dechrau mewn dosbarth meithrin mewn ysgol. Mae pob lleoliad yn ymgysylltu gyda'r broses ac yn mynychu cyfarfodydd pontio ac yn llenwi dogfennau ar gyfer pob plentyn.

Cyflwynwyd archwiliadau gweithwyr allweddol yn ddiweddar a buont yn llwyddiannus iawn wrth amlygu cryfderau a gwendidau mewn ymarfer gweithwyr allweddol unigol a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer unigolion, lleoliadau neilltuol ac ar draws

lleoliadau. Mae hefyd wedi dynodi anghenion hyfforddiant ac arfer da. Fel canlyniad i'r archwiliadau, cafodd pob aelod o staff o leoliadau a gomisiynwyd IAP a gaiff eu goruchwylio gan arweinydd y lleoliad ac y gellir hefyd eu defnyddio i gefnogi goruchwyliadau a gwerthuso. (Mae gan staff Awdurdodau Lleol IAP ond cânt gopi ysgrifenedig yn eu galluogi i wella ar agweddau o'u hymarfer).

Caiff y deilliannau ar gyfer plant sy'n cael gofal plant Dechrau'n Deg, a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd, eu monitro'n agos a'u hadodd i Lywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth rheolaidd a gynhyrchir yn helpu i lunio darpariaeth y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

Un o wendidau Dechrau'n Deg yw nad yw'n wasanaeth sydd ar gael i bob plentyn a rhiant ym Mlaenau Gwent. Mae hyn yn sicr yn creu peth drwgdeimlad ar gyfer rhieni sy'n byw tu allan i ardal Dechrau'n Deg a dangosir hyn mewn rhai sylwadau o'r arolwg rhieni:

*'Nid ydym yn gymwys am Dechrau'n Deg felly mae fy mhartner a hefyd finnau wedi gostwng ein horiau yn y gwaith fel y gallwn ofalu am ein plentyn rhyngom. Allwn ni ddim fforddio gofal plant ac rydym mewn swyddi cyflog isel beth bynnag. Pe byddem ni mewn ardal Dechrau'n Deg byddai llawer llai o bwysau arnom a byddai gennym fwy o incwm'.*

*'Dim mewn ardal Dechrau'n Deg'.*

*'Gan fod Dechrau'n Deg yn system annheg, mae fy mab yn mynd i leoliad cyn-ysgol ddwywaith yr wythnos ac rwy'n gorfod talu'*

*'Dydyn ni ddim mewn ardal Dechrau'n Deg'*

Gwendid arall yw, er bod yn rhaid i gymhorthwyr gofal plant gael cymwysterau o leiaf lefel 3 i weithio gyda phlant Dechrau'n Deg, gellid gwella'r broses recriwtio mewn rhai lleoliadau a gomisiynwyd i sicrhau penodi staff o'r ansawdd uchef.

Hefyd gan fod Dechrau'n Deg yn mynnu ansawdd, mae angen i staff gael amser dim-cyswllt i ddiweddaru proffilio, cynllunio'n wythnosol, ysgrifennu/adolygu IPP a chadw cofnodion effeithlon a chyson. Ni chaiff hyn ei weithredu'n gyson yn y lleoliadau a gomisiynwyd bob amser.'

**9 Darpariaeth Clwb Brecwast Am Ddim**

Dadansoddiad o Ddarpariaeth Clwb Brecwast am Ddim

*Rhowch grynodeb o ddosbarthiad clybiau brecwast am ddim gan roi gwybodaeth fel y nodir islaw am eu dosbarthiad, enwau'r ysgolion lle mae ar gael nifer y lleoedd sydd ar gael.*

| **Ardal** | **Enwau'r Ysgolion** | **Lleoedd ar gael** |
|---|---|---|
| Sirhywi | Ysgol Gynradd Deighton, Ysgol Gynradd Glanhywi, Ysgol Gynradd Bryn Bach, Ysgol Gynradd Georgetown,Ysgol Gynradd Catholig Sant Joseff | Dim cyfyngiad |
| Ebwy Fawr | Cyfnod Cynradd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr, Ysgol Gynradd Gatholig yr Holl Seintiau, Ysgol Gynradd Trehelyg, Ysgol Gynradd Cwm, Ysgol Gynradd Glyncoed, Ysgol Gynradd Rhiw Beaufort, Ysgol Gynradd Rhos-y-fedwn | Dim cyfyngiad |
| Gogledd Ebwy Fach | Ysgol Gynradd Blaen-y-Cwm, Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Santes Fair, Ysgol Gynradd Coed-y-Garn, Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Ysgol Gynradd Ystruth | Dim cyfyngiad |
| De Ebwy Fach | Cymuned Ddysgu Abertyleri: Campws Abertyleri, Campws Roseheyworth, Campws Stryd y Frenhines, Campws Bryngwyn, Ysgol Gynradd Sant Illtyd, Ysgol Gynradd Sofrydd | Dim cyfyngiad |

Nid yw'r Adran Addysg yn cyfrif faint o leoedd brecwast am ddim a gymerir mewn ysgolion cynradd lleol.

**10. Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan y Cyflogwr / Gofal Plant Di-dreth**

10.1. Dadansoddiad o Gredyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan y Cyflogwr / Gofal Plant am Ddim

*Rhowch grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'r dystiolaeth yn Atodiad 12. Dylid ystyried y dilynol, i gynnwys dosbarthiad daearyddol:*

- Nifer ymatebwyr yn hawlio fesul darpariaeth gofal plant a nifer y plant sy'n mynychu
- Nifer ymatebwyr sy'n bwriadu hawlio yn y dyfodol a gofynion gofal plant
- Nifer ymatebwyr dim yn hawlio a'r rhesymau

Dim ond 32 rhiant oedd yn hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol gyda rhaniad gweddol wastad ar draws gofalwyr plant, meithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae/cylchoedd meithrin a creches (er nad oes unrhyw greche ym Mlaenau Gwent, tybio fod rhieni yn golygu meithrinfa ddydd).

Roedd 55 o rieni yn hawlio gofal plant di-dreth ar hyn o bryd neu'n derbyn cymorth drwy gynllun a gefnogir gan y cyflogwr, gyda nifer fwy o rieni'n hawlio ar gyfer gofal plant mewn meithrinfeydd dydd, a ddilynir gan ofalwyr plant, clybiau ar ôl ysgol, cylchoedd meithrin/grwpiau chwarae a crèche.

Dywedodd 27 o rieni eu bod yn bwriadu hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol a 14 yn bwriadu hawlio cymorth di-dreth neu a gefnogir gan y cyflogwr. O'r rhieni hynny, roedd 31 angen lle gyda gofalwyr plant, 7 gyda meithrinfeydd dydd, 9 gyda chylch meithrin/grŵp chwarae, 20 gyda clybiau ar ôl ysgol, 5 gyda chlwb brecwast, 2 gyda chynlluniau chwarae, 1 gyda mynediad agored a 3 gyda nani.

Nid oedd y rhieni a lenwodd yr arolwg yn hawlio unrhyw gymorth ariannol, fodd bynnag nid oedd y rhan fwyaf o rieni a lenwodd yr arolwg yn defnyddio gofal plant ffurfiol chwaith.

Y rheswm ariannol mwyaf cyffredin am beidio hawlio cymorth ariannol oedd 'Rwy'n gwybod nad wyf yn gymwys' a nodwyd gan 74 rhiant yng nghyswllt treth gwaith/credyd cynhwysol a 73 o rieni yng nghyswllt gofal plant di-dreth a chynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr. Dywedodd nifer cymharol uchel, 58 o rieni, hefyd na wyddent am ofal plant di-dreth a chynlluniau a gefnogir gan y cyflogwyr. Ni wyddai 22 am y Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol ac roedd nifer sylweddol yn ansicr am y cynlluniau (35 a 23 o rieni yn yr un drefn).

10.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Mae'n anodd dod i gasgliadau cadarn o'r arolwg oherwydd nifer gyfyngedig o rieni a ymatebodd. Mae nifer sylweddol o rieni na wyddent am neu sy'n ansicr am eu hawl i gymorth ariannol ac mae hyn yn rhywbeth y bydd y tîm EYCP yn mynd ati i'w drin.

**11. Cynaliadwyedd**

Mae'n rhaid i'r asesiad roi ystyriaeth i gynaliadwyedd y farchnad gofal plant, yn cynnwys unrhyw ffactorau sydd wedi effeithio ar gynaliadwyedd daparwyr gofal plant presennol. Gellir ystyried y ffactorau dilynol:

- Grantiau/cyllid uniongyrchol ar gyfer darparwyr gofal plant
- Cyllid a sianelwyd i rieni, fel defnyddwyr gofal plant (credyd treth gwaith, credyd cynhwysol, gofal plant a gefnogir gan gyflogwyr, gofal plant didreth)
- Dad-gofrestru gydag AGGCC

Mae'r tîm EYCP yn gweinyddu ystod o grantiau i leoliadau ym Mlaenau Gwent bob blwyddyn. Yn ystod 16/17 ni wnaed unrhyw geisiadau am grantiau cynaliadwyedd, sy'n arwydd cadarnhaol o gynaliadwyedd presennol. Mae'r tîm EYCP yn monitro cyfraddau lleoedd gwag yn fisol ac yn rhoi graddiad Coch, Oren neu Wyrdd ar sail hyn gyda lleoliadau oren neu goch yn cael cynnig cymorth ychwanegol gan ein Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant. Mae 6 lleoliad 'oren' ar hyn o bryd sy'n cael cynnig cefnogaeth ychwanegol. Nid yw'r broses hon yn cynnwys gofalwyr plant ar hyn o bryd ac mae'r data a gafwyd drwy broses SASS yn dangos fod gan nifer o ofalwyr plant gyfraddau lleoedd gwag uchel ar hyn o bryd, sy'n peri peth consyrn am gynaliadwyedd. Serch hynny, mae'n rhaid nodi yma ein bod yn mesur cynaliadwyedd pob lleoliad drwy gyfrif eu cyfradd swyddi gwag fel rhan o'u rhifau cofrestredig. Yn aml nid yw hyn yn adlewyrchu model busnes gweithredol y ddarpariaeth neilltuol honno, felly nid yw bob amser yn ddangosydd cadarn o gynaliadwyedd.

Ym Mlaenau Gwent bu 15 dad-gofrestriad yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf: 1 meithrinfa ddydd, 7 gofalwyr plant, 1 cylch meithrin, 3 darparydd ar ôl ysgol a 2 glwb gwyliau, gyda chynaliadwyedd â rhan fawr yn llawer o'r rhain.

Mae darparwyr ym Mlaenau Gwent wedi sôn am anawsterau oherwydd costau uwch oherwydd y Cyflog Byw Cenedlaethol ac

ymrestru pensiynau ac mae llawer wedi cynyddu eu ffioedd i adlewyrchu hyn. Mae cynyddu costau bob amser yn falans anodd gan y gall cynyddu ffioedd sesiynau effeitho ar y lefelau defnydd.

Cynigir y bydd y cynnig 30 awr yn hybu cynaliadwyedd ar gyfer darparwyr gofal plant mewn ardaloedd treialu neu'n agos atynt, gyda llawer yn gobeithio medru llenwi lleoedd gwag gyda'r plant yn manteisio ar y cynnig. Byddwn yn monitro os yw hyn yn cynyddu'r defnydd o ofal plant ar ôl ysgol a gofal plant gwyliau am blant sy'n symud allan o'r ardal dreialu pan maent yn symud i flwyddyn dosbarth Derbyn.

Mae hefyd beth tystiolaeth y gall ymestyn Credyd Cynhwysol gael peth effaith ar nifer y rhieni sy'n dychwelyd i'r gwaith, gan felly gobeithio gynyddu nifer y plant sy'n cael mynediad i ofal plant fydd yn gwella cynaliadwyedd.

**12. Traws Ffin**

Dylai'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant roi ystyriaeth i'r rhai sy'n defnyddio gofal plant tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol yn ogystal â'r rhai sy'n teithio i ardal yr Awdurdod Lleol i ddefnyddio gofal plant. Dylai awdurdodau lleol ymgynghori gyda'u Hawdurdodau Lleol cyfagos i asesu'r niferoedd a sicrhau yr adlewyrchir hynny yn yr asesiad. Dylai'r Asesiad gynnwys gwybodaeth am:

- Y galw cyfredol a'r dyfodol ar gyfer gofal plant tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol, wedi'i ddadansoddi yn ôl math gofal plant a nifer y lleoedd sy'n cael eu defnyddio neu sydd eu hangen
- Y galw cyfredol a'r dyfodol ar gyfer gofal plant o fewn ardal yr Awdurdod Lleol gan rieni sy'n byw tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol, wedi'i ddadansoddi yn ôl math gofal plant a nifer y lleoedd sy'n cael eu defnyddio neu sydd eu hangen.

Fel y nodwyd mewn adrannau cynharach ymateb cyfyngedig iawn oedd i'r holiadur rhieni ym Mlaenau Gwent ac roedd hyn hefyd yn wir hefyd am yr awdurdodau lleol cyfagos: Caerffili, Torfaen, Merthyr a Sir Fynwy. Dengys yr wybodaeth a gafwyd drwy'r arolwg rhieni fod 24 o rieni yn defnyddio gofal plant tu allan i'r Awdurdod Lleol yn ystod y tymor ar hyn o bryd, er na ddywedodd 15 rhiant ble'r oedd hynny. Dywedodd 22 eu bod yn defnyddio gofal plant gwyliau tu allan i'r sir ac ni ddywedodd 13 lle'r oedd hyn. Cafodd yr wybodaeth yn ymwneud â'r rhieni a wnaeth ddynodi Awdrdod Lleol ei hanfon at yr Awdurdod Lleol perthnasol hwnnw, ond roedd y niferoedd yn isel iawn a dim o reidrwydd yn adlewyrchu union rifau plant Blaenau Gwent sydd gael gofal tu allan i'r sir.

O'r rhieni a lenwodd yr arolwg am anghenion gofal plant yn y dyfodol, ni ddywedodd dim y byddent angen gofal plant tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol.

Dim ond dau Awdurdod Lleol a hysbysodd Flaenau Gwent fod ganddynt blant o'u hardal yn cael mynediad i wasanaethau gofal plant ar draws ffiniau; Sir Fynwy a Chaerffili. Roedd gan Gaerffili 1 plentyn yn derbyn gofal plant ym Mlaenau Gwent yn ystod y tymor, 2 mewn gwyliau ysgol ac 1 gyda lle Addysg Blynyddoedd Cynnar. Adroddodd Sir Fynwy ar nifer plant Blaenau Gwent oedd â lle Addysg Blynyddoedd Cynnar yn eu hardal (4 yn Nhymor Haf 2016) ond ni nodwyd ar eu harolwg rhieni fod unrhyw blant yn defnyddio gofal plant ym Mlaenau Gwent neu'n dod o Flaenau Gwent i ddefnyddiio gofal plant yn Sir Fynwy.

Mae'r data ar blant Blaenau Gwent sy'n derbyn gofal plant y tu allan i'r ardal a'r plant o'r tu allan i'r ardal yn derbyn gofal plant o fewn Blaenau Gwent yn rhy gyfyngedig i ddylanwadu ar gynllunio lleoedd gofal plant ar gyfer Blaenau Gwent yn y dyfodol.

**13. Datblygu Gweithlu**

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant gynnwys asesiad o gymwysterau ac anghenion hyfforddiant gofal plant ar draws y mathau o ofal plant fel ffordd o hysbysu rhaglen datblygu gweithlu a hyfforddiant yr awdurdod lleol. Dylid rhoi ystyriaeth i'r gofynion hyfforddiant yng nghyswllt y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio (NMS) http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/regulatedchildcare/?lang=en) ac yn fwy cyffredinol, i godi ansawdd y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael i rieni.

Mae tîm EYCP Blaenau Gwent yn monitro cymwysterau a hyfforddiant a ddilynwyd ar sail flynyddol ac yn cofnodi hyfforddiant fel y caiff ei wneud yn fewnol. Mae'r tîm yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd i gynllunio ar gyfer anghenion hyfforddiant, a gyfoethogwyd gan wybodaeth a gafwyd gan y Swyddog Gwella Ansawdd a'r Swyddog Digonolrwydd Chwarae, a godir yn ystod ymweliadau sicrwydd ansawdd. Defnyddir y cofnodion hefyd i hysbysu darparwyr am hyfforddiant sydd ar fin neu wedi dod i ben a monitro defnydd/cydymffurfiaeth gyda hyfforddiant/cymwysterau sydd eu hangen dan NMS. Mae'r detholiad dilynol o'r daenlen yn dangos sut mae'r tîm yn defnyddio data ar gyfer monitro a chynllunio.

| Provider Type | Childcare Provider Name | Setting | Level 1 Safeguarding | Level 2 Safeguarding | Paediatric First Aid | Basic Food Hygiene | LEVEL 2 | LEVEL 3 | LEVEL 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sessional Practitioner | XXXXXX | XXXXXX | 16/09/2015 | | 20/06/2015 | | | | |
| Sessional Manager | XXXXXX | XXXXXX | 16/09/2015 | 19/11/2016 | 07/02/2015 | 07/07/2016 | | | |
| Sessional Manager | XXXXXX | XXXXXX | 16/09/2015 | 19/11/2016 | 07/02/2015 | 29/06/2016 | | | |
| Sessional Practitioner | XXXXXX | XXXXXX | 16/09/2015 | 17/09/2016 | 20/06/2015 | 27/06/2016 | | | |
| Sessional Practitioner | XXXXXX | XXXXXX | 20/01/2016 | 19/11/2016 | 23/07/2011 | 18/10/2011 | | | |
| | 5 | | 100% '5/5 | 80% '4/5 | 80% '4/5 | 60% '3/5 | 4 | 5 | 3 |

| Provider Type | Childcare Provider Name | Setting | Level 1 Safeguarding | Level 2 Safeguarding | Paediatric First Aid | Basic Food Hygiene | LEVEL 2 | LEVEL 3 | LEVEL 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sessional Practitioner | XXXXX | XXXXX | Bkd Apr 19/05/2016 | | | 06/02/2016 | | | |
| Assistant Sessional Practitioner | XXXXX | XXXXX | Bkd Apr WL | WL | Bkd Apr 01/06/2014 | 01/06/2014 | | | |
| Sessional Practitioner | XXXXX | XXXXX | bkd Apr | 19/11/2016 | Bkd Apr | 21/08/2014 | | | |
| Sessional Practitioner | XXXXX | XXXXX | Bkd Apr 19/05/2016 | 19/11/2016 | 14/04/2015 | 28/03/2014 | | | |
| Deputy Sessional Manager | XXXXX | XXXXX | Bkd Apr 13/07/2016 | 09/01/2016 | 03/12/2016 | 11/06/2014 | | | |
| | XXXXX | XXXXX | Bkd Apr | | 28/03/2015 | | | | |
| Sessional Manager | XXXXX | XXXXX | Bkd Apr 13/07/2016 | 01/01/2010 | 01/05/2014 | 01/03/2014 | | | |
| Sessional Manager | XXXXX | XXXXX | Bkd Apr 02/07/2014 | 09/01/2016 | 21/01/2017 | 06/02/2016 | | | |
| | 8 | | 63% '5/8 | 50% '4/8 | 63% '5/8 | 88% '7/8 | 4 | 7 | 1 |

**Ffigwr 13.a**

Dengys y data fod gan 86% o'r holl staff sy'n gweithio mewn lleoliadau (ac eithrio gofalwyr plant) gymwysterau hyd at o leiaf Lefel 3. Mae gan 24 allan o 30 Arweinydd/Dirprwy Arweinydd (80%) gymhwyster at Lefel 5. Mae gan 50% o ofalwyr plant gymhwyster at Lefel 3, 6% gymhwyster at Lefel 5. Mae'r lefel hon o wybodaeth gweithlu yn ein helpu i dargedu gwahoddiadau/gwybodaeth hyfforddiant i leoliadau/staff neilltuol.

Y tîm EYCP sy'n comisiynu'r rhan fwyaf o hyfforddiant a gynigir ond mae staff wedi hyfforddi i gyflwyno Lefel 1 Diogelu, Chwarae Bloc, Chwarae Darganfyddol, Schema a hyfforddiant Basged Drysor. Mae hyn yn rhoi cryn dipyn o hyblygrwydd wrth gyflwyno hyfforddiant a hefyd yn helpu i ostwng costau.

Mae'r tîm yn monitro effeithlonrwydd yr hyfforddiant a gynigir gyda gwerthusiadau hyfforddiant a gwerthusiadau yn dilyn hyfforddiant yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl hyfforddiant a fynychir a hefyd yn mesur cyfraddau presenoldeb.

Cyflwynwyd ffioedd am hyfforddiant a gynigir yn 15/16 ond maent yn parhau i fod â chymhorthdal sylweddol. Gwelodd penderfyniad a gymerwyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol, 16/17, y tîm yn symud ymlaen i sail adfer cost llawn ar gyfer hyfforddiant a gynigir, ag eithrio Lefel 1 Diogelu. Ers cyflwyno'r ffioedd, nodwyd fod archebion wedi gostwng ar gyfer cyrsiau heb fod yn orfodol ond fod presenoldeb wedi gwella.

Weithiau gall y tîm gynnig hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus am ddim lle daw o ffynonellau di-dâl neu os oes tanwariant ar grantiau penodol ac rydym yn annog darparwyr i fanteiso ar y cyfleoedd hyn. Nodwyd fod yr archebion/defnydd y cyrsiau hyn hefyd yn fwy cyfyngedig a chydnabyddir fod yn aml gost i ddarparwyr wrth ryddhau staff i fynychu hyfforddiant, a all fod yn rhwystr.

Mae'r tîm EYCP wedi hyrwyddo Cynnydd er Llwyddiant i annog ein gweithlu gofal plant a chwarae i gael mynediad i gymwysterau lefel uwch. Gwahoddwyd partneriaid cyflenwi Cynnydd er Llwyddiant i gyfarfodydd rhwydwaith ac anfonir yr wybodaeth ddiweddaraf at ddarparwyr drwy negeseuon e-bost/cylchlythyrau rheolaidd. Bydd tîm EYCP yn monitro'r galw am y cyfleoedd.

Mae'r tîm EYCP wedi dechrau datblygu cynlluniau i alluogi mwy o bobl ym Mlaenau Gwent i ystyried gofal plant fel gyrfa i ddechrau ateb y galw cynyddol a gaiff ei ysgogi gan y Cynnig Gofal Plant 3 awr a bydd yn cynnal gweithdai blasu a hyfforddiant camau cyntaf yn 2017/18.

**14. Canlyniadau Ymgynghoriad gyda Rhanddeiliaid (fel yr amlinellwyd yn adran 2)**

Ymatebodd y rhan fwyaf o randdeiliaid i geisiadau i gyfrannu at yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, er y teimlai nifer na fedrent roi sylwadau manwl ar y ddarpariaeth gofal plant a gynigir ym Mlaenau Gewnt. Caiff ymatebion eu hadrodd yn adrannau 2, 7 a 12 uchod.

**15. Dadansoddiad Bwlch a Meysydd Gwella**

Gan roi ystyriaeth i'ch dadansoddiad o'r cyflenwad a galw o ofal plant, sy'n crynhoi'r bylchau mewn darpariaeth. Dylid rhoi ffocws penodol i'r meysydd dilynol:

- Darpariaeth gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol
- Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Darpariaeth gofal plant ar gyfer gwahanol gategoriau iaith

Bydd hefyd angen i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant amlinellu anghenion gofal plant nad ydynt yn cael eu cyflawni yn ardal yr Awdurdod Lleol yn cynnwys y rhai sy'n cyfeirio at y:

- Mathau o ofal plant sydd ar gael
- Oedran plant y mae gofal plant ar gael iddynt
- Fforddiadwydd gofal plant
- Oriau y mae gofal plant ar gael
- Lleoliad gofal plant

Dylai eich dadansoddiad grynhoi meysydd gwella, gan roi ystyriaeth i'r cryfderau a gwendidau allweddol a ddynodwyd yn gliriach yn y ddogfen.

**Darpariaeth gofal plant ar gyfer rhieni plant sy'n gweithio oriau annodweddiadol/oriau y mae gofal plant ar gael**

Ychydig iawn o ofal plant ffurfiol sydd ar gael i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol. Y diweddaraf y bydd unrhyw ddarparydd gofal plant ym Mlaenau Gwent yn cynnig gofal yw 7yh, mae un darparydd yn cynnig gofal o 5yb a 4 arall yn darparu gofal cyn 7yb. Mae mwyafrif y darparwyr yn cynnig amser cychwyn rhwng 7yb a 8yb. Dim ond 2 ddarparydd sy'n cynnig gofal plant ar ddyddiau Sadwrn, un feithrinfa ddydd ac un gofalwr plant ac nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gael ar ddyddiau Sul. Mae'r tîm EYCP wedi darparu grantiau'n flaenorol i gefnogi darparwyr i gynnig oriau mwy hyblyg, fodd bynnag ychydig iawn o alw oedd gan rieni ac roedd y gwasanaethau yn anghynaliadwy.

Mae peth tystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i awgrymu fod rhai rhieni yn profi anawsterau sylweddol oherwydd diffyg hyblygrwydd gofal plant. Cytunodd 22 o rieni a lenwodd yr arolwg nad oedd gofal plant ar gael ar yr oriau oedd eu hangen a chytunodd 22 hefyd nad oedd fawr o ddewis yn y mathau o ofal plant a gwasanaethau a gynigir. (Anghytunai niferoedd tebyg gyda'r datganiadau, ond bydd y rhain yn rhieni y mae eu hanghenion cyfredol yn cael eu cyflawni). Yn nhermau gofynion y dyfodol, dangosodd yr arolwg rhieni mai dim ond 8 rhiant a ddywedodd y byddent angen gofal plant ar ddyddiau Llun - dyddiau Sul a 4 rhiant a ddywedodd y byddent angen gofal plant ar ôl 6yp.

Mae'r tîm EYCP wedi dechrau gwaith dilynol ar ymholiadau gofal plant i'r Gwasanaeth Gwybodath i Deuluoedd yn y flwyddyn bresennol i geisio cael gwybodaeth ychwanegol ar broblemau y gallai rhieni eu cael wrth gyrchu gofal plant. Ni ddangosodd hyn broblemau ar gyfer rhieni yn gweithio oriau annodweddiadol.

Mae proffil cyflogaeth Blaenau Gwent yn dangos fod cyfran sylweddol uwch o bobl yn gweithio yn y sector gweithgynhyrchu, gofal, hamdden a gwasanaethau na chyfartaledd Cymru. Dylai hyn awgrymu fod mwy o alw am ofal plant hyblyg gan fod y swyddi hyn yn

aml angen patrymau gweithio shifft a phenwythnos. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o rieni ym Mlaenau Gwent yn dal i ddibynnu ar deulu a ffrindiau i ofalu am eu plant (135 allan o 435 a lenwodd yr arolwg rhieni) a pheth tystiolaeth fod rhieni'n cydlynu eu horiau gwaith i ofalu am blant rhyngddynt.

Mae'n debyg fod y rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol yn rheoli eu trefniadau gofal plant eu hunain ar hyn o bryd drwy ddefnyddio teulu a ffrindiau a chydlynu oriau gweithio partneriaid i weddu i'w horiau gwaith eu hunain. Gan y nodwyd fod cost gofal plant yn un o'r prif rwystrau i ddefnyddio gofal plant, mae hyn yn cyfyngu'r galw am ddefnydd gofal hyblyg lle gellir ei gynnig.

Mae rhai darparwyr gofal plant a fyddai'n hapus i ystyried cynnig gofal plant mwy hyblyg os oes cwmpas i hynny fod yn gynaliadwy/proffidiol.

**Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg**

Gofal plant cyfrwng Cymraeg cyfyngedig sydd ym Mlaenau Gwent, gyda dim ond tri darparydd, i gyd yn gylchoedd meithrin. Caiff un darparydd ei ddosbarthu fel darparydd cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae'r tri darparydd mewn tair gwahanol Ardal Cynllunio Cymunedol felly maent wedi eu gwasgaru ac yn cynnig rhyw ddewis darpariaeth iaith yn yr ardaloedd hynny ar gyfer plant rhwng 2 a 4 oed. Fodd bynnag, gall yr oriau agor cyfyngedig wneud hyn yn ddewis cyfyngedig i rieni sydd angen gofal plant dros ddyddiau hirach (6 awr a mwy). Er bod un o'r lleoliadau hyn yn ffynnu ar hyn o bryd, mae galw mwy cyfyngedig mewn dau, yn awgrymu nad oes lefel uchel o alw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd hyn. Mae pob lleoliad yn ddarparwyr Dechrau'n Deg ac yn manteisio o leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg. Nodir mai cyfran isel o'r plant sy'n mynychu'r cylchoedd meithrin sy'n trosglwyddo i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg - 13% (ffigurau 16/17).

Dengys yr arolwg rhieni y daw 1% o blant o gartrefi sy'n siarad Cymraeg yn bennaf gyda 6% arall yn dweud eu bod yn gartefi dwyieithog. Mae llawer o gefnogaeth gan rieni ar gyfer dwyieithrwydd gyda 55% o rieni eisiau i'w plant ddod yn ddwyieithog, fodd bynnag dim ond 8% o rieni a fwriadai anfon eu plentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg.

Pan ofynnwyd 'A oes unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar eich gallu i fanteisio o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg?', ymatebodd 394 o rieni fel sy'n dilyn:

Na – 68% (269)
Dim ar gael yn lleol – 7.8% (31)
Dim ar gael ar gyfer yr oriau sydd eu hangen – 1.2% (5)

Ystod oed ddim yn addas – 0.5% (2)
Cost – 2% (8)
Arall – 4.3% (17) Gofynnwyd am sylwadau ac roeddent yn cynnwys:

‘Dim yn siarad yr iaith fy hun'
'Arolwg Estyn yn wael iawn'
'Pryderus gan nad wyf yn siarad Cymraeg'
'Ie - plentyn mewn ysgol Anghenion Arbennig'
'Mae'r unig ddarpariaeth yn ardal yr Awdurdod Lleol yn tanberfformio'n ddifrifol a fyddwn i ddim yn dewis anfon fy mhlentyn i'r sefydliad dysgu hwnnw'
'Dim eisiau i S .... orfod teithio'
'Dim ysgol gyfun Gymraeg leol. Roedd yn rhaid i fy merch hynaf deithio o Frynmawr i Bont-y-pŵl a bydd yn rhaid i fy mhlentyn 6 oed wneud yr un fath'
'Dim llawer o lleoedd - dim wedi edrych arno'n iawn'
'Anhawster cludiant'
'Trafferth yn yr ysgol Gymraeg, newydd symud i ysgol Saesneg'

O'r 31 rhiant a ddywedodd nad oedd gofal plant ar gael yn lleol, mae'r gwasgariad daearyddol fel sy'n dilyn: Sirhywi - 8, Ebwy Fawr - 11, Gogledd Ebwy Fach - 3, De Ebwy Fach - 9. Mae'r arolwg yn dangos gwahaniaeth barn os oedd digon o ofal plant cyfrwng Cymreg gyda 29 rhiant yn cytuno bod a 17 yn anghytuno. Teimlai 51 rhiant fod gofal plant ar gael yn eu dewis iaith ond ni wnai 10. Dangosodd y galw rhieni a fesurwyd y byddai 2 o rieni'n edrych am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, a byddai 21 yn edrych am gyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Cynhaliwyd arolwg gan Fforwm Addysg Cymru yn Hydref 2016 i ganfod barn am ddarpariaeth addysg gynradd/gofal plant cyfrwng Cymraeg a chofnodwyd 67 ymateb. Canfu hyn y dymunai 46% o rieni i'w plant fedru siarad Cymraeg yn rhugl a dywedodd 57% y teimlent y byddai eu plentyn yn manteisio o addysg cyfrwng Cymraeg. Dywedodd 28% o rieni eu bod yn defnyddio gofal plant ar hyn o bryd a dywedodd 2% hefyd y byddent yn dewis gofal plant cyfrwng Cymraeg pe byddai ar gael.

Mae canlyniadau'r ddau arolwg yn dangos peth galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg er fod y nifer o bobl a lenwodd yr arolygon yn isel iawn. Fel y nodwyd yn gynharach, cynigiwyd llawer o gefnogaeth a buddsoddiad yn flaenorol i sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd dros y degawd ddiwethaf ond nid yw'r rhan fwyaf wedi goroesi oherwydd problemau cynaliadwyedd.

**Darpariaeth gofal plant ar gyfer gwahanol gategoriau iaith**

Fel yr amlinellir uchod ymddengys fod cydnabyddiaeth gynyddol o fanteision dwyieithrwydd ymysg rhieni ym Mlaenau Gwent, gyda pheth tystiolaeth y gallai fod bwlch ar gyfer mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Nifer fach iawn o deuluoedd lleiafrif ethnig sydd ym Mlaenau Gwent a dim tystiolaeth uniongyrchol i awgrymu fod angen i gyflenwi gofal plant mewn ieithoedd eraill ar hyn o bryd.

**Mathau o ofal plant sydd ar gael/Lleoliad gofal plant**

Er yn gyffredinol fod y cyflenwad o ofal plant yn mwy nag ateb y galw ym Mlaenau Gwent, mae bylchau mewn darpariaeth yng nghyswllt mathau gofal plant fydd yn cyfyngu dewis rhieni. Nid oes ar hyn o bryd unrhyw ddarparydd meithrinfa diwrnod llawn yn ardal De Ebwy Fach, fodd bynnag mae cynlluniau i lenwi'r bwlch hwn yn fuan gyda meithrinfa ddydd ar y gweill ar gyfer Swffryd. Lefel isel o ofalwyr plant sydd yn ardaloedd Sirhywi ac Ebwy Fawr, yn arbennig yn Sirhywi gyda dim ond 3 o ofalwyr plant, sy'n cyfyngu dewis rhieni. Mae gwasgariad da o ddarparwyr gofal dydd sesiwn ar draws pob Ardal Cynllunio Cymunedol, fodd bynnag nid oes dewis iaith yn ardal Ebwy Fawr. Mae gwaith gan dîm EYCP ar gais ysgolion cynradd lleol yn dangos y gall fod peth galw ychwanegol am ofal ar ôl ysgol ar eu safleoedd ysgol.

Mae gostyngiad sylweddol yn nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yn ystod gwyliau ysgol ar draws pob ardal cynllunio cymunedol. Mynegodd rhieni hefyd lefel is o fodlonrwydd yn nhermau ansawdd darparwyr gofal gwyliau, er fod hyn yn dal yn uchel ar 80%. Yn gyffredinol roedd darparwyr gofal gwyliau yn dweud fod lleoedd gwag ac ychydig oedd yn yr ymatebion arolwg rhieni a ddangosai fod gofal gwyliau yn broblem neilltuol i deuluoedd.

Er fod Blaenau Gwent yn ardal fach yn ddaearyddol, mae cyfraddau is o berchnogaeth ceir yn yr ardal a allai effeithio ar ddewis rhieni i gael gofal plant yn nes at y cartref/ysgol.

**Oedran plant y mae gofal plant ar gael iddynt**
Mae gofal plant ar gael i blant o bob oed ym mhob ardal cynllunio cymunedol, gyda llawer mwy o leoedd a mathau gofal plant ar gael i blant 2-4 oed oherwydd nifer y lleoedd gofal dydd sesiwn sydd ar gael. Er bod gofal plant ar gael ar gyfer plant hyd at 17 oed, mae dewis yn dod yn gyfyngedig iawn i blant dros 12 oed gyda dim ond 7 o ofalwyr plant yn darparu gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi eu lleoli ar draws pob ardal.

**Fforddiadwyedd gofal plant**

Mae llawer o dystiolaeth i awgrymu fod fforddiadwyedd yn broblem allweddol i rieni. Cofnodwyd cost/fforddiadwyedd ym mhryderon rhieni a gofnodwyd yn yr arolwg rhieni a hefyd gan sefydliadau y gwnaethom ymgynghori â nhw. Gydag enillion gweithwyr Blaenau Gwent yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru, efallai nad yw hyn yn syndod. Mae'n achos pryder nad oedd nifer sylweddol o rieni a lenwodd yr arolwg rhieni yn gwybod ble i gael gwybodaeth am gymorth ariannol.

Rhagwelir y bydd y cynnig 30 awr yn trin rhai o'r materion yn ymwneud â fforddiadwyedd drwy ddarparu cyllid ar gyfer gofal amlap a gofal gwyliau ar gyfer o leiaf blwyddyn i blant 3-4 oed.

Mae potensial ar gyfer ymestyn Credyd Cynhwysol a Gofal Plant Di-dreth i gefnogi fforddiadwyedd drwy ddileu rhai o frigau a chafnau incwm teuluol.

**Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant - Cynllun Gweithredu**

Mae'n rhaid i'r Cynllun Gweithredu roi manylion y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir er mwyn cynnal y cryfderau a mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Mae'r tablau isod yn nodi'r meysydd hynny y mae'n rhaid eu defnyddio ar gyfer yr asesiad, yn unol â'r canllawiau statudol.

**Asesu'r Galw**

| Cryfderau | Gwendidau | Camau Gweithredu | Blaenoriaethau | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| Mae rhieni sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd yn credu fod ansawdd y ddarpariaeth yn dda.<br><br>Mae'r galw yn debygol o gynyddu oherwydd y Cynnig Gofal Plant 30 awr a gall fod sbardunau ychwanegol am alw (ymestyn Credyd Cynhwysol, Cylchffordd Cymru, Dêl Dinas)<br><br>Mae'r tîm EYCP wedi cyflwyno dilyniant i ymholiadau am ofal plant i'r Gwasanaeth | Mae poblogaeth Blaenau Gwent yn gostwng a rhagwelir y bydd yn parhau i ostwng tan 2036. Mae'r boblogaeth 0-15 oed hefyd yn gostwng a rhagwelir y bydd yn parhau i ostwng.<br><br>Mae diffyg data cadarn am alw'r dyfodol er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion gofal plant y dyfodol.<br><br>Mae'n anodd casglu data ar gyfer rhieni na fedrant gael mynediad i ofal plant. | 1. Cynnal rhaglen o sioeau teithio i rieni rhwng Ebrill - Rhagfyr 2017 i asesu'r galw tebygol am y cynnig Gofal Plant 30 awr.<br><br>2. Gweithio gyda'r sector gofal plant i ddatblygu lleoedd gofal plant ychwanegol lle dynodir bylchau/pwysau.<br><br>3. Sefydlu'r prosesau dilynol ar gyfer ymholiadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd - monitro'n fisol.<br><br>4. Annog rhanddeiliaid mewn sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth gyda ni pan ddynodir pryd mae rhieni'n cael anawsterau i gael | Cael data mwy cadarn ar gyfer cynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol ym Mlaenau Gwent | Trefnu rhaglen cysylltu gyda rhieni - Ebrill 2017<br><br>Cyflwyno sesiynau cysylltu gyda rhieni ar draws Blaenau Gwent rhwng Ebrill a Rhagfyr 2017<br><br>Cwblhau dadansoddiad o'r galw/cyflenwad ar sail fisol<br><br>Cysylltu gyda sefydliadau sy'n cefnogi rhieni i annog defnydd o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a gofyn am hysbysiad am anawsterau cael mynediad<br><br>BDO i sefydlu cynrychiolaeth ar Bartneriaeth Cydlynu Cyflogaeth Blaenau Gwent. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth i Deuluoedd i gael gwybodaeth am lleoedd na chafodd anghenion rhieni eu diwallu. | | mynediad i ofal plant<br><br>5. BDO Gofal Plant i fod yn aelod o Bartneriaeth Cydlynu Cyflogaeth Blaenau Gwent. | | |

**Asesu'r Cyflenwad**

| Cryfderau | Gwendidau | Camau Gweithredu | Blaenoriaethau | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| Ar hyn o bryd mae nifer o leoedd gofal plant cofrestredig yn fwy na lefel y galw a gofnodwyd gan ddangos bod cyflenwad digonol.<br><br>Mae mwyafrif y rhieni sy'n dewis gofal plant ar hyn o bryd yn ystyried bod ansawdd y gofal a roddwyd a lleoliad gwasanaethau yn dda.<br><br>Mae potensial i ehangu'r cyflenwad i | Dynodwyd rhai bylchau yn nhermau'r mathau o ofal plant a gynigir ym mhob ardal.<br><br>Mae darparwyr yn amharod i gynnig oriau mwy hyblyg ar gyfer plant oherwydd pryderon am gynaliadwyedd. | 6. Mynd ati i edrych am ddarparwyr newydd mewn ardaloedd cynllunio cymunedol lle mae dewisiadau gofal plant yn gyfyngedig.<br><br>7. Cynnig cymorth datblygu i ddarparwyr sy'n sefydlu.<br><br>8. Sefydlu grant hyblygrwydd i gefnogi gosodiadau i gynnig oriau gofal plant mwy hyblyg os canfyddir galw. | Cynnig mwy o ddewis o fathau gofal plant ar gyfer rhieni ym mhob ardal cynllunio cymunedol.<br><br>Cael darparwyr i dreialu oriau mwy hyblyg ar gyfer gofal plant lle canfyddir galw.<br><br>Sefydlu mwy o ddarpariaeth clybiau ar ôl ysgol a darpariaeth clybiau gwyliau os oes galw. | Cynnal astudiaethau dichonolrwydd mewn ardaloedd gyda dewis cyfyng mewn gofal plant, i ganfod y galw.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid i sefydlu darparwyr newydd lle mae astudiaethau dichonolrwydd yn dangos y gallai darparwyr newydd fod yn gynaliadwy.<br><br>Datblygu cais am grantiau a phenderfynu ar lefelau cyllid grant.<br><br>BDO i ddynodi gosodiadau a all gynnig oriau hyblyg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ddiwallu cynnydd mewn galw. | | | | Cwblhau proses gwneud cais am grant.<br><br>BTO i gefnogi gyda marchnata.<br><br>Monitro lefel defnydd ar bwynt 3/6/12 mis. |

**Dadansoddi'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth gofal plant cyffredinol**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | Camau Gweithredu | Blaenoriaethau | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|---|
| Y math o ofal plant sydd ar gael e.e. gofal dydd llawn, darpariaeth amlap, gofal ar ôl ysgol | Mae amrywiaeth o ddarparwyr o fewn pob Ardal Cynllunio Cymunedol.<br><br>Mae darparwyr yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gofal plant. | Mae bylchau yng nghyswllt y mathau o ofal plant sydd ar gael; gofalwyr plant yn Sirhywi ac Ebwy Fawr, gofal diwrnod llawn yn Ne Ebwy Fach, darpariaeth ar ôl ysgol mewn safleoedd ysgol penodol.<br><br>Mae bylchau yng nghyswllt oriau gofal plant hyblyg gyda pheth tystiolaeth o alw am ofal plant cyn | 9. Datblygu rhaglen i annog gofalwyr plant newydd yn ardaloedd Sirhywi ac Ebwy Fawr.<br><br>10. Cefnogaeth barhaus i sefydlu meithrinfa ddydd newydd yn Ne Ebwy Fach.<br><br>11. Gweithio gydag ysgolion i sefydlu dichonolrwydd gofal ar ôl ysgol ar safle.<br><br>Gweler hefyd gamau gweithredu 1, 2, 3, 4, 6, | Cael amrywiaeth dda o ofal plant ar gael i rieni ar draws Blaenau Gwent | Rhaglen datblygu gofalwyr plant i'w chytuno a'i chynnal rhwng Mawrth 2017 - Mawrth 2018<br><br>BDO i weithio gyda darparydd meithrinfa ddydd yn Swffryd, ar gyfer agor mae'n debyg o Wanwyn 2018<br><br>BDO i dargedu gofalwyr plant i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 8yb, ar ôl 6yp ac ar benwythnosau. | 7, 8 | | annog y defnydd o gymorth busnes<br><br>Cwblhau gwaith gyda 3 ysgol sy'n ystyried darpariaeth ar ôl ysgol ar hyn o bryd<br><br>Gweithio gydag ysgolion ychwanegol os gwelir galw i sefydlu dichonolrwydd. |
| Gofal plant sy'n darparu ar gyfer plant o oed penodol e.e. oedran geni, o 2 flwydd oed neu dros 8 mlwydd oed | Mae 54 darparydd ar draws Blaenau Gwent yn cynnig gofal plant ar gyfer plant hyd at 17 oed. | Mae dewis cyfyngedig o ddarparwyr gofal plant ar gyfer plant dros 12 oed, - dim ond 6 gofalwr plant ac 1 clwb ar ôl ysgol. | 12. Asesu barn rhieni drwy sesiynau cyswllt rhieni o'r angen am ofal plant dros 12 oed | Bod â chynnig gofal plant da ar gyfer pob rhiant ledled Blaenau Gwent | Rhaglen cyswllt rhieni - Ebrill - Rhagfyr 2017 |
| Gofal plant fforddiadwy | Gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd roi cyngor ar ffynonellau cymorth ariannol. | Roedd fforddiadwyedd yn fater allweddol a nodwyd gan rieni sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd a hefyd | 13. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i sefydlu rhaglen dreigl o negeseuon cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo | I bob rhiant ym Mlaenau Gwent wybod sut i gael mynediad i wybodaeth yn ymwneud â | Rhaglen o wybodaeth cyfryngau cymdeithasol ar gyfnodau misol erbyn mis Ebrill |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | y rhai nad ydynt.<br><br>Diffyg gwybodaeth am ble i gael gwybodaeth am gymorth ariannol | ffynonellau cymorth ariannol.<br><br>14. Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i weithio gyda Canolfan Byd Gwaith i drin y materion hyn gyda rhieni sy'n dymuno dychwelyd i weithio. | chymorth ariannol ar gyfer gofal plant.<br><br>Hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant 30 Awr i gynyddu'r galw i'r eithaf. | 2017.<br><br>Sefydlu rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu gyda rhieni ar gyfer y Cynnig 30 Awr o Ofal Plant - Ebrill - Rhagfyr 2017. |
| Amseroedd pan fo gofal plant ar gael, gan gynnwys yr angen am ofal plant hyblyg yn darparu ar gyfer patrymau defnydd afreolaidd yn ystod y diwrnod, yr wythnos a'r flwyddyn; | Mae darpariaeth ar gyfer gofal plant cyn 8yb, ar ôl 6yp ac ar benwythnosau | Mae tystiolaeth i awgrymu nad yw angen rhai rhieni i gael gofal plant hyblyg yn cael ei ddiwallu | Gweler camau gweithredu 2, 6, 8, 9 | Bod â chynnig gofal plant da ar gyfer pob rhiant ledled Blaenau Gwent | |
| Lleoliad y gofal plant | Mae cyfran uchel o rieni yn fodlon gyda lleoliad eu gofal plant<br><br>Mae Blaenau Gwent yn ardal ddaearyddol fach, ac felly mae gofal plant yn aml ar gael yn agos.<br><br>Mae nifer o ddarparwyr yn cynnig gwasanaeth codi/cludiant. | Mae cyfraddau is o berchnogaeth ceir ym Mlaenau Gwent a all gyfyngu ar allu rhai rhieni i gael mynediad i ofal plant.<br><br>Amlygir bylchau uchod yng nghyswllt yr ystod lawn o ddewis mewn rhai ardaloedd. | Gweler camau gweithredu 2, 4, 6, 7, 9, 10 a 11 | Bod â chynnig gofal plant da ar gyfer pob rhiant ar draws Blaenau Gwent | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg | 3 darparydd ar hyn o bryd ar draws 3 Ardal Cynllunio Cymunedol<br><br>55% o rieni'n cydnabod manteision dwyieithrwydd<br><br>Pob gosodiad gofal diwrnod llawn a gofal sesiwn yn defnyddio'r Gymraeg yn eu trefn ddyddiol. | Diffyg gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cynnig oriau hyblyg ar gyfer gofal plant.<br><br>Nid oes darparydd sesiwn cyfrwng Cymraeg yn Ebwy fawr, felly mae dewis iaith ar gyfer rhieni sydd eisiau cael mynediad i ddarpariaeth cyn-ysgol yn gyfyngedig | 15. Asesu'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg o sesiynau cyswllt gyda rhieni.<br><br>16. Gweithio gyda phartneriaid WEF i ganfod os y gallai gosodiad sesiwn cyfrwng Cymraeg newydd fod yn ddichonadwy/cynaliadwy yn ardal Ebwy Fawr.<br><br>17. Cefnogi darparwyr i gynnwys mwy o Gymraeg yn eu trefn ddyddiol. | Rheini i gael peth dewis o ddarpariaeth iaith.<br><br>Plant i gael mwy o gysylltiad â'r Gymraeg yn fwy rheolaidd yn ystod y drefn ddyddiol | Asesu dewisiadau iaith ar gyfer gofal plant yn ystod y rhaglen cyswllt â rhieni - Ebrill - Rhagfyr 2017.<br><br>Tîm EYCP i weithio gyda chydweithwyr WEF i gynnal astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer darparydd sesiwn ym Mlaenau Gwent. |
| Darpariaeth gofal plant ar gyfer gwahanol gategorïau iaith | Nid oes tystiolaeth o alw am ofal plant mewn categorïau iaith eraill. | | | | |

**Y materion sy'n wynebu categorïau penodol o rieni mewn perthynas â'r ddarpariaeth o ofal plant sydd ar gael**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | Camau Gweithredu | Blaenoriaethau | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheini sy'n gweithio | Mae'r cyflenwad yn gyffredinol fwy na'r galw sy'n arwydd fod cyflenwad digonol. | Pryderon yn ymwneud â fforddiadwyedd gofal plant. | Gweler camau gweithredu 1, 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13 | Bod â chynnig gofal plant da ar gyfer pob rhiant ledled Blaenau Gwent | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae llawer o ddefnydd o ofal plant Dechrau'n Deg ac oriau meithrin Cyfnod Sylfaen | Peth pryderon am hyblygrwydd yr oriau gofal plant a gynigir. | | | |
| Rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd i hyfforddi | Fel uchod | Fel uchod | Gweler camau gweithredu 1, 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13. | Bod â chynnig gofal plant da ar gyfer pob rhiant ledled Blaenau Gwent. | Fel uchod. |
| Aelwydydd di-waith | Mae tîm EYCP yn gweinyddu cynllun Cymorth Lle i gefnogi gofal plant gydag anawsterau/agored i niwed.<br><br>Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi ardaloedd o amddifadedd ym Mlaenau Gwent lle gall rhieni/gofalwyr gael mynediad i ofal plant am ddim. | Mae'r cyllid ar gyfer Cymorth Lle yn gyfyngedig felly mae'r meini prawf ar gyfer y cynllun yn gaeth. Dim ond ar gyfer teuluoedd gydag anawsterau sylweddol/agored i niwed y mae'r gwasanaeth ar gael. | 18. Monitro'r defnydd o Gymorth Lle i sicrhau ei fod yn parhau i gael ei dargedu at y teuluoedd mewn mwyaf o angen. | Sicrhau y caiff teuluoedd sy'n profi anawsterau eu cefnogi gyda gofal plant ansawdd da. | Monitro chwarterol i barhau. |
| Teuluoedd incwm isel | Fel uchod.<br><br>Bydd cynllun peilot Cynnig 30 Awr yn cefnogi gofal plant ar gyfer pob teulu gyda rhieni'n gweithio 16 awr neu fwy | Fel uchod | Gweler camau gweithredu 1, 2, 3, 4, 13, 14, 18 | Bod â chynnig gofal plant da ar gyfer pob rhiant ar draws Blaenau Gwent | D/g |
| Teuluoedd un rhiant | Fel uchod | Mae diffyg gofal plant hyblyg yn debygol o fod yn fwy o broblem i deuluoedd un rhiant | 19. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i fynychu sesiynau Grŵp Un Rhiant i roi | Cael cynnig gofal plant da ar gyfer pob rhiant ledled Blaenau Gwent. | Trefnu dyddiadau sesiynau grŵp teuluoedd un rhiant. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gwybodaeth am ofal plant a'r cymorth ariannol sydd ar gael. | | |
| Teuluoedd o gefndir lleiafrifoedd ethnig | Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu fod teuluoedd lleiafrif ethnig yn profi rhwystrau neilltuol. | D/G | D/G | D/G | D/G |
| Teuluoedd â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd | Byddai'n ymddangos fod nifer y plant a gefnogir yn gymesur â data'r boblogaeth gyffredinol.<br><br>Caiff cefnogaeth un-i-un ar gyfer plant sy'n cael mynediad i ddarpariaeth cyn-ysgol ei gyllido gan is-banel Anghenion Ychwanegol.<br><br>Tîm EYCP yn cyrchu hyfforddiant Anghenion Ychwanegol yn 16/17. | Peth tystiolaeth fod rhai rhieni yn teimlo na all darparwyr ddiwallu anghenion eu plant.<br><br>Galw isel am hyfforddiant Anghenion Ychwanegol gan ddarparwyr. | 20. Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i dargedu grwpiau cymorth rhieni sydd wedi sefydlu i hyrwyddo gofal plant a chael adborth ar broblemau a gaiff teuluoedd plant gydag anghenion ychwanegol.<br><br>21. Ymchwilio anghenion teuluoedd gyda phlant sydd ag anghenion ychwanegol i ddynodi bylchau ac anawsterau'n cael mynediad i | Bod â chynnig gofal plant da ar gyfer pob rhiant ar draws Blaenau Gwent. | Ymweld â grwpiau cymorth rhieni a hyrwyddo gofal plant a ffynonellau cymorth ariannol.<br><br>Rhannu gwybodaeth gyda'r Tîm EYCP am anawsterau a gafodd teuluoedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | wasanaethau gofal plant. | | |

**Materion eraill i gael eu hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | Camau Gweithredu | Blaenoriaethau | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|---|
| Pa mor gynaliadwy yw'r sector gofal plant? | Dim ceisiadau grantiau am gynaliadwyedd yn 16/17 yn arwydd o iechyd cyffredinol dda y sector. | Costau'n cynyddu oherwydd pensiynau a'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn gwneud elw'n dynnach i ddarparwyr. | 22. Monitro misol ar gynaliadwyedd i barhau.<br><br>23. Cymorth busnes i gael ei ddarparu fel sydd angen.<br><br>24. Grantiau cynaliadwyedd i fod ar gael eto yn 17/18. | Pob gosodiad gofal plant i fod yn gynaliadwy. | Monitro misol i barhau.<br><br>Hyrwyddo grantiau cynaliadwyedd yn ystod 17/18 gyda dyddiad cau o Ionawr 2018. |
| Trefniadau Trawsffiniol | Darpariaeth gofal plant mewn awdurdodau cyfagos yn cynnig mwy o ddewis ar gyfer rhieni ym Mlaenau Gwent. | Ychydig o dystiolaeth am nifer rhieni Blaenau Gwent sy'n defnyddio gofal plant y tu allan i Flaenau Gwent a phlant o ardaloedd eraill yn defnyddio gofal plant o fewn Blaenau Gwent (oherwydd cyfraddau ymateb isel | 25. Asesu yn ystod digwyddiadau cyswllt â rhieni y galw tebygol am leoedd gofal plant allan o'r ardal.<br><br>26. Monitro'r plant sy'n cyrchu lleoedd addysg Blynyddoedd Cynnar tu allan i'r | Rhieni yn gallu gwneud y dewisiadau gofal plant sy’n fwyaf addas i'w hanghenion | Rhaglen cyswllt rhieni - Ebrill-Rhagfyr 2017<br><br>Monitro pob tymor y galw am Addysg Blynyddoedd Cynnar |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | i arolygon rhieni) | Fwrdeisdref a'r rhai o'r tu allan sy'n ei chyrchu ym Mlaenau Gwent | | |
| Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu | Monitro lefel uchel ar gymwysterau a hyfforddiant gweithlu.<br><br>Defnydd a phresenoldeb da ar hyfforddiant gorfodol. | Llai o alw am hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus.<br><br>Diffyg ymarferwyr gofal plant gyda chymwysterau i ateb yr anghenion cynyddol yn gysylltiedig â'r cynnig 30 awr. | 27. Ymchwilio defnydd grantiau i gefnogi'r sector i fedru cymryd cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus.<br><br>28. Annog galw am gymwysterau a gynigir i'r gweithlu.<br><br>29. Cynnig rhaglen o weithdai hyfforddiant i bobl sydd â diddordeb mewn dod yn ymarferwyr gofal plant.<br>(Gweithdai Dewisiadau Gofal Plant, Agored a chymwysterau Lefel 2). | Mae gan weithlu gofal Blaenau Gwent gymwysterau uchel ac mae wedi'i hyfforddi'n dda, oherwydd buddsoddiad gan EYDCPP mewn blynyddoedd diweddar. | Adolygu rhaglen grantiau - Gorffennaf 2017 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio mewn Partneriaeth | Mae lefel dda iawn o ymgysylltu rhwng y tîm EYCP a'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant ym Mlaenau Gwent.<br><br>Perthynas dda gyda sefydliadau ymbarel - i gyd yn rhan o'r EYDCPP. | Bu'n anodd cynnal cyswllt gyda gofalwyr plant oherwydd ymrwymiadau personol ynghyd â diffyg dealltwriaeth o gefnogaeth a manteision EYCP. | 30. Canolbwyntio ar ymgysylltu gyda gofalwyr plant i annog y defnydd o'r gefnogaeth sydd ar gael.<br><br>31. Hyrwyddo gweithio partneriaeth drwy gyflwyno'r cynnig 30 awr. | Pob sefydliad gyda diddordeb mewn gofal plant ym Mlaenau Gwent yn cydweithio i sicrhau fod gofal plant yn diwallu anghenion rhieni ym Mlaenau Gwent ac o ansawdd uchel. | |